Dadansoddi ar gyfer Polisi

YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH

GSR

GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH

Analysis for Policy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ymchwil gymdeithasol
Social research

Rhif: 06/2012

www.cymru.gov.uk

# Gwerthusiad o'r Gronfa Arallgyfeirio Swyddfeydd Post

# Gwerthusiad o'r Gronfa Arallgyfeirio Swyddfeydd Post Adroddiad Terfynol


## SQW Limited


Mae'r farn a fynegir yn yr adroddiad hwn yn farn yr ymchwilydd ac nid o reidrwydd yn farn Llywodraeth Cymru


I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â:

Siân Jones

Gwasanaeth Gwybodaeth a Dadansoddiad

Llywodraeth Cymru

Swyddfa Merthyr Tudful

Merthyr Tudful

CF48 1UZ

Ffôn: 0300 0628126

E-bost: SJ&LGResearch&InformationUnit@Wales.GSI.Gov.UK



Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth Cymru, 2012

ISBN: 978 0 7504 6969 2



© Hawlfraint y Goron 2012

## Cynnwys

Rhestr acronymau....................................................................................i
1. Rhagarweiniad ....................................................................................1
2. Trosolwg o Gronfa Arallgyfeirio Swyddfeydd Post....................................4
3. Rheoli a Chyflenwi Gweithgareddau Hyd Yma........................................20
4. Canlyniadau ac effeithiau .........................................................................34
5. Casgliadau ...............................................................................................57
Atodiad A: Buddiolwyr Rhaglen - dadansoddiad arolwg manwl ....................64
Atodiad B: Ymgeiswyr Aflwyddiannus a Rhai Na Wnaeth Gais – ddansoddiad manwl o’r arolwg ........................................................................................79
Atodiad C: Astudiaethau Achos .....................................................................86

## Rhestr acronymau

PODF – Cronfa Arallgyfeirio Swyddfeydd Post (2009-2012)

PODevF – Cronfa Datblygu Swyddfeydd Post (2002-2006)

SP – Swyddfa’r Post

Dim-SP – Dim Swyddfa’r Post

WG – Llywodraeth Cymru

# 1. Rhagarweiniad

## Rhagarweiniad i'r Gronfa Arallgyfeirio Swyddfeydd Post

1.1. Sefydlwyd Cronfa Arallgyfeirio Swyddfeydd Post (PODF) gan Lywodraeth Cymru ym mis Ionawr 2009 yn dilyn yr ymrwymiad i agor cronfa wedi ei hail-ganolbwyntio ar gyfer swyddfeydd post yn nogfen polisi Cymru'n Un. Er nad yw materion swyddfa'r post wedi eu datganoli, cyflwynodd Llywodraeth Cymru y Gronfa i gydnabod y manteision cymunedol pwysig sy'n gysylltiedig â chynnal rhwydwaith swyddfeydd post ar draws Cymru.

1.2. Nod y PODF oedd annog swyddfeydd post i arallgyfeirio, a gwella'r busnesau manwerthu a oedd ynghlwm wrth swyddfeydd post, ac felly eu galluogi i barhau'n fasnachol hyfyw a chynaliadwy, a bod o fudd mwy eang i gymunedau lleol. Targedwyd y Gronfa at yr holl is-swyddfeydd post ledled Cymru. Er mwyn cyflawni'r nodau hyn darparodd y Gronfa grantiau cyfalaf drwy gyfres o bum rownd ariannu, a grantiau refeniw ar gyfer y tair rownd gyntaf. Roedd grantiau o lai na £5,000 ar gael ar gyfer prosiectau graddfa fach; roedd grantiau o hyd at £20,000 ar gael ar gyfer gweithgareddau arallgyfeirio mwy. Yn y pedair rownd ariannu gyntaf (2009-11), dyfarnwyd 229 o grantiau, gyda 87 grant arall yn cael eu dyfarnu ym mis Gorffennaf 2011 yn ystod pumed rownd, a rownd olaf, yr ariannu.

1.3. Roedd y Gronfa yn adeiladu ar fenter flaenorol - Cronfa Datblygu Swyddfeydd Post - a oedd ar waith rhwng 2002 a 2006, ac yn darparu grantiau i swyddfeydd post mewn ardaloedd difreintiedig er mwyn gwneud gwaith cyfalaf a fyddai'n cynyddu nifer y cwsmeriaid a refeniw busnesau a oedd ynghlwm wrth swyddfeydd post.

## Nodau'r astudiaeth

1.4. Ym mis Mehefin 2011, comisiynwyd SQW gan Lywodraeth Cymru i werthuso'r PODF.  Nodau'r gwerthusiad oedd:

- Adolygu i ba raddau y cyflawnwyd y nodau a'r amcanion a fwriadwyd.
- Asesu effeithiolrwydd rheolaeth a darpariaeth y rhaglen .
- Asesu'r canlyniadau a'r effeithiau a gyflawnwyd gan y Gronfa, ar y swyddfeydd post a gyfranogodd a'r economi a'r gymuned leol ehangach.

1.5. Yn ogystal, roedd gofyn i'r gwerthusiad asesu ychwaneged (h.y. i ba raddau y mae effeithiau yn ychwanegol, uwchlaw a thu hwnt i'r hyn a allai fod wedi ei gyflawni beth bynnag) a'r gwerth am arian a gyflawnwyd gan y Gronfa. Hefyd gofynnwyd i'r gwerthusiad wneud sylw ynglŷn ag a oes sail resymegol barhaus ar gyfer ymyrraeth ac, os oes, i wneud argymhellion ynglŷn ag ar ba ffurf y gellid darparu cymorth yn y dyfodol.

## Dull y gwerthusiad

1.6. Roedd y gwerthusiad hwn yn cyfuno dulliau ymchwil meintiol ac ansoddol. Dros gyfnod o dri mis cynhaliodd SQW amrywiaeth o ymgynghoriadau a dadansoddiadau, yn cynnwys:

- Dadansoddiad desg o ddata ynglŷn â buddiolwyr a gwariant.
- Adolygiad o ddogfennaeth Cronfa-benodol a strategaeth.
- Cyfweliadau lled-strwythuredig gyda staff rheoli a chyflenwi yn Llywodraeth Cymru.
- Cyfweliadau lled-strwythuredig gyda rhanddeiliaid allanol, yn cynnwys Swyddfa'r Post Cyfyngedig, Llais Defnyddwyr Cymru, Grŵp y Post Brenhinol yng Nghymru, a Ffederasiwn Cenedlaethol yr Is-bostfeistri.

- Arolwg ffôn graddfa fawr gyda 144 o’r 217 o fuddiolwyr y Gronfa, yn cynrychioli sampl ystadegol arwyddocaol o fuddiolwyr o rowndiau ariannu 1 i 4.
- Astudiaethau achos manwl gyda chwe buddiolwr ledled Cymru, a oedd yn cynnwys ymgynghori â’r Is-bostfeistr, cynrychiolwyr y gymuned ac aelodau'r gymuned ym mhob lleoliad.
- Arolwg ffôn ychwanegol, a oedd yn cynnwys 28 ymgeisydd aflwyddiannus a 28 Is-bostfeistr na wnaeth gais am grant.

- **Strwythur yr adroddiad**

  - Mae’r adroddiad hwn wedi ei strwythuro yn y modd canlynol:

- Yn **Adran 2** ceir trosolwg o’r PODF.
- Yn **Adran 3** ceir adolygiad o’r prosesau rheoli a chyflenwi, a throsolwg o weithgareddau a gyflawnwyd hyd yma.
- Yn **Adran 4** ceir tystiolaeth o ganlyniadau ac effeithiau a gyflawnwyd gan y Gronfa. Mae hyn yn cynnwys asesiad o ychwaneged a gwerth am arian.
- Yn **Adran 5** cyflwynir ein canlyniadau a’n hargymhellion ar gyfer gwneuthurwyr-polisi yn y dyfodol.

1.7. Cefnogir yr adroddiad hwn gan bedwar Atodiad: Mae Atodiad A yn rhoi dadansoddiad manwl o’r arolwg buddiolwyr; mae atodiad B yn cyflwyno canfyddiadau’r arolygon gydag ymgeiswyr aflwyddiannus a rhai na wnaeth gais; Mae Atodiad C yn cynnwys y chwe astudiaeth achos; mae Atodiad D yn rhestru’r unigolion yr ymgynghorwyd â hwy fel rhan o’r astudiaeth hon.

## 2. Trosolwg o Gronfa Arallgyfeirio Swyddfeydd Post

2.1. Yn yr Adran hon rhown drosolwg o'r cyd-destun ar gyfer y PODF. Yna amlinellwn gynllun y PODF, a rhown argymhellion ar sut y gellid gwella hyn yn y dyfodol er mwyn sicrhau bod cynllun y rhaglen yn fwy rhesymegol a chadarn.

**Y cyd-destun: heriau a wynebir gan swyddfeydd post yng Nghymru a'r DU a pholisi Llywodraeth Cymru**

*Polisi'r DU*

2.2. Ym mis Chwefror 2011, dywedodd Ffederasiwn Cenedlaethol yr Is-bostfeistri bod, ar lefel y DU,

> *"Dwy raglen cau fawr gan y llywodraeth, tynnu'n ôl llawer o wasanaethau allweddol y llywodraeth a newidiadau cymdeithasol ac economaidd eraill sydd wedi golygu cau 7,000 o swyddfeydd post dros y degawd diwethaf"* a bod *"incwm is-swyddfeydd post yn parhau'n bryderus o isel"*[1].

2.3. Mewn adroddiad a gyhoeddwyd gan yr Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau (BIS) ym mis Tachwedd 2010 yn dwyn y teitl 'Diogelu'r Rhwydwaith Swyddfeydd Post yn yr Oes Ddigidol', cydnabu Llywodraeth y DU bod Swyddfa'r Post yn fwy nag endid masnachol gan fod iddi "ddiben cymdeithasol arbennig" ac ymrwymodd i sicrhau bod swyddfeydd post yn parhau'n ased cymdeithasol ac economaidd gwerthfawr ar gyfer cymunedau a busnesau fel ei gilydd. Ceisiodd yr adroddiad hwn atal rhagor o gau swyddfeydd post drwy Gronfa gwerth £1.34 biliwn i foderneiddio'r rhwydwaith swyddfeydd post dros bedair blynedd hyd 2015. Byddai hyn yn annog is-swyddfeydd post i newid i'r model 'Swyddfa'r Post Lleol' newydd (sydd wedi ei gynnal ar ffurf peilot dros y ddwy flynedd ddiwethaf, yn cynnwys pedwar lleoliad yng Nghymru), ehangu a gwella defnydd TG, a chefnogi ehangiad

[1] http://www.nfsp.org.uk/uploads/pdfs/NFSP%20briefing%20Postal%20Services%20Bill%20House%20of%20Lords%20second%20reading%20Feb11.pdf

gwasanaethau ariannol personol hygyrch a fforddiadwy sydd ar gael drwy swyddfa'r post. Lleolir Swyddfeydd Post Lleol mewn mannau manwerthu sy'n bodoli eisoes, a'r bwriad yw adeiladu gwytnwch i'r model busnes a galluogi swyddfeydd post i aros ar agor yn hwy. Ers hynny, gwnaed cynigion i ailstrwythuro'r rhwydwaith swyddfeydd post, gan greu 2,000 o Swyddfeydd Post Lleol yn genedlaethol, yn ogystal â dynodi 4,000 o "brif swyddfeydd post" mewn canol trefi a dinasoedd.

2.4. Derbyniodd y Ddeddf Gwasanaethau Post Gydsyniad Brenhinol ar 13 Mehefin 2011. Nod y Ddeddf yw moderneiddio gwasanaethau post drwy ailstrwythuro'r rhwydwaith swyddfeydd post. Mae darpariaethau'r Ddeddf yn cynnwys:


- cynnal y gwarant gwasanaeth cyffredinol;
- posibilrwydd bod swyddfeydd post yn y rhwydwaith yn dod yn gydddibynnol;
- dim rhaglenni pellach o gau swyddfeydd post;
- cadarnhad y bydd £1.34 biliwn yn cael ei wario ar Swyddfa'r Post er mwyn moderneiddio'r rhwydwaith a diogelu ei ddyfodol.

*Cyd-destun Cymreig*

2.5. Mae'r PODF yn targedu Is-bostfeistri ledled Cymru, sy'n rhedeg swyddfeydd post fel asiantau hunangyflogedig ar gyfer Swyddfa'r Post[2]. Ar hyn o bryd mae tua 950 o swyddfeydd post yng Nghymru, er bod y nifer wedi lleihau gan draean ers 2000/01, fel y dangosir isod. Cynyddodd y gyfradd cau, yn arbennig yn 2003-05 a 2008-09, o ganlyniad i'r Rhaglen Ailddyfeisio Rhwydwaith Trefol a'r Raglen Newid Rhwydwaith, yn y drefn honno.

[2] Er bod Is-bostfeistri ar y cyfan yn berchen ar adeilad y swyddfa bost, cânt eu talu gan Swyddfa'r Post Cyfyngedig drwy ddau daliad (un wedi ei dalu waeth beth fo lefelau trafodion ac un yn seiliedig ar y nifer a math y trafodion yn y swyddfa bost). Caiff mwyafrif swyddfeydd post y DU eu rhedeg yn y modd hwn, er y caiff rhai eu rheoli'n uniongyrchol gan Swyddfa'r Post Cyfyngedig.

**Ffigur 2-1: Nifer y swyddfeydd post yng Nghymru**




## Adolygiad o gynllun y PODF

*Sail resymegol ar gyfer ymyrraeth*

*Y Gronfa Datblygu Swyddfeydd Post flaenorol*

2.6. Sefydlwyd Cronfa Datblygu Swyddfeydd Post (PODevF) yn 2002 ac roedd yn cynnig grantiau i swyddfeydd post mewn cymunedau trefol o amddifadedd a swyddfeydd gwledig ynysig ar gyfer proseictau a fyddai'n cynyddu hyfywedd ariannol swyddfeydd post a bod o fudd i gymunedau lleol. Daeth y prif sbardun ar gyfer datblygiad polisi yn ymwneud â swyddfeydd post yn wreiddiol o'r cynllun i symud budd-daliadau i daliadau uniongychol yn 2003, a credid y byddai hyn yn golygu colled o hyd at 40% i incwm blynyddol

swyddfeydd post. Sefydlwyd y PODevF yn bennaf i achub y blaen ar yr heriau ariannol dilynol – a chau posibl - swyddfeydd post.[3]

2.7. Rhaglen grant cymorth gwerth £4.1 miliwn oedd y PODevF, a oedd ar gael i swyddfeydd post oedd wedi eu lleoli yn 125 o'r cymunedau o amddifadedd mwyaf[4] a/ neu fwyaf ynysig yng Nghymru (gan fod tystiolaeth ymchwil wedi dangos bod cymunedau o amddifadedd ac ynysig yn cael eu heffeithio'n anghymesur o ganlyniad i golli swyddfa bost leol).

2.8. Cynlluniwyd y PODevF, a gyflwynwyd mewn pedair rownd rhwng mis Tachwedd 2002 a mis Mawrth 2006, i ***roi cymorth i gadw a datblygu swyddfeydd post mewn cymunedau difreintiedig ledled Cymru***, drwy hyrwyddo arallgyfeirio a chynyddu hyfywedd. Nod y PODevF oedd cefnogi swyddfeydd post i ehangu eu hystod o wasanaethau swyddfa'r post sydd ar gael, neu i arallgyfeirio i ddarparu cynhyrchion a gwasanaethau eraill, yn dilyn cydnabod nad oedd swyddfa'r post mwyach yn unig ddarparwr ar gyfer nifer o'i wasanaethau traddodiadol (gyda debyd uniongyrchol, bancio post a'r rhyngrwyd yn dod yn ffyrdd cynyddol boblogaidd o dalu biliau a phrynu trwyddedau teledu a threth car).

2.9. Cynllun grantiau cyfalaf oedd hwn a oedd yn canolbwyntio'n unig ar:

- welliannau adeileddol/esthetig;
- mesurau diogelwch;
- gwell mynediad neu gyfleusterau ar gyfer pobl anabl;
- cynhyrchion a gwasanaethau newydd.

2.10. Cynhaliwyd gwerthusiad o PODevF Llywodraeth Cynulliad Cymru gan yr Uned Ymchwil Cyfiawnder Cymdeithasol a Gwybodaeth yn 2006. Dangosodd hyn bod y PODevF yn cefnogi 106 o swyddfeydd post (64 mewn ardaloedd

[3] Llywodraeth Cynulliad Cymru (2002) datganiad *ROAME ar gyfer y PODevF, Hydref 2002.*
[4] A bennwyd drwy'r Mynegrif Amddifadedd Lluosog ar gyfer Cymru 2000 2000, mynediad at barth gwasanaethau

trefol a 42 mewn ardaloedd gwledig, fel y diffinnir gan delerau'r PODevF) gan ddyfarnu grant ar gyfartaledd o rhwng £40,000 a £50,000. Caiff effeithiau'r PODevF a ganfuwyd gan y gwerthusiad eu crynhoi yn Nhabl 2.1.

**Tabl 2-1: Effaith y PODevF ar swyddfeydd post a'r gymuned a'r economi yn fwy eang**

| Swyddfeydd post | Y gymuned a'r economi |
|---|---|
| • Cadwyd wyth swyddfa bost a busnesau cysylltiedig yn agored, a fyddai fel arall wedi cau, gyda'r 28 arall yn ansicr ynglŷn ag a fyddent yn dal i weithredu heb y gronfa.<br>• Ariannwyd 83 prosiect o faint sylweddol.<br>• Cynyddwyd hyfywedd masnachol bron yr holl fusnesau swyddfa'r post a gefnogwyd.<br>• Cynyddwyd y tebygolrwydd o godi incwm manwerthu a nifer cwsmeriaid yn arbennig ar gyfer y rheiny oedd yn defnyddio'r gronfa ar gyfer gwelliannau adeileddol ac aesthetig a mesurau diogelwch.<br>• Tynnwyd i mewn dros £0.5 miliwn o fuddsoddiad preifat. | • Roedd mynediad i bron bob swyddfa bost a gefnogwyd wedi gwella.<br>• Roedd derbynwyr grant yn credu bod eu busnes yn fwy defnyddiol i'r economi leol.<br>• Cynyddwyd oriau agor.<br>• Crëwyd tua 80 o swyddi rhan amser newydd ar gyfer ardaloedd o amddifadedd neu ynysig yng Nghymru.<br>• Cyflwynwyd mynediad rhyngrwyd/TG i ddeg swyddfa bost a oedd yn dderbynwyr grant.<br>• Cyflwynwyd undebau credyd a gwasanaethau cyngor ar ddyled (gwasanaethau sydd angen cael eu hysgogi i ddechrau ond sy'n angenrheidiol ar gyfer y dyfodol).<br>• Mwy o ddarpariaeth cynhyrchion Lleol.<br>• Datblygu cysylltiadau gyda busnesau a chyfleusterau lleol eraill.<br>• Teimlad o hyder yn y gymuned. |

*Ffynhonnell: Gwerthusiad o'r PODevF, Uned Ymchwil Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio, 2006*

*Cronfa Arallgyfeirio Swyddfeydd Post*

2.11. Yn dilyn cau'r PODevF, yn 2007 gwnaeth Llywodraeth Cymru yr ymrwymiad canlynol yn y polisi Cymru'n Un:[5]

> *"Byddwn yn ailsefydlu ac yn ailffocysu'r Gronfa Datblygu Swyddfeydd Post, gan ymchwilio ar y cyd â chydweithwyr mewn llywodraeth leol i ffyrdd o, ddefnyddio swyddfeydd post yn well er dibenion awdurdodau lleol, busnesau a gwasanaethau lleol eraill. Byddwn yn annog hefyd osod peiriannau tynnu arian am ddim mewn swyddfeydd post."*

[5] Llywodraeth Cynulliad Cymru (2007) *Cymru'n Un: Rhaglen flaengar ar gyfer llywodraethu Cymru*

2.12. Disgwyliwyd i'r PODF £4.5 miliwn weithredu o fis Ionawr 2009 hyd fis Mawrth 2012.

2.13. Er mwyn llywio cynllun y rhaglen, ymgynghorodd Llywodraeth Cymru gydag amrywiaeth o randdeiliaid (megis Swyddfa'r Post Cyfyngedig, Ffederasiwn Cenedlaethol yr Is-bostfeistri a Grŵp y Post Brenhinol yng Nghymru) ynglŷn â'r materion a wynebwyd gan is-swyddfeydd post, a'r math o gymorth a fyddai fwyaf effeithiol. Fodd bynnag, ni chynhaliwyd ymchwil sylfaenol gydag Is-bostfeistri er mwyn asesu eu hanghenion. Teimlwyd bod tystiolaeth ar gyfer yr angen am raglen o'r fath eisoes wedi ei hen sefydlu a'i dogfennu'n dda o'r rhaglen ariannu ddiwethaf ac ymchwil arall ar fanteision cymdeithasol swyddfeydd post. Cefnogwyd hyn ymhellach gan bapur gwyn y BIS ar swyddfeydd post, a nododd bod Swyddfa'r Post Cyfyngedig yn parhau i wneud colled a bod nifer y canghennau yn lleihau ledled y DU[6].

2.14. Felly roedd y sail resymegol ar gyfer y PODF yn debyg i'r un ar gyfer y gronfa flaenorol, sef atal y patrwm o swyddfeydd post yn cau, yn arbennig mewn cymunedau o amddifadedd ac ynysig lle'r ystyriwyd fod bodolaeth swyddfa bost yn angenrheidiol i gynnal cymunedau. Nid oedd nifer o swyddfeydd post yn ariannol hyfyw os byddent yn dibynnu'n unig ar refeniw a dderbyniwyd gan Swyddfa'r Post Cyfyngedig am y gwasanaethau yr oeddent yn eu darparu, yn arbennig mewn rhai ardaloedd gwledig lle nad oedd nifer y cwsmeriaid yn uchel iawn. Ystyriwyd felly ei bod yn briodol i annog Is-bostfeistri i arallgyfeirio i feysydd busnes dim-SP eraill, neu i wella'r busnesau hyn fel y gallant elwa o ffrydiau refeniw ychwanegol[7].

2.15. Cefnogwyd y sail resymegol dros ymyrraeth hefyd gan randdeiliaid allanol yr ymgynghorwyd â hwy fel rhan o'r gwerthusiad hwn, a bwysleisiodd faterion ynglŷn â dirywiad ym musnes craidd swyddfa'r post (megis colli contract y DVLA, trwyddedau teledu, a budd-daliadau DWP yn cael eu talu'n uniongyrchol i gyfrifon banc), y patrwm tuag at gyrchu gwasanaethau ar-lein

---

[6] BIS (2010) Diogelu'r Rhwydwaith Swydfeydd Post yn yr Oes Ddigidol.

[7] Mae gan Loegr ei Chronfa ei hun yn canolbwyntio ar atal cau swyddfeydd post trefol, ac roedd yr heriau arbennig a wynebwyd gan Gymru, gyda nifer uwch o swyddfeydd post gwledig, yn golygu ei bo dyn briodoli sefydlu cronfa ar wahân.

(ar gyfer rhai grwpiau), yr angen i sicrhau cynaliadwyedd cymunedol ac adfer hyder ymhlith Is-bostfeistri ar ôl y rhaglen cau swyddfeydd post 2007. O ganlyniad, roedd arallgyfeirio incymau swyddfeydd post, yn arbennig gan weithgareddau nad sy'n rhai swyddfa'r post, yn hollbwysig.

2.16. Penderfynwyd hefyd i beidio â thargedu'r PODF yn ofodol, gan wneud pob is-swyddfa bost ar draws Cymru yn gymwys am y grant. Y farn o du Llywodraeth Cymru oedd bod "cynaliadwyedd rhwydwaith swyddfeydd post yn dibynnu ar gwmpas daearyddol llawn"[8]. Dadl arall gwerthusiad y PODevF oedd nad yw cymuned sy'n ynysig o reidrwydd yn dioddef amddifadedd ac y gallai meini prawf cymhwyster seiliedig ar ddaearyddiaeth hepgor rhai swyddfeydd post a oedd yn rhan o wead cymunedau ond a oedd mewn perygl o gau.[9] Yn hytrach, argymhellodd bod pob cais yn cael ei farnu ar sail achos unigol. Mae SQW yn cytuno bod asesu ceisiadau ar sail angen (yn hytrach na lleoliad daearyddol) yn briodol.

2.17. Ni nodwyd methiannau'r farchnad na methiannau eraill yn glir yn y dogfennau a roddwyd ar gael i ni. Ar sail dealltwriaeth SQW o'r PODF ac arbenigedd yn y farchnad a methiannau eraill, mae'n ymddangos mai'r rhain yn bennaf oedd:

- Mynediad at arian – diffyg arian i fuddsoddi mewn gwelliannau neu arallgyfeirio.
- Methiant o ran gwybodaeth - nid oedd Is-bostfeistri bob amser yn ymwybodol o'r cyfleoedd ar gyfer arallgyfeirio, na'r ffordd orau i wella hyfywedd economaidd neu gynaliadwyedd eu busnes.
- Allanoldebau cadarnhaol – roedd sicrhau bod swyddogaethau swyddfa'r post yn gynaliadwy yn arwain at fanteision cymdeithasol ar gyfer cymunedau lleol.

[8] Llywodraeth Cynulliad Cymru (2011) Manyleb Ymchwil ar gyfer Gwerthusiad o PODF Llywodraeth Cynulliad Cymru*.*
[9] Llywodraeth Cynulliad Cymru (2006) *Gwerthusiad o Gronfa Datblygu Swyddfeydd Post.*

2.18. Ni oedd y sail resymegol dros y PODF, y farchnad neu fethiannau eraill y bwriadwyd i'r ymyrraeth fynd i'r afael â hwy, a thystiolaeth gefnogol i ddangos angen a darparu safle gwaelodlin ar gyfer 2009, wedi eu hegluro mewn un ddogfen. Efallai'n wir bod angen ymyrraeth i fynd i'r afael â'r heriau a wynebwyd gan Is-bostfeistri, ond byddai wedi bod yn ddefnyddiol egluro hyn yn glir fel rhan o'r broses o gyfiawnhau a chytuno ar gynnwys y rhaglen. Un canlyniad i'r bwlch hwn yw nad oes asesiad o ble a sut y dylid defnyddio adnoddau i fodloni anghenion penodol. O gofio'r adnoddau cyfyngedig, byddem yn awgrymu y dylai'r Gronfa fod wedi ei thargedu'n fwy effeithiol ar sail angen (h.y. lle yr oedd angen mwyaf o ran y swyddfa bost ei hun, a hefyd y gymuned ehangach, a lle gallai gael yr effaith fwyaf), nodi lle byddai Is-bostfeistri yn lleiaf tebygol i arallgyfeirio a buddsoddi eu hunain. Byddai hyn wedi cynorthwyo i sicrhau bod y Gronfa yn rhoi'r ennillion *net* gorau posibl ar fuddsoddiad (h.y. canlyniadau na fyddai wedi digwydd fel arall).

**Nodau ac amcanion Strategol**

2.19. Yn strategol, roedd y Gronfa wedi ei chyfateb yn dda i gytundeb Cymru'n Un (prif ddogfen y Llywodraeth ar yr adeg pan sefydlwyd y PODF, sydd erbyn hyn wedi ei disodli gan y Rhaglen Lywodraethu 2011-16), a nifer o bolisïau ehangach, megis isadran creu cymunedau cynaliadwy yng Nghynllun Gofodol Cymru.[10]

**Tabl 2-2: Aliniad Strategol**

| | |
|---|---|
| Cymru'n Un: Rhaglen Flaengar ar gyfer Llywodraethu Cymru (2007) | • Defnyddio dull Cymru gyfan ar gyfer datblygu economaidd, a adlewyrchir yn ehangiad yr ardaloedd cymwys ar gyfer y PODF.<br>• Cynnwys ymrwymiad i adfer ac ail-ganolbwyntio'r Gronfa Datblygu Swyddfeydd Post.<br>• Mae ymrwymiadau yn cynnwys hyrwyddo sgiliau, cefnogi'r iaith Gymraeg, mynd i'r afael â thlodi plant, adfywio cymunedau a chreu swyddi, pob un yn amcanion y PODF. |
| Cynllun Gofodol Cymru (2008) | • Mae adeiladu cymunedau cynaliadwy yn ymrwymiad allweddol yn y Cynllun Gofodol, yn arbennig oherwydd bod llawer o Gymru wledig yn ardaloedd tenau eu poblogaeth, yn ogystal â mynd i'r afael ag amddifadedd. |

[10] Llywodraeth Cynulliad Cymru (2008) Pobl, Lleoedd, Dyfodol: Cynllun Gofodol Cymru *Diweddariad 2008.*

| | |
|---|---|
| | • Mae cynorthwyo i gadw swyddfeydd post yn agored yn cyd-fynd yn dda gydag ymrwymiad arall - y bydd Llywodraeth Cymru yn datblygu mynediad at wasanaethau. |
| Mae Pawb yn Cyfrif: Strategaeth Cynhwysiant Ariannol Cymru (2009) | • Strategaeth gyda'r nod o gynyddu mynediad at wasanaethau ariannol prif ffrwd, gan fod gan y rhain fanteision amlwg ar gyfer y rheiny ar incymau isel.<br>• Mae'r strategaeth yn nodi y gall swyddfeydd post hefyd chwarae rhan bwysig mewn mynd i'r afael â chynhwysiant ariannol. |

*Ffynhonnell: Dadansoddiad SQW*

2.20. Er bod gan staff rheoli yn Llywodraeth Cymru ddealltwriaeth glir o nodau ac amcanion y Gronfa, ni ddaethom o hyd i lawer o ddogfennaeth a oedd yn amlinellu'n glir beth oedd y Gronfa yn bwriadu ei gyflawni. Prif ffynhonnell y dystiolaeth ynglŷn â nodau ac amcanion yw'r meini prawf asesu yn erbyn pa rai yr ystyriwyd cynigion. Mae'r rhain yn datgan y dylai'r Gronfa gyflawni yn erbyn y 'meini prawf sylfaenol' canlynol[11]:

- **Arallgyfeirio - cyflwyno gweithgareddau busnes manwerthu newydd** (dim ond os na fydd y busnes newydd mewn cystadleuaeth â busnesau lleol eraill).
- **Gwella cynaliadwyedd y busnes dim-SP.**
- **Darparu diben economaidd neu gymdeithasol amlwg i'r gymuned –** mae hyn yn cynnwys darparu gwasanaethau ychwanegol neu hanfodol i'r gymuned leol e.e. diogelu'r unig fanwerthwr yn yr ardal neu fynediad y gymuned at arian parod.
- **Darparu budd amlwg i grwpiau difreintiedig.**

2.21. Mae 'meini prawf eilaidd', a oedd i'w hystyried lle bo'n berthnasol, wedi eu crynhoi isod.

**Ffigur 2-2: Meini prawf eilaidd**

- Amgylchiadau cymunedol e.e. amddifadedd/gwledig/Cymunedau yn Gyntaf.
- Cefnogi lleihad mewn tlodi (yn cynnwys tlodi plant), allgau ariannol, anghyfartaledd, gwahaniaethu neu anfantais Gymdeithasol.
- Gwella amgylchedd adeiledig neu naturiol yr ardal leol, yn cynnwys golwg y swyddfa

[11] Llywodraeth Cynulliad Cymru (2011*) Manyleb Ymchwil ar gyfer Gwerthusiad o PODF Llywodraeth Cynulliad Cymru.*

bost.

- Gwella lles y gymuned e.e. cynnal menter gydweithredol bwyd neu werthu ffrwythau a llysiau ffres a dyfwyd yn Lleol.
- Annog hyfforddiant ar gyfer pobl leol.
- Cynorthwyo gyda hyrwyddo cyfleoedd am swyddi a chynnydd mewn incwm.
- Ysgogi busnesau cymunedol a mentrau cymdeithasol.
- Cryfhau hunaniaeth ddiwylliannol ac ieithyddol y gymuned.
- Cryfhau materion diogelwch cymunedol ar gyfer y gymuned.
- Darparu budd a fydd yn para i'r gymuned.

*Ffynhonnell: Pecyn cais a nodiadau canllaw Llywodraeth Cymru (2010) ar gyfer ariannu o'r PODF i Gymru*

2.22. Yn gyffredinol, mae'r amcanion hyn yn ymddangos yn berthnasol i'r materion a'r heriau a amlinellir uchod, yn arbennig o ran gwella cynaliadwyedd ac ystod busnes dim-SP ac annog arallgyfeirio. Fodd bynnag, mae'r meini prawf sylfaneol ac eilaidd yn eang iawn a chredwn ni y byddai wedi bod yn fuddiol i gael rhagor o ffocws, naill ai drwy amlinellu un prif amcan, neu drwy flaenoriaethu'r rhestr. Heb hyn mae perygl y caiff y Gronfa ei gwasgaru'n rhy denau ar draws nifer o nodau, a bod dryswch ynglŷn â lle caiff ei defnyddio orau. Roedd diffyg eglurder hefyd mewn rhai o'r meini prawf – er enghraifft, pa fanteision penodol y mae'r Grofna yn dymuno eu cyflanwi ar gyfer grwpiau dan anfantais? A yw'r rhain wedi eu cyfyngu i welliannau i fynediad corfforol, neu a ydynt yn ehangach?

2.23. Pan asesir yr amcanion yn erbyn mesurau safonol ar gyfer cynllun y rhaglen, nid ydynt wedi eu cyfyngu gan amser, wedi eu meintoli nac yn fesuradwy. Yn hollbwysig, mae diffyg gwaelodlin, sy'n amlinellu'r sefyllfa gyd-destunol yn 2009 pan ddechreuodd y rhaglen (e.e. nifer yr is-swyddfeydd post a busnesau dim-SP ac ati). Bu felly'n anodd mesur cynnydd dros gyfnod bywyd y Gronfa, neu asesu a yw'r amcanion yn cael eu cyflawni.

## Gweithgareddau a chyflenwi

2.24. Yn dilyn ymrwymiad Cymru'n Un i "ailsefydlu ac ailffocysu'r Gronfa Datblygu Swyddfeydd Post", yr unig opsiynau a ystyriwyd ar y cychwyn i

gyflawni nodau arallgyfeirio a gwella hyfywedd busnes oedd gwahanol fathau o gymorth grant (yn hytrach nag ystyried ystod eang o ddulliau y gellid eu defnyddio i annog swyddfeydd post i arallgyfeirio/gwella). Cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymarferiad ymgynghori eang gyda rhanddeiliaid allweddol ynglŷn â beth ddylai'r gronfa hon fod. Ystyriodd Llywodraeth Cymru hefyd dendro am i'r Gronfa gael ei chyflenwi'n allanol, ond ystyriwyd y byddai'n fwyaf cost effeithiol i gyflenwi'r Gronfa yn fewnol.

2.25. Cynigwyd grantiau drwy bum rownd o gynigion i bob is-swyddfa bost yng Nghymru, a allai ariannu dau fath o weithgarwch:

- Gwelliannau adeiladau, yn cynnwys gwelliannau cosmetig/esthetig i gownteri ac arwyddion a gwaith atgyweirio na fyddai fel arall yn cael ei ariannu gan Swyddfa'r Post Cyfyngedig
- Arallgyfeirio a/neu wneud gwelliannau i'r busnes manwerthu sydd ynghlwm wrth y swyddfa bost, yn cynnwys moderneiddio'r busnes manwerthu cysylltiedig, darparu cyfleusterau TGCh ac offer hanfodol, gwella ac ehangu'r ardaloedd gwerthu.

2.26. Yn y rowndiau cynnar, roedd y PODF yn cynnig grantiau cyfalaf a refeniw; nid oedd grantiau refeniw ar gael yn flaenorol o dan y PODevF, ond ystyriwyd ariannu refeniw yn agwedd bwysig o'r broses arallgyfeirio. Cafodd maint y grantiau ei leihau o derfyn uchaf £50,000 yn y PODevF i £20,000 yn y PODF, yn bennaf o ganlyniad i gyngor gan randdeiliaid yr ymgynghorwyd â hwy yn ystod datblygiad y PODF (megis Swyddfa'r Post Cyfyngedig a Grŵp y Post Brenhinol) a oedd yn teimlo y gallai grantiau bach fod yr un mor effeithiol pe byddent yn cael eu targedu'n briodol. Cynigwyd tri math o grant o dan y PODF:

- Grantiau cyfalaf hyd at £5,000 – ar gyfer gwelliannau cosmetig megis gwella cownteri neu arwyddion.
- Grantiau cyfalaf hyd at £20,000 – ar gyfer gwella ac arallgyfeirio busnesau manwerthu a oedd ynghlwm wrth y swyddfa bost, yn

cynnwys gwella mynediad, darpariaeth TGCh ac offer hanfodol arall, a gosod goleuadau, larymau a theledu cylch cyfyng.

- Grantiau refeniw hyd at £15,000 – ar gyfer cyngor busnes a marchnata, hysbysebu gwasanaethau newydd, cyrsiau hyfforddi neu arian sefydlu meysydd arallgyfeirio newydd (ariannu swyddi staff newydd neu oriau ychwanegol dros gyfnod byr hyd nes y bydd y busnes newydd wedi ei sefydlu). Gellid defnyddio'r grant refeniw hefyd fel cronfa trosglwyddo rhyddhad ardrethi, gan roi cymorth pontio blwyddyn gyntaf i fusnesau.

2.27. Gallai Is-bostfeistri wneud cais am grant drwy lenwi ffurflen gais, a oedd yn gofyn am wybodaeth am:

- Dystiolaeth o'r anghenion cymunedol, wedi ei chael drwy ymgynghori â'r gymuned (ar gyfer grantiau graddfa fwy yn unig, ac ni sgoriwyd y wybodaeth hon gan Lywodraeth Cymru)
- Swm yr ariannu oedd ei angen, a manylion y prosiect arfaethedig (defnydd yr ariannu, amcangyfrifon cost, amserlenni ar gyfer cwblhau, cyfraniadau ariannol eraill, rheoli prosiect)
- Sut byddai'r grant yn gwneud y busnes yn fwy cynaliadwy, ac a fyddai swyddi yn cael eu creu/eu diogelu
- Sut byddai'r prosiect o fudd i'r gymuned leol, yn cynnwys grwpiau dan anfantais.

2.28. Er nad yw'r egwyddor o ddyfarnu arian wedi newid dros gyfnod y rhaglen, penderfynwyd na fyddai grantiau refeniw yn cael eu cynnig wedi'r tair rownd gyntaf o gynigion oherwydd anawsterau mewn gwario arian refeniw.

2.29. Rhan o'r ffordd drwy'r rhaglen cyhoeddwyd canllaw arfer gorau i gynorthwyo arallgyfeirio, a oedd yn cynnwys enghreifftiau o'r hyn oedd eisoes wedi ei wneud â'r grantiau[12]. Ei fwriad oedd cynorthwyo Is-bostfeistri i ysgrifennu eu ceisiadau am grantiau PODF, yn ogystal â rhoi syniadau ar

---

[12] Llais Defnyddwyr Cymru (2010) *Arallgyfeirio Swyddfeydd Post: Canllaw Arfer Da i Is-bostfeistri.*

gyfer arallgyfeirio. Mae Tabl 2-3 yn rhestru rhai argymhellion arfer gorau a gynhwysir yn y canllaw.

**Tabl 2-3: Argymhellion ar gyfer Is-bostfeistri a wnaed gan Llais Defnyddwyr Cymru**

| | |
|---|---|
| **Ymgynghori â'r gymuned leol** | • Mae hyn yn bwysig i sicrhau bod y gymuned yn cytuno â'r newidiadau arfaethedig: gallai hyn arwain at gwsmeriaid newydd os bydd yr Is-bostfeistr yn cysylltu â phobl nad sydd yn dueddol o ddefnyddio gwasanaethau swyddfa'r bost.<br>• Dewis dulliau ar gyfer ymgynghori yn ofalus, er enghraifft dosbarthu taflenni mewn mannau allweddol yn eich cymuned neu drwy gyrraedd grwpiau difreintiedig drwy gyfryngwr yr ymddiriedir ynddo.<br>• Darparu diweddariadau rheolaidd i aelodau'r gymuned.<br>• Cadw nodiadau fel y gallwch adeiladu tystiolaeth ar gyfer y cais. |
| **Ystyriaethau ymarferol** | • Cysylltu â Swyddfa'r Post Cyfyngedig os yw'r newidiadau yn ymwneud â newidiadau adeileddol i adeilad y swyddfa bost neu'n cynnwys darparu gwasanaethau a allai fod yn cael eu cynnig drwy Swyddfa'r Post Cyfyngedig, neu y gallent gael eu cynnig felly yn y dyfodol.<br>• Cysylltu â Ffederasiwn Cenedlaethol yr Is-bostfeistri a fydd yn gallu cynghori ymhellach.<br>• Sicrhau eich bod wedi trefnu'r gwaith papur/cydsyniadau priodol er mwyn symud ymlaen (caniatâd cynllunio, prynu tir ac ati). |

*Ffynhonnell: Llais Defnyddwyr Cymru (2010)*

**Mesuryddion perfformiad ar gyfer allbynnau, canlyniadau ac effeithiau**

2.30. Nid oedd gan y PODF nifer benodol o fuddiolwyr yr oedd yn bwriadu eu cyrraedd na thargedau eraill, nid oedd chwaith ddangosyddion perfformiad allweddol wedi eu sefydlu er mwyn cynorthwyo i farnu ar berfformiad yn ddiweddarach. Mae hyn yn dangos diffyg amcanion clir a CAMPUS[13] ar gyfer y Gronfa, y byddai dangosyddion perfformiad allweddol fel arfer yn dod ohonynt. Dylai unrhyw Gronfa yn y dyfodol sefydlu dangosyddion perfformiad allweddol a meintioli'r rhain lle bo hynny'n bosibl, o ran:

- Allbynnau – er enghraifft, nifer y buddiolwyr mewn grwpiau targed sydd wedi derbyn y grant, a fyddai'n sicrhau bod y Gronfa'n cael ei thargedu'n effeithiol tuag at y rheiny sydd â'r angen mwyaf.

[13] cyraeddadwy, amserol, mesuradwy, penodol, uchelgeisiol, synhwyrol

- Canlyniadau - er enghraifft, tracio'r newid mewn perfformiad ariannol is-swyddfa bost a'r busnes manwerthu cysylltiedig, neu dracio nifer y buddiolwyr sydd wedi arallgyfeirio'n llwyddiannus.


2.31. Mae hefyd yn angenrheidiol i asesu 'dangosyddion cyflwr', megis nifer yr is-swyddfeydd post, a'u perfformiad economaidd (e.e. hyfywedd economaidd/trosiant) ar lefel genedlaethol, er mwyn deall a yw'r Gronfa'n cael yr effeithiau a ddymunir ar gyfer y sector yn gyfan.

### Cadwyn resymeg gryno

2.32. Mae Ffigur 2-3 yn dangos cadwyn resymeg ar gyfer y rhaglen fel y credwn ni y bwriadwyd iddi weithio o'r cychwyn. Mae'r testun mewn du yn dangos gwybodaeth a gymerwyd o ddogfennaeth PODF[14]; mae'r testun mewn italig/browngoch yn dangos dehongliad SQW o elfennau'r gadwyn resymeg er mwyn llenwi'r bylchau yn y ddogfennaeth. Yn yr Adrannau dilynol, rydym yn asesu a yw'r Gronfa wedi ei chyflenwi fel y cynlluniwyd iddi, ac a yw wedi cyflawni'r canlyniadau a'r effeithiau a fwriadwyd.

[14] Seiliedig ar Llywodraeth Cynulliad Cymru (2011) *Manyleb Ymchwil ar gyfer Gwerthusiad o PODF Llywodraeth Cynulliad Cymru* (Atodiad A: Gweithgareddau Cymwys) a Llywodraeth Cynulliad Cymru (2008) Cronfa Datblygu Swyddfeydd Post wedi ei ailffocysu*: Dogfen Ymgynghori*

## Ffigur 2-3: Cadwyn Resymeg ar gyfer y PODF (fel y cynigwyd ar y cychwyn ym mis Ionawr 2009)




Ffynhonnell: SQW

## Trosolwg o'r Rhaglen - Negeseuon Allweddol

**Cynllun y rhaglen**

- Mae diffyg gwaelodlin ar gyfer 2009, yn amlinellu tystiolaeth sylfaenol a/neu eilaidd i ddangos math a maint y problemau y ceisiodd y Gronfa fynd i'r afael â hwy, yn erbyn pa rai y gellid mesur cynnydd.
- Caiff y nodau ac amcanion presennol eu mynegi ar ffurf meini prawf ar gyfer y broses dyfarnu grant, ac nid ydynt yn rhai CAMPUS iawn. Mae mesuradwyedd yn fater allweddol. Byddai wedi bod yn ddefnyddiol i'r Gronfa gael datganiad o nodau ac amcanion wedi ei gytuno, a beth oedd y Gronfa yn bwriadu ei gyflenwi (o ran gweithgareddau) a'i gyflawni (o ran canlyniadau ac effeithiau, wedi eu meintioli lle bo hynny'n bosibl).
    - Dylai'r Gronfa gael amcan trosfwaol (wedi ei gysylltu i'r effaith a fwriedir), wedi ei danategu gan nodau mwy manwl (yn ymwneud yn uniongyrchol â'r canlyniadau arfaethedig).
    - Dylai'r Gronfa hefyd gael dangosyddion perfformiad allweddol wedi eu hamlinellu'n glir ar gyfer allbynnau a chanlyniadau, a mecanweithiau priodol ar waith i fonitro'r rhain.
- Mae'r mathau o weithgareddau y gallai'r Gronfa eu cefnogi fel pe baent yn canolbwyntio ar welliannau adeileddol i fusnesau (er mwyn mynd i'r afael â phrif nod cyntaf y rhaglen - gwella hyfywedd busnes), yn hytrach nag ail brif nod y rhaglen (arallgyfeirio).
- Mae'r rhaglen wedi ei chyfateb yn dda â blaenoriaethau strategol ehangach, yn arbennig rhai Cymru'n Un.

# 3. Rheoli a Chyflenwi Gweithgareddau Hyd Yma

3.1. Yn yr Adran hon rydym yn adolygu rheolaeth y PODF a'r prosesau cyflenwi, gan ddefnyddio adborth gan staff rheoli yn Llywodraeth Cymru, buddiolwyr grant a rhanddeiliaid allanol. Rydym hefyd yn crynhoi'r gweithgareddau a gyflawnwyd hyd yma, yn cynnwys nifer a phroffil grantiau a ddyfarnwyd dros hyd oes y Gronfa.


## Rheoli a chyflenwi

*Trefniadau rheoli a chyflenwi*

3.2. Mae'r PODF wedi ei rheoli gan dîm bychan o fewn Isadran Cymunedau Llywodraeth Cymru.

3.3. Er mwyn hyrwyddo'r Gronfa, ysgrifennodd Llywodraeth Cymru at yr holl Is-bostfeistri, cyhoeddwyd erthyglau yn Postmaster Magazine, hyrwyddwyd y Gronfa ar wefan Llywodraeth Cymru a gofynnwyd i gynrychiolwyr Swyddfa'r Post Cyfyngedig a Ffederasiwn Cenedlaethol yr Is-bostfeistri i hyrwyddo'r Gronfa yn ystod eu cysylltiad cyson ag Is-bostfeistri. Mae'n ymddangos bod annog partneriaid (megis Swyddfa'r Post Cyfyngedig a Ffederasiwn Cenedlaethol yr Is-bostfeistri) i hyrwyddo'r PODF wedi bod yn fecanweithiau effeithiol i gael rhai i fanteisio ar y Gronfa, fel y dangosir yn Ffigur 3-1. Mae trosglwyddo ar lafar hefyd wedi bod yn ddefnyddiol mewn codi ymwybyddiaeth o'r rhaglen, ynghyd â gwybodaeth a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru (e.e. hysbysebion mewn cylchgronau). Nid oedd yr un o'r Is-bostfeistri a holwyd wedi eu hatgyfeirio o raglen gefnogi arall, sy'n awgrymu efallai y gellid gwneud mwy i annog cyfeirio rhwng rhaglenni cefnogi busnes perthnasol (a gyflenwir gan Lywodraeth Cymru ac eraill).

**Ffigur 3-1: Sut y daeth ymatebwyr i wybod am y rhaglen grant i ddechrau**




*Ffynhonnell: Dadansoddiad SQW o'r arolwg buddiolwyr. n=144*

3.4. Mae'r **broses monitro perfformiad** wedi golygu tracio rheolaidd ar wariant/anfonebau, ac a oedd buddiolwyr wedi gwario eu grantiau fel y cynigwyd yn eu ffurflen gais. Mae gofyn i'r holl fuddiolwyr ddarparu adroddiad cynnydd, ochr yn ochr â'u ffurflen hawlio, sy'n amlinellu cynnydd a wnaed mewn rhoi'r gweithgareddau arfaethedig ar waith. Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnal ymweliadau dilysu ar gyfer tua 5-10% o'r grantiau, a bu cysylltiad rheolaidd gyda buddiolwyr eraill dros y ffôn. Ymwelir hefyd â rhai buddiolwyr wedi i'w prosiect gael ei gwblhau (e.e. digwyddiadau agor) ac ar hap.

3.5. Fodd bynnag, gellir dadlau bod y dull monitro sydd ar waith ar hyn o bryd yn canolbwyntio ar ddarpariaeth *gweithgareddau*, ac nad yw'n dangos a yw'r Gronfa yn cyflawni yn erbyn ei hamcanion. Yn ddelfrydol dylai tystiolaeth ar ganlyniadau ac effeithiau hefyd fod wedi ei monitro, wedi i'r grant gael ei wario. Fel y nodwyd yn Adran 2, amlinellodd ymgeiswyr pa ganlyniadau yr oeddent yn disgwyl i'w grant gyflawni (e.e. o ran creu swyddi, manteision i hyfywedd busnes ac i'r gymuned) yn eu cais, ond nid oedd gofyn iddynt wedi hynny ddarparu tystiolaeth p'un ai a gyflawnwyd hyn. Rydym yn cydnabod bod Llywodraeth Cymru eisiau sicrhau bod y broses gais mor syml â phosibl,

a rhagwelwyd gwerthusiad o'r rhaglen, ond heb dystiolaeth interim p'un ai a oedd y gwario/gweithgareddau yn cael y canlyniadau a ddymunwyd wedi pob rownd o ariannu, nid oedd sail ar gyfer ail-siapio'r gwariant dros gyfnod y rhaglen er mwyn sicrhau'r manteision gorau posibl.

3.6. Yn ddelfyrdol, dylid monitro allbynnau a chanlyniadau ar hyd oes y Gronfa. Cefnogwyd yr angen am well systemau monitro hefyd gan rai buddiolwyr – er enghraifft, yn un o'r astudiaethau achos, awgrymodd yr Is-bostfeistr y dylid dyfarnu grantiau dim ond i'r rheiny sydd â chynllun busnes seiliedig ar dystiolaeth cryf, gyda meini prawf monitro wedi eu hatodi er mwyn cyfiawnhau'r grant a dderbyniwyd, Mae hyn yn awgrymu bod o leiaf rhai o'r buddiolwyr yn gweld gwerth monitro, ac na fyddent yn gweld y gofyniad hwn yn faich afresymol.

*Risgiau a rhwystrau i gyflenwi*

3.7. Awgrymodd ymgynghoriadau â staff rheoli bod safon y ceisiadau yn gymysg: roedd llawer yn 'copïo' ei gilydd ac ni welwyd llawer o dystiolaeth o greadigrwydd ac arloesedd. Dyma'n arbennig oedd yr achos pan oedd Is-bostfeistri yn canolbwyntio'n bennaf ar swyddogaethau SP (yn hytrach na manwerthu) ac yn gweithredu fel darparwr gwasanaeth traddodiadol (yn hytrach na busnes yn cael ei arwain gan elw). Dros amser cafodd y ffurflenni cais eu gwella er mwyn cynyddu'r canllawiau ynglŷn â'r wybodaeth oedd ei hangen gan Is-bostfeistri a'r math o weithgareddau yr oedd y Gronfa wedi ei hanelu atynt. Yn y dyfodol efallai y bydd angen rhagor o feithrin gallu i gynorthwyo Is-bostfeistri i ddatblygu eu syniadau ar gyfer arallgyfeirio (neu well cydgysylltu â rhaglenni eraill sy'n darparu cymorth o'r fath).

3.8. Fel y nodwyd uchod, roedd hi'n anodd cael Is-bostfeistri i fanteisio ar elfen refeniw y Gronfa, yn rhannol oherwydd nad oedd ymgeiswyr yn siŵr sut i ddefnyddio'r ariannu refeniw ac am ei bod hi'n anodd dangos bod gweithgareddau a oedd yn defnyddio ariannu refeniw yn wirioneddol ychwanegol. Golygodd hyn bod mwy o ganolbwyntio ar grantiau cyfalaf, ac felly gwelliannau cyfalaf, yn hytrach na gweithgareddau arallgyfeirio a ariennir gan refeniw, megis cyngor busnes a marchnata, hysbysebu gwasanaethau


newydd, cyrsiau hyfforddiant neu gostau sefydlu mentrau arallgyfeirio newydd. Nid ydym yn casglu o hyn nad oedd angen yr elfen refeniw, ond bod cyfathrebu clir ynglŷn â'i gwmpas a'i ddefnydd posibl yn hollbwysig.

*Adborth gan Is-bostfeistri ynglŷn â rheoli a chyflenwi*

3.9. Dangosodd y buddiolwyr lefel uchel o fodlonrwydd gyda'r broses gais, yn cynwys cenfogaeth gan Lywodraeth Cymru (cyn ac ar ôl derbyn y grant). Fel y dangosir yn Ffigur 3-2:

- Roedd 89% o ymatebwyr yr arolwg yn fodlon neu'n fodlon iawn â'r broses gais (h.y. pa mor hawdd ydoedd i lenwi'r ffurflen a chyflymder yr ymateb).
- Roedd 86% yn fodlon neu'n fodlon iawn â'r gefnogaeth yn ystod y broses gwneud cais am grant gan Lywodraeth Cymru.
- Roedd 75% yn fodlon neu'n fodlon iawn â'r gefnogeth gan Lywodraeth Cymru ar ôl derbyn grant.

**Ffigur 3-2: Graddau'r bodlonrwydd â'r broses gais a'r gefnogaeth gan Lywodraeth Cymru**




*Ffynhonnell: Dadansoddiad SQW o'r arolwg buddiolwyr. n=144*

3.10. Fodd bynnag, gellid gwella'r broses gwneud cais am grant yn y dyfodol drwy:

- Roi rhagor o gyhoeddusrwydd i'r grant (gan fod ymatebwyr i'r arolwg yn teimlo nad oedd llawer o'r Is-bostfeistri yn gwybod amdano).
- Darparu canllawiau ar lle gallai Is-bostfeistri gael cefnogaeth a chyngor i'w cynorthwyo i lenwi'r cais.
- Darparu gwybodaeth fanylach am y grant refeniw.
- Cyflymu'r amser rhwng gwneud cais am y grant a chael gwybod am y dyfarniad grant.
- Amserlen hwy ar gyfer gwneud cais (er mwyn datblygu syniadau ar gyfer arallgyfeirio).

3.11. Roedd yr adborth gan ymgeiswyr aflwyddiannus, ddim yn annisgwyl, yn llai cadanrhaol, gan eu bod wedi gobeithio derbyn grant (gweler Atodiad B am ragor o fanylion). Gwnaeth rhai gydnabod bod y defnydd yr oeddent wedi fwriadu ei wneud o'r Gronfa ddim yn bodloni meini prawf y PODF, neu eu bod wedi methu â darparu digon o wybodaeth ar y ffurflen gais. Y brif wers a ddysgwyd o'r broses yw sicrhau bod yr holl ymgeiswyr aflwyddiannus yn derbyn adborth ac yn deall y penderfyniad yn llawn, hyd yn oed os nad ydynt yn cytuno ag ef.

*Synergeddau/dyblygu ac integreiddio â chymorth arall*

3.12. O'r buddiolwyr a holwyd, derbyniodd 10% o swyddfeydd post gymorth arall ar yr un pryd â, neu wedi ei gysylltu wrth, dderbyn y grant arallgyfeirio. O'r rhain derbyniodd hanner ohonynt ariannu ychwanegol (e.e. gan awdurdod lleol, Llywodraeth Cymru neu'r Gronfa Loteri Fawr), gyda'r hanner arall yn derbyn cyngor busnes.

3.13. Nid oedd yr un ymatebydd i'r arolwg yn meddwl y byddent wedi dod o hyd i gymorth sector cyhoeddus na phreifat tebyg i'r PODF o unman arall[15], gan awgrymu bod y Gronfa yn llenwi bwlch yn y cymorth, neu o leiaf yn y canfyddiadau o'r cymorth oedd ar gael. Roedd rhanddeiliaid allanol yn cytuno bod y PODF yn llenwi bwlch, er bod peth pryder ynglŷn â dyblygu gyda rhaglenni eraill wedi eu hanelu at hyfforddiant sgiliau a marchnata, cymorth ar

[15] Ni wnaeth yr un ystyried banciau

gyfer cynllunio busnes, cynlluniau arallgyfeirio manwerthu gwledig, a grantiau cyfalaf ar gyfer busnesau gwledig  a ddarperir gan awdurdodau lleol.

3.14. Mae ymgynghoriadau gyda rhanddeiliaid allanol yn awgrymu bod atgyfeirio i'r PODF yn digwydd, yn arbennig gan Swyddfa'r Post Cyfyngedig, Ffederasiwn Cenedlaethol yr Is-bostfeistri ac (i raddau llai) Grŵp y Post Brenhinol.  Mae'r Gronfa hefyd wedi cysylltu'n dda â'r Cynllun Rhyddhad Ardrethi Busnes.

*Arfer da a'r gwersi a ddysgwyd*

3.15. Ar y cyfan, mae ffactorau llwyddiant allweddol mewn cyflenwi'r PODF wedi cynnwys y canlynol:

- Defnyddio rhwydweithiau sy'n bodoli eisoes i godi ymwybyddiaeth o'r Gronfa ymhlith cynulleidfaoedd targed.
- Prosesu hawliadau anfonebau yn brydlon.
- Mynediad hawdd at reolwyr prosiect yn Llywodraeth Cymru am gyngor.
- Lle roedd gan Is-bostfeistri brofiad manwerthu yn y gorffennol, gwelwyd eu bod yn fwy parod i arallgyfeirio i wahanol weithgareddau masnachol.
- Lle roedd Is-bostfeistri wedi nodi beth oedd ar gymunedau eu hangen, a lle roedd cynigion wedi eu cefnogi gan gefnogaeth y gymuned.
- Lle roedd gan Is-bostfeistri eisoes gymysgedd o nwyddau swyddfa'r post a manwerthu, a lle roedd ganddynt fwy o ffocws ar weithgareddau manwerthu, roeddent yn tueddu i fod yn fwy marchnad gyfeiriedig ac arloesol yn eu dulliau.
- Digon o hyblygrwydd yn y Gronfa i allu ymateb i anghenion sy'n newid.
- Bod â thîm rheoli profiadol, o ran grantiau cyfalaf a materion polisi yn ymwneud â swyddfeydd post.


*Proffiliau buddiolwyr a grantiau*

3.16. Rhwng mis Ionawr 2009 a mis Hydref 2010 (Rowndiau 1 i 4 o'r Gronfa), gwnaed 338 o geisiadau i'r PODF.  Dyfarnwyd cyfanswm o 229 o grantiau, yn

cyfateb i 217 o swyddfeydd post yn fuddiolwyr[16]. Derbyniodd 23 o swyddfeydd post a elwodd gan grantiau o dan Gronfa Datblygu Swyddfeydd Post hefyd arian o dan PODF. Roedd y 109 cais a wrthodwyd yn y pedair rownd yn cyfateb i 99 ymgeisydd unigol.

3.17. Clustnodwyd cyfanswm o £4.03 miliwn yn ystod Rowndiau 1 i 4. Mae Ffigur 3-3 yn dangos nifer y grantiau a ddyfarnwyd ym mhob rownd ynghyd â'r rhai a wrthodwyd. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad roedd rownd arall o geisiadau llwyddiannus wedi ei chyhoeddi (caiff cyfanswm o £849,658 ei roi i 87 o swyddfeydd post ledled Cymru), ond nid oedd data am y rhain ar gael i'w gynnwys yn y dadansoddiad.

**Ffigur 3-3: Nifer y ceisiadau a ddyfarnwyd ac a wrthodwyd ym mhob rownd**





*Ffynhonnell: Dadansoddiad SQW o ddata LIC*

3.18. Cododd cyfradd llwyddiant y ceisiadau yn sylweddol o 53% yn y rownd gyntaf i 82% yn yr ail rownd (roedd cyfraddau llwyddiant y ddwy rownd arall ar gyfer mis Ebrill a mis Hydref 2010 yn 64% a 80% yn y drefn honno).

16 Fe wnaeth deg swyddfa bost elwa gan 2+ grant ar wahân

3.19. Ar draws y rhaglen yn gyfan roedd ychydig dros hanner y grantiau a ddyfarnwyd (54%) yn £20,000+ (mae hyn yn cynnwys grantiau cyfalaf a refeniw), gyda 29% yn derbyn £5,000-£19,000, a'r 17% oedd yn weddill yn derbyn llai na £5,000, fel y dangosir isod.


**Ffigur 3-4: Nifer y dyfarniadau grant, yn ôl maint grant (rowndiau 1-4)**




*Ffynhonnell: Dadansoddiad SQW o ddata LIC*

3.20. Mae'r map isod yn dangos nifer y dyfarniadau grant a wnaed ym mhob rhanbarth awdurdod lleol. Ar gyfartaledd dyfarnwyd ariannu drwy'r PODF i ddeg swyddfa bost ym mhob rhanbarth awdurdod lleol, er bod yr union rif yn amrywio'n sylweddol rhwng bob awdurdod lleol. Er enghraifft, derbyniodd 27 swyddfa bost ariannu yn Rhondda Cynon Taf o gymharu â dim ond tair yn Ynys Môn, y gellir efallai ei egluro yn rhannol o leiaf gan eu poblogaethau priodol a nifer y swyddfeydd post ym mhob rhanbarth.


**Ffigur 3-5: Nifer y dyfarniadau grant a wnaed ym mhob rhanbarth awdurdod lleol**




*Ffynhonnell: Dadansoddiad SQW o ddata LIC*

3.21. Canfu'r arolwg ymhlith buddiolwyr grant mai'r prif **fater neu her a arweiniodd at gais am grant** oedd diffyg adnoddau i fuddsoddi mewn gwelliannau i'r adeilad, fel y dangosir yn Ffigur 3-6. Mae hyn yn cyd-fynd yn dda â'r sail resymegol wreiddiol ar gyfer ymyrraeth, ac yn dangos bod diffyg ariannu yn fethiant marchnad allweddol ar gyfer nifer o swyddfeydd post, gan weithredu fel rhwystr i arallgyfeirio a gwneud gwelliannau busnes.

**Ffigur 3-6: Materion a heriau a wynebwyd a ysgogodd buddiolwyr i wneud cais**





*Ffynhonnell: Dadansoddiad SQW o'r arolwg buddiolwyr. Gallai ymatebwyr roi mwy nag un ateb. n=144*

3.22. Pan ofynnwyd **beth oedd ymatebwyr i'r arolwg eisiau ei gyflawni**, nododd y rhan fwyaf nifer o nodau neu amcanion gwahanol. Roedd mwyafrif y buddiolwyr eisiau gwella hyfywedd a/neu gynaliadwyedd busnes dim-SP presennol (90% o ymatebwyr), wedi ei ddilyn gan weithrediad swyddfeydd post mwy effeithlon (79%). Y rhesymau eraill, pob un wedi eu henwi gan dros 60% o ymatebwyr, oedd:

- darparu gwasanaethau newydd i'r gymuned leol;
- darparu gwasanaethau ymestynnol i'r gymuned leol;
- arallgyfeirio i gyflwyno gweithgareddau busnes (dim-SP) newydd i wella hyfywedd a/neu gynaliadwyedd y gweithgareddau SP;
- darparu mynediad i'r gymuned at wasanaethau ariannol.

3.23. Ar y cyfan, roedd nodau'r buddiolwyr yn cyd-fynd yn eithaf da â rhai cyffredinol y Gronfa, yn arbennig o ran gwella hyfywedd busnesau dim-SP sy'n bodoli. Fodd bynnag, roedd ychydig llai o ffocws ar elfen arallgyfeirio'r Gronfa.


**Ffigur 3-7: Nodau buddsoddi'r grant**




*Ffynhonnell: Dadansoddiad SQW o'r arolwg buddiolwyr. Gallai ymatebwyr roi mwy nag un ateb. n=144*

3.24. Ar y cyfan, roedd mwyafrif ymatebwyr yr arolwg (94%) yn teimlo bod **y PODF wedi ei chyfatebu'n dda i'w hanghenion penodol**. Defnyddiodd cyfran uchel o ymatebwyr y grant i wella mynediad a threfn, moderneiddio'r busnesau dim-SP a phrynu offer newydd (gweler Ffigur 3-8). Nid yw rhai o'r ffyrdd o ddefnyddio yn cyd-fynd cystal â diben y Gronfa, megis cynnal a chadw cyffredinol y swyddfa bost, ond ar y cyfan defnyddiwyd y Gronfa ar gyfer gwelliannau (i raddau mawr) ac arallgyfeirio (i raddau llai) busnesau dim-SP.

**Ffigur 3-8: Defnydd yr ariannu grant**




*Ffynhonnell: Dadansoddiad SQW o'r arolwg buddiolwyr. Gallai ymatebwyr roi mwy nag un ateb. n=144*

3.25. Roedd bron i dri chwarter (72%) y buddiolwyr a holwyd hefyd wedi **cyfrannu'n ariannol tuag at gost arallgyfeirio**. Cyfanswm y swm a gyfrannwyd eu hunain gan y buddiolwyr a ymatebodd oedd ychydig dros £1.5 miliwn, o gymharu â buddsoddiad gwerth £2.5 miliwn gan Lywodraeth Cymru i'r buddiolwyr hyn (yn cynrychioli 62% o'r holl arian a wariwyd ar arallgyfeirio a gwelliannau). Cyfartaledd y cyfraniad ar gyfer y rheiny oedd yn defnyddio eu harian eu hunain oedd £16,700 y prosiect.


*Proffil gwario*

3.26. Gwariwyd cyfanswm o £4.03 miliwn ar y Gronfa yn rowndiau 1 i 4 (gyda £850,000 arall wedi ei wario ar bumed rownd o grantiau ym mis Gorffennaf 2011), sy'n cynrychioli gorwariant gwerth £411,000 o gymharu â'r £4.5 miliwn a glustnodwyd yn wreiddiol gan Lywodraeth Cymru. Gan fod rhaglenni eraill a oedd wedi eu rheoli gan yr Isadran Cymunedau yn Llywodraeth Cymru wedi tanwario, a bod galw sylweddol heb ei fodloni am y PODF, roedd hi'n bosibl tynnu arian cyfalaf ychwanegol i'r PODF. Nid yw'r ffigur gwario hwn yn cynnwys costau gweinyddu'r grant gan Lywodraeth Cymru, sef £63,000 y

flwyddyn. Mae cyfanswm y costau rheoli yn cyfrif am tua 4% o'r holl gostau (grantiau a rheoli) rhwng rowndiau 1 a 5.

3.27. Mae Ffigur 3-9 yn dangos cyfanwswm yr ariannu grant a ddyfarnwyd ym mhob rownd. Mae'r patrwm gwario yn cyfateb maint y swm cyfartalog y grant dros gyfnod, gyda'r cyfartaledd grant uchaf yn tua £20,500[17] ym mis Hydref 2009 a'r isaf yn tua £14,300 ym mis Hydref 2010.

**Ffigur 3-9: Proffil gwario ar gyfer y pedair rownd gyntaf (wedi ei rannu rhwng grantiau ar gyfer gwariant cyfalaf a refeniw)**




*Ffynhonnell: Dadansoddiad SQW o ddata LIC*

*Allbynnau*

3.28. Fel y nodwyd yn Adran 2, nid oedd gan y Gronfa unrhyw fesuriadau allbwn wedi eu rhag-ddiffinio. Felly nid yw data ar allbynau ar gael i'w ddadansoddi yma.

[17] Mae'r ffigurau hyn yn uwch na'r terfyn uchaf £20,000 oherwydd y derbyniodd nifer o Is-bostfeistri ariannu cyfalaf a refeniw ar yr un pryd

## Rheoli a Chyflenwi Gweithgareddau - Negeseuon Allweddol

**Rheoli a chyflenwi'r rhaglen**

- Mae'n ymddangos bod rhwydweithiau presennol sydd â chysylltiad uniongyrchol â'r gynulleidfa darged, a chylchgronau gyda nifer uchel o ddarllenwyr, wedi bod yn fecanweithiau effeithiol iawn ar gyfer hyrwyddo'r Gronfa.
- Mae monitro perfformiad wedi cynnwys tracio gwariant/anfonebau yn rheolaidd (h.y. gweithgareddau) ond wedi methu â monitro canlyniadau ac effeithiau.
- Mae'r ffurflenni cais (bwriadol syml) a'r methiant i ddefnyddio ariannu refeniw wedi arwain at ddiffyg arloesedd a chreadigrwydd. Dylai meithrin gallu i gynorthwyo Is-bostfeistri i ddatblygu syniadau arallgyfeirio fod yn nod amlwg ar gyfer unrhyw fenter yn y dyfodol.
- Roedd buddiolwyr yn fodlon iawn â'r broses gais a'r gefnogaeth gan Lywodraeth Cymru cyn ac ar ôl derbyn y grant.
- Mae'r PODF yn llenwi bwlch gwirioneddol yn y farchnad am gymorth, yn arbennig ar gyfer swyddfeydd post, er y mynegwyd peth pryder ynglŷn â dyblygu gyda rhaglenni eraill wedi eu hanelu at hyfforddiant sgiliau a marchnata, cymorth ar gyfer cynllunio busnes, cynlluniau arallgyfeirio manwerthu gwledig, a grantiau cyfalaf ar gyfer busnesau gwledig gan Awdurdodau Lleol.

**Proffiliau buddiolwyr a gwariant**

- Rhwng mis Ionawr 2009 a mis Hydref 2010 (rowndiau 1 i 4 o'r Gronfa), dyfarnwyd 229 o grantiau, gyda chyfanswm gwariant o £4.03 miliwn.
- Roedd ychydig dros hanner y grantiau a ddyfarnwyd yn £20,000 neu uwch, gyda 29% yn derbyn rhwng £5,000 a £19,000, a'r 17% sy'n weddill yn derbyn llai na £5,000.
- Roedd PODF yn cyfateb yn dda i anghenion penodol derbynwyr.
- Mae gweithgareddau wedi tueddu i ganolbwyntio ar wella busnesau dim-SP yn fwy nag arallgyfeirio i feysydd newydd.
- Roedd bron i dri chwarter y buddiolwyr a holwyd hefyd wedi cyfrannau'n ariannol tuag at gostau arallgyfeirio, gan wneud cyfanswm o ychydig dros £1.5 miliwn yn rowndiau 1 i 4.

# 4. Canlyniadau ac effeithiau

4.1. Yn yr Adran hon, cyflwynwn dystiolaeth am y canlyniadau a'r effeithiau a gyflawnwyd gan y PODF. Seilir hyn ar ganlyniadau'r arolwg â buddiolwyr, ymgynghoriadau â staff rheoli a rhanddeiliaid allanol, ac arolwg graddfa fach gydag ymgeiswyr aflwyddiannus a rhai na wnaeth gais. Rydym wedyn yn rhoi asesiad ansoddol o ychwaneged (h.y. y graddau y gall effeithiau gael eu priodoli i'r Gronfa ac na fyddent wedi digwydd mewn ffordd arall) a gwerth am arian cyffredinol.

*Canlyniadau ac effeithiau a gyflawnwyd hyd yma*

*Canlyniadau ar gyfer Is-bostfeistri a oedd yn fuddiolwyr*

4.2. Mae Ffigur 4-1 yn cyflwyno'r ymatebion i'r cwestiwn yn yr arolwg o fuddiolwyr, *"Pa ganlyniadau/effeithiau a gafwyd o ganlyniad i'r grant?"* Mae'r canlyniadau'n dangos yr effeithiau canlynol yn erbyn nodau gwreiddiol y gronfa:


- Gwelodd 65% gynnydd mewn trosiant busnes dim-SP
- Gwelodd 60% gynnydd mewn proffidioldeb busnes dim-SP
- Gwelodd 83% welliant yn hyfywedd masnachol a/neu gynaliadwyedd gweithgareddau busnes dim-SP
- Gwelodd 78% welliant yn hyfywedd masnachol a/neu gynaliadwyedd gweithgareddau SP

4.3. Oherwydd i'r arolwg gyrraedd sampl ystadegol sylweddol o 144 o fuddiolwyr yn rowndiau ariannu 1 i 4, gallwn fod yn 95% hyderus bod yr effeithiau ar gyfanswm poblogaeth y buddiolwyr yn unol â'r canfyddiadau uchod (± 5pp). Er enghraifft, gallwn fod yn 95% hyderus bod 60%-70% o holl fuddiolwyr PODF wedi gweld cynnydd mewn trosiant busnes dim-SP.

4.4. Mae hefyd yn bwysig i nodi manteision ansoddol y Gronfa ar gyfer y buddiolwyr eu hunain. Er enghraifft, roedd 88% o'r ymatebwyr o'r farn bod y

Gronfa wedi rhoi mwy o hyder iddynt yn rhagolygon eu busnes. Gan gymryd bod sail dda i'r hyder hwn, bydd yr ymyrraeth wedi chwarae rhan bwysig mewn cynnal rhwydwaith swyddfeydd post, ac yn ei dro annog rhagor o hyder mewn cymunedau lleol.  Roedd staff rheoli hefyd yn dadlau bod y Gronfa wedi cynorthywo i newid ffordd o feddwl rhai Is-bostfeistri, gan eu hannog i fod yn fwy agored tuag at arallgyfeirio yn y dyfodol.


**Ffigur 4-1: Canlyniadau arolwg buddiolwyr – holl ganlyniadau ac effeithiau a gyflawnwyd o ganlyniad i'r grant**




*Ffynhonnell: Dadansoddiad SQW yn seiliedig ar arolwg buddiolwyr. Nodiadau: mae'r graff uchod yn dangos pa gyfran o ymatebwyr yr arolwg a gafodd fanteision ym mhob maes yn unig (mae dim ateb i gwestiwn yn dynodi na welodd y buddiolwr y canlyniadau/effeithiau). n=144*

4.5. Adroddodd cyfran uwch o fuddiolwyr grantiau mwy (dros £5,000) effeithiau cadarnhaol i berfformiad eu busnes o gymharu â'r rheiny y dyfarnwyd grantiau llai (£5,000 neu lai) iddynt, fel y dangosir yn Ffigur 4-2. Serch hynny, rhoddodd "bod â mwy o hyder mewn rhagolygon busnes" ganlyniadau tebyg ar gyfer y ddau grŵp o ymatebwyr.

**Ffigur 4-2: Canlyniadau arolwg – canlyniadau ac effeithiau ar y busnes yn ôl maint grant**




*Ffynhonnell: Dadansoddiad SQW o'r arolwg buddiolwyr. n=144*


4.6. Roedd nifer fechan o ymatebwyr i'r arolwg yn gallu meintioli maint yr effaith a welwyd o ran nifer cwsmeriaid[18], trosiant busnes dim-SP[19], proffidioldeb[20], a chyfleoedd am swyddi[21]. Ar gyfer y rheiny nad oedd yn gallu meintioli effeithiau (*DS samplau bychan yw'r rhain ac ni ellir eu cymryd fel rhai cynrychioliadol o'r holl fuddiolwyr, ac felly ni ellir dod i gasgliad yn eu cylch ar gyfer y boblogaeth yn gyfan*), mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod busnesau dim-SP wedi gweld cynnydd ar gyfartaledd mewn trosiant a oedd

[18] Gallai 14 feintioli mewn rhif absoliwt, a gallai 60 feintioli mewn canran.
[19] Gallai 20 feintioli mewn rhif absoliwt, a gallai 53 feintioli mewn canran.
[20] Gallai 7 feintioli mewn rhif absoliwt, a gallai 50 feintioli mewn canran.
[21] Gallai 44 feintioli mewn rhif absoliwt, a gallai 8 feintioli mewn canran.

yn werth ychydig dan £900 (a chynnydd gwerth £55 mewn proffidioldeb). Mae rhai ymatebwyr hefyd wedi gweld cynnydd mewn swyddi, o rhwng un ac wyth swydd. Cyfanswm nifer y swyddi a grëwyd ers derbyn y grant (gan y 48 ymatebydd a oedd yn gallu meintioli hyn) oedd 89 ar draws holl ymatebwyr yr arolwg. Gweler Atodiad A am ragor o fanylion.

4.7. Mae hefyd yn bwysig ystyried **i ba raddau y mae'r canlyniadau uchod wedi eu priodoli** i'r grant, yn hytrach na ffactorau a dylanwadau eraill. Fel y dangosir yn Ffigur 4-3, roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn meddwl bod y grant wedi cyfrannu'n llawn neu'n rhannol i wella nifer cwsmeriaid, perfformiad busnes a hyfywedd

**Ffigur 4-3: Canlyniadau arolwg - priodoliad canlyniadau ac effeithiau ar y busnesau i'r PODF**




*Ffynhonnell: Dadansoddiad SQW o'r arolwg buddiolwyr. Hyfywedd Masnachol (SP): n=122; Hyfywedd masnachol (dim-SB): n=120; Hyder: n=126; Proffidioldeb: n=86; Trosiant: n=94; Nifer cwsmeriaid: n=104*

4.8. Mae'r PODF hefyd wedi creu ystod o ganlyniadau eraill, weithiau'n annisgwyl, ar gyfer busnesau a oedd yn cymryd rhan. Yn ôl ymatebwyr i'r arolwg, ymgynghoreion astudiaethau achos a thystiolaeth sydd wedi ei chynnwys yn nogfennaeth Adroddiad Cynnydd gan Lywodraeth Cymru, mae'r rhain yn cynnwys:

- hyder cynyddol yn hyfywedd y swyddfa bost a dyfodol cadarn;
- cwsmeriaid newydd / lefel uwch o gwsmeriaid (e.e. astudiaeth achos Y Glais isod);
- lleihad sylweddol yn yr achosion o ddwyn;
- amgylchedd mwy pleserus i weithio ynddo;
- effeithiau ail drefn, drwy fod y grant yn annog gwelliannau neu gyfleoedd yn y dyfodol, e.e. gwella arddangosiadau ffenest, cael gwefan, neu'r cyfle i greu busnes ar-lein o ganlyniad i gyfarpar a brynwyd drwy'r grant.

**Ffigur 4-4: Detholiad o astudiaeth achos Y Glais (gweler Atodiad C am yr astudiaeth achos llawn).**



- Mae Swyddfa Bost Y Glais wedi ei lleoli yn Y Glais, pentref rhannol wledig chwe milltir i'r gogledd ddwyrain o ganol Abertawe.
- Derbyniodd y perchnogion grant cyfalaf o lai na £20,000 gan Lywodraeth Cymru yn 2009 a hefyd cyfranasant £1,000 o'u harian eu hunain.
- Roedd y newidiadau yn cynnwys gwelliannau cosmetig (gwell goleuo, adnewyddu'r drws a chyflwyno hysbysfwrdd) ac arallgyfeirio i ystod o nwyddau wedi'u pobi a bwydydd a diodydd oer.
- Manteision i'r busnes ei hun:
  - cynnydd amlwg mewn nifer cwsmeriaid a chynnydd mewn trosiant ac elw (cynnydd gan tua 50% mewn elw net).
- Manteision i'r economi a'r gymuned ehangach:
  - gwell amgylchedd siopa ar gyfer cwsmeriaid a mwy o ddewis o gynhyrchion (yn arbennig o bwysig gan mai dyma'r unig siop yn Y Glais)
  - mae'r hysbysfwrdd wedi dod yn ganolbwynt newyddion yn y pentref
  - teimlai aelodau'r gymuned y byddent "ar goll hebddi" a bod y swyddfa bost "nid yn unig yn fusnes, ond yn ganolbwynt y gymuned. Roedd yn lle i gwrdd â phobl ...rhan hollbwysig o fywyd pentref".

*Ffynhonnell: SQW*

*Canlyniadau ehangach ar gyfer cymunedau ac economïau lleol*

*Canlyniadau ac effeithiau ar gyfer yr economi ehangach*


4.9. Mae grantiau hefyd wedi rhoi manteision i economïau lleol:

- dywedodd 50% o'r ymatebwyr bod y grant wedi deillio ar well cyfleoedd am swyddi (yn astudiaeth achos Caerwys, er enghraifft, roedd y prosiect wedi creu pedair swydd ar gyfer trigolion lleol);

- roedd 53% o'r ymatebwyr wedi gweld mwy o hyder ymhlith busnesau yn y rhagolygon economaidd Lleol;
- credai 37% bod y grant wedi arwain at greu mentrau cymdeithasol/cymunedol.

4.10. Fodd bynnag, nid oedd y rhan fwyaf o'r rheiny a dderbyniodd grantiau llai (£5,000 neu is) yn credu y bu unrhyw effeithiau ar yr economi o ganlyniad i'r grant (gweler Ffigur 4-5), yn arbennig o ran cyfleoedd am swyddi newydd neu annog mentrau cymdeithasol neu gymunedol (86% a 93% yn y drefn honno).

**Ffigur 4-5: Cymhariaeth o ganlyniadau ac effeithiau ar yr economi ehangach ar gyfer y rheiny sy'n derbyn dros a than £5,000**




*Ffynhonnell: Dadansoddiad SQW o'r arolwg buddiolwyr. n=144*

4.11. Roedd effeithiau eraill ar yr economi leol yn cynnwys:

- annog pobl i wario mwy o arian yn yr economi leol (gweler astudiaeth achos Caerwys isod);
- gwerthu cynnyrch lleol yn rhannau manwerthu newydd/wedi'u gwella o'r busnes, a oedd yn cefnogi'r gadwyn gyflenwi leol (e.e. astudiaeth achos

Caerwys) ac annog trigolion lleol i siopa'n lleol (e.e. astudiaeth achos Y Glais);

- o gwella delwedd/apêl yr ardal, y maent yn gobeithio y bydd yn ei dro yn denu busnesau lleol eraill i leoli yno (e.e. astudiaethau achos Caerwys a Dyffryn Glyn);
- o darparu cyfleusterau ar gyfer twristiaid, ac annog twristiaid i barhau i ymweld â'r ardal (e.e. Aberporth);
- o gwefan yn rhoi cyfleoedd marchnata a rhwydweithio, a ddefnyddiwyd wedyn gan gyfran uchel o fusnesau yn yr ardal er mwyn hysbysebu eu nwyddau/gwasanaethau (e.e. astudiaeth achos Caerwys).

**Ffigur 4-6: Astudiaeth Achos: Swyddfa Bost Caerwys (gweler Atodiad C am yr astudiaeth achos llawn).**



- Mae Swyddfa Bost Caerwys wedi ei lleoli yn nhref Caerwys yn Sir y Fflint, Gogledd Cymru.
- Erbyn hyn mae'r Swyddfa Bost yn cynnwys siop gigydd a delicatessen. Arferai'r ddau fod wedi eu lleoli mewn mannau eraill yn y dref.
- Derbyniodd y Swyddfa Bost gyfanswm grant o tua £20,000 o Rownd 1 y PODF ym mis Ebrill 2009 (roedd tua 2/3 yn ariannu cyfalaf ac 1/3 yn refeniw). Defnyddiwyd yr ariannu i ail-fodelu tu fewn i'r adeilad gan symud elfen swyddfa'r post i'r canol a lleihau ei maint yn sylweddol, fel bod digon o ofod i'r cigydd.
- Manteision ar gyfer y busnes ei hun:
  - o cynnydd gan 20% yn nhrosiant SP a chynnydd gan 40% mewn trosiant dim-SP ers gwanwyn/haf 2009.
- Manteision i'r gymuned ehangach:
  - o crëwyd pedair swydd uniongyrchol ar gyfer trigolion lleol, hyfforddwyd prentis y cigydd, a chrëwyd/diogelwyd rhagor o swyddi lleol drwy gael cynnyrch o ffynonellau lleol
  - o Mae'r wefan wedi rhoi cyfleoedd marchnata a rhwydweithio ar gyfer tua 90% o fusnesau lleol yn yr ardal
  - o Cynnal mynediad at wasanaethau SP ar gyfer y gymuned leol agos (yn arbennig ar gyfer yr oedrannus sy'n ei chael hi'n anodd teithio a busnesau lleol) a'r rheiny sydd ymhellach i ffwrdd
  - o Mae'r prosiect wedi darparu canolbwynt cymdeithasol a chaniatáu darpariaeth barhaus o wasanaethau ariannol.

*Ffynhonnelll: SQW*


*Canlyniadau ac effeithiau ar gyfer y gymuned ehangach*

4.12. Credai mwyafrif ymatebwyr yr arolwg bod y PODF wedi caniatáu continwwm mynediad at wasanaethau SP (86%), gwell lles cymunedol (79%),

a gwelliant o ran golwg yr ardal (78%).  Roedd meysydd lle gwelwyd y PODF fel rhywbeth llai effeithiol mewn creu canlyniadau yn cynnwys lleihau tlodi, anghydraddoldeb ac anfantais (un o bedwar maen prawf allweddol y Gronfa), lleihau allgau ariannol, gwella sgiliau, a darparu gwasanaethau dwyieithog.

4.13. Mae Ffigur 4-7 yn dangos effaith y grant ar y gymuned, wedi ei rannu rhwng y rheiny a dderbyniodd dros a than £5,000.  Mae'n ymddangos mai maint y grant sy'n gwneud y gwahaniaeth mwyaf o ran cynnal mynediad at wasanaethau SP, lleihau tlodi / nghydraddoldeb / anfantais, a gwella sgiliau (lle cafodd grantiau mwy eu maint fwy o effaith) - lle mae maint y grant fel petai'n gwneud fawr ddim gwahaniaeth i les y gymuned, diogelwch y gymuned, allgau ariannol na golwg yr ardal.

**Ffigur 4-7: Canlyniadau ac effeithiau ar y gymuned ehangach yn ôl maint grant**




*Ffynhonnell: Dadansodddiad SQW o'r arolwg buddiolwyr. n=144*

4.14. Yn ogystal â'r categoriau o fudd i'r gymuned uchod, mae'r grantiau wedi bod o fudd i gymunedau mewn ffyrdd eraill (gweler Tabl 4-1): er enghraifft,

mae astudiaethau achos Caerwys ac Aberporth yn awgrymu bod y Gronfa wedi bod yn arbennig o fuddiol i drigolion oedranus.

**Tabl 4-1: Enghreifftiau o fanteision cymunedol ehangach**

- Manteision cynhwysiant cymdeithasol, er enghraifft, drwy sicrhau y gall trigolion oedrannus gael mynediad at gyflenwadau bwyd (rhanddeiliad allanol).
- Cynnal gwasanaethau ar gyfer y rheiny sydd mewn tlodi (fel nad oes yn rhaid iddynt dalu am drafnidiaeth i rywle arall).
- Hyfforddi staff newydd ar gyfer busnesau dim-SP (e.e. arlwyo, hylendid bwyd, sgiliau TG).
- Clybiau a grwpiau lleol yn defnyddio'r caffi a sefydlwyd gyda chymorth PODF.
- Mwy o ddewis i drigolion lleol a'r gwell ystod o gynnyrch ar gael yn yr ardal (e.e. Dyffryn Glyn).
- Mae'r Gronfa wedi "dod â chynhyrchion a gwasanaethau yn agosach i'r gymuned" (rhanddeiliad allanol).
- Gwella'r profiad ar gyfer cwsmeriaid ag anableddau (rampiau, cownteri addas ar gyfer cadeiriau olwyn).
- Darparu mynediad at wasanaethau ariannol ar gyfer y rheiny sydd heb gyfrifon banc neu drafnidiaeth.
- Darparu swyddogaeth gymdeithasol (e.e. astudiaeth achos Caerwys) a man cyfarfod ar gyfer y gymuned leol, ac felly lleihau allgau cymdeithaol (rhanddeiliad allanol).
- Cyflwyniad aelodau staff dwyieithog.
- Gwell mynediad at TGCh a gwell llythrennedd TGCh ymhlith rhai grwpiau (e.e. astudiaeth achos Llanisien a amlinellir yn Ffigur 4-8).
- Gwell diogelwch drwy well goleuo, teledu cylch cyfyng a systemau larwm.
- Cyfrannu at wneud y gymuned yn fan lle mae pobl eisiau byw (e.e. astudiaeth achos Caerwys) ac annog pobl i aros yn yr ardal (e.e. Aberporth).

*Ffynhonnell: Arolwg buddiolwyr ac astudiaethau achos*

**Ffigur 4-8: Astudiaeth achos: Swyddfa Bost Llanisien (gweler Atodiad C i weld yr astudiaeth achos llawn)**

- Mae Swyddfa Bost Llanisien wedi ei lleoli ar gyrion Caerdydd ac mae ganddi amrywiaeth o gwsmeriaid, yn cynnwys poblogaeth fawr o bobl oedrannus, pobl ifanc a busnesau o'r parc busnes lleol.
- Cyn arallgyfeirio, byddai'r swyddfa bost yn gwerthu cardiau a nwyddau papur, ond mae wedi trawsnewid y gofod hwn yn ganolfan rhyngrwyd â grant cyfalaf llai na £20,000 o'r gronfa.
- Hefyd derbyniodd y Swyddfa Bost grant refeniw ar gyfer hysbysebu a chyflogi aelod staff newydd i weithio yn y ganolfan a chyfrannodd y perchnogion £8,000 o'r busnes i gynorthwyo i dalu am yr arallgyfeirio hwn.
- Manteision i'r busnes ei hun:
    - mwy o gwsmeriaid i'r Swyddfa Bost a'r busnes preifat, er bod yr effaith ariannol ar y busnes yn llai dramatig nag a obeithiwyd.
- Manteision i'r economi a'r gymuned ehangach:

- annog pobl na fyddai fel arall wedi cael y cyfle i ddechrau defnyddio cyfrifiaduron, e.e. drwy ddigwyddiad a drefnwyd gan Age UK yn y ganolfan
  - manteision ar gyfer plant lleol, sy'n defnyddio'r cyfrifiaduron ar gyfer gwaith cartref.
- Dyweoddd un cwsmer: "er bod yr hyn oedd yn y Swyddfa Bost cyn hyn yn addas ar gyfer deng mlynedd yn ôl, ni allwch aros yn yr unfan drwy'r amser heb syrffedu. Mae'r newidiadau wedi rhoi bywyd newydd i'r Swyddfa Bost".

*Ffynhonnell: SQW*

### Ffigur 4-9: Astudiaeth achos Aberporth (gweler Atodiad C am yr astudiaeth achos llawn)

- Mae Swyddfa Bost Aberporth wedi ei lleoli mewn tref arfordirol yng Ngheredigion ac mae ganddi amrywiaeth o gwsmeriaid, yn cynnwys pobolgaeth sylweddol o drigolion oedrannus a nifer fawr o ymwelwyr lleol.
- Fferyllfa oedd yr adeilad yn flaenorol, a chyflwynwyd y Swyddfa Bost fel rhan o gynllun peilot SP Lleol (un o ddwy yng Nghymru).
- Derbyniodd yr Is-bostfeistr grant bychan (dan £5,000) ym mis Hydref 2010 i adeiladu toiled staff ac adnewyddu elfen fferyllfa'r busnes.
- Manteision i'r busnes ei hun:
  - Mae'r toiled newydd wedi bod o fudd i elfen dim-SP y busnes (y fferyllfa) gan na fyddai'r busnes wedi gallu parhau heb iddo fodloni rheoliadau iechyd a diogelwch. Felly mae'r grant wedi cynorthwyo hyfywedd y busnes dim-SP ar gyfer y dyfodol fel rhan o'r busnes ehangach.
  - Yn dilyn adnewyddu'r ardal fferyllfa, mae ei throsiant wedi cynyddu gan 20% (a phriodolir tua chwarter y cynnydd hwn i'r PODF).
- Manteision i'r economi a'r gymuned ehangach:
  - Mae ymwybyddiaeth gymunedol o'r gwelliannau, ac felly effeithiau'r newidiadau ffisegol ar y gymuned, wedi bod yn gyfyngedig.
  - Roedd yr Is-bostfeistr yn gyndyn i barhau â'r cynllun peilot SP Lleol (ac felly'r Swyddfa Bost ei hun) heb grant PODF. Felly mae'r grant wedi golygu bod y gwasanaethau SP wedi dychwelyd i'r pentref (roedd y Swyddfa Bost flaenorol wedi cau gryn amser yn ôl), ac mae'r gymuned wedi elwa'n anuniongyrchol o'r grant.
- Yn y dyfodol, gallai'r PODF gysylltu'n well â'r cynllun SP Lleol, drwy gynorthwyo i ddarparu gwelliannau cyfalaf i fusnesau dim-SP er mwyn eu galluogi i gymryd gofal o'r swyddfa bost.

*Ffynhonnell: SQW*

**Ffigur 4-10: Astudiaeth Achos: Swyddfa Bost Dyffryn Glyn (gweler Atodiad C am yr astudiaeth achos llawn)**




- Mae Swyddfa Bost Dyffryn Glyn wedi ei lleoli yng Nglyn Ceiriog ger y Waun a Llangollen.
- Yn ogystal â'r swyddfa bost ceir hefyd siop anrhegion a theganau, caffi, cyfleusterau rhyngrwyd a chanolfan dwristiaid yn yr adeilad.
- Sicrhaodd y Swyddfa Bost grant llai na £20,000 o'r gronfa (cyfalaf yn bennaf gyda pheth ariannu refeniw) ym mis Rhagfyr 2009, a ddefnyddiwd ar gyfer ail-ddodrefnu mewnol y siop, system ddiogelwch, offer TGCh, adlen allanol a gwefan.
- Manteision i'r busnes ei hun:
    - roedd trosiant y busnes yn sefydlog yn ystod 2010 a chafwyd cynnydd gan 5% (yn rhannol oherwydd y caffi newydd - heb ei ariannu gan grant) yn y flwyddyn ganlynol, yn groes i ddirywiad o 10% yn y diwydiant.
- Manteision i'r gymuned ehangach:
    - dod yn ased twristiaeth arall yn y Dyffryn. Mae'r siop yn cefnogi busnesau lleol drwy werthu wyau, mêl, cardiau, lluniau a brodwaith lleol. Mae nifer o fusnesau lleol hefyd yn defnyddio'r swyddfa bost ar gyfer talu eu henillion megis y felin goed, y Spar a'r dafarn leol a hefyd ysgolion lleol.
    - cynnal mynediad at wasanaethau swyddfa'r post sydd yn ei dro wedi lleihau allgau ariannnol yn y pentref gan roi mynediad at arian parod ar gyfer y rheiny sy'n bancio gyda banciau sy'n gysylltiedig â swyddfa'r post. Mae'r busnes hefyd wedi cynorthwyo i fynd i'r afael ag allgau digidol drwy ddarparu cyfrifiadur a mynediad i'r rhygnrwyd, gan mai cyfyngedig yw mynediad i'r rhyngrwyd ar gyfer llawer o bobl yn uwch i fyny'r dyffryn. Mae'r swyddfa bost hefyd yn darparu canolfan gymdeithasol ar gyfer pobl oedrannus a mamau a phlant bach.
- Gwelir y siop anrhegion gan y gymuned fel rhywbeth sy'n llenwi bwlch gwirioneddol, ac mae'n gwerthu detholiad da o anrhegion a chardiau sydd ddim yn gostus (llawer ohonynt yn cael eu cynhyrchu'n lleol).

*Ffynhonnell: SQW*

### *Ychwanegedd*

4.15. **Heb y PODF**, honnodd dros ddwy ran o dair (69%) o ymatebwyr i'r arolwg na fyddent wedi gallu gwneud unrhyw newidiadau a grewyd gan grant. Ar gyfer y buddiolwyr hyn, caiff yr effeithiau sy'n gysylltiedig â'r grant eu hystyried fel "ychwaneged llawn". Dywedodd 30% yn rhagor o'r buddiolwyr a holwyd y byddai canlyniadau wedi eu cyflawni yn ddiweddarach, i safon is neu ar raddfa lai; mae hyn yn cynrychioli "ychwaneged rhannol". Dim ond 1% a honnodd y byddent wedi gallu cyflawni'r un newidiadau i'r un safon, ar yr un raddfa ac i'r un amserlen heb y grant; dosbarthir hyn fel "di-fuddiant" oherwydd byddai'r canlyniadau wedi digwydd beth bynnag.


**Ffigur 4-11: Beth fyddai wedi digwydd heb y grant**




*Ffynhonnell: Dadansoddiad SQW o'r arolwg buddiolwyr. n=144*. *Nodiadau:* Gwelodd rhai ymatebwyr *fwy nag un math o 'ychwaneged rhannol', e.e. byddent wedi gallu cyflawni'r newidiadau'n ddiweddarach ac ar raddfa lai, ac felly mae nifer yr ymatebwyr a fyddai wedi gwneud newidiadau yn ddiweddarach, i safon is ac ar raddfa lai yn fwy na 30%.*

4.16. Roedd y rheiny a dderbyniodd grant llai (£5,000 neu lai) yn llawer mwy tebygol o feddwl y byddent wedi cyflawni'r newidiadau yn rhannol (yn ddiweddarach, i safon is neu ar raddfa lai) heb y grant, o gymharu â'r rheiny a dderbyniodd grantiau mwy (dros £5,000). Mae hyn yn awgrymu bod lefel yr ychwaneged llawn yn llawer uwch ar gyfer y grantiau mwy, a hyn yn fwyaf tebygol oherwydd byddai Is-bostfeistri wedi cael anhawster i godi'r lefel hwn o fuddsoddiad eu hunain.

**Ffigur 4-12: Beth fyddai wedi digwydd heb y grant, yn ôl maint y grant a dderbyniwyd**




*Ffynhonnell: Dadansoddiad SQW o'r arolwg buddiolwyr. n=144*

*Gwerth Ychwanegol Strategol*

4.17. Fel y dangosir drwy gydol yr Adran hon, ceir tystiolaeth i awgrymu bod y PODF wedi rhoi Gwerth Ychwanegol Strategol (SAV) mewn nifer o ffyrdd:

- **Creu hyder yn y rhagolygon ar gyfer twf** – fel y disgrifir uchod.
- **Annog uwchraddio gweithgareddau** – fel y dangosir yn Ffigur 4-11, cynorthwyodd y grant 13% o ymatebwyr yr arolwg i uwchraddio eu cynlluniau arallgyfeirio/gwella. Cefnogir hyn yn ogystal â thystiolaeth gan ymgeiswyr aflwyddiannus a wnaeth rai newidiadau i'w busnes ond ar raddfa lai.
- **Cyflawni canlyniadau a oedd o safon uwch nag a fyddai wedi digwydd fel arall** – ni fyddai rhai o ymatebwyr yr arolwg wedi gallu cyflawni i'r un safon heb y grant; a gwnaeth cyfran fechan o ymgeiswyr aflwyddiannus newidiadau a oedd o safon is nag y byddent wedi gallu ei wneud gyda'r grant.
- **Gweithredu fel catalydd ar gyfer newid –** er enghraifft, yn astudiaeth achos y Drenewydd cafodd y grant effaith caseg eira, gan alluogi'r Is-

bostfeistr i wneud elw (oherwydd y cynnydd mewn trosiant) ac yna ailfuddsoddi'r elw hwn i'w wella ymhellach (gweler Ffigur 4-13 isod).

- o **Annog is-swyddfeydd post i symud tuag at weithgareddau sy'n cyfrannu at well lles cymunedol** - fel uchod. Hefyd, lle roedd ymgeiswyr aflwyddiannus wedi gwneud newidiadau beth bynnag, nid oedd y rhain wedi tueddu i ganolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau newydd i'r gymuned leol.

- o **Cynorthywo i ysgogi adnoddau ychwanegol** – cyfrannodd mwyafrif (72%) y buddiolwyr a holwyd tuag at gost arallgyfeirio. Dywedodd rhanddeiliaid allanol hefyd bod y Gronfa wedi cynorthwyo swyddfeydd post i gyrchu ariannu arall. Er enghraifft, mae Swyddfa'r Post Cyfyngedig yn cynnig cymorth i swyddfeydd post â'r 10% uchaf o drosiant, a dadleuwyd bod swyddfeydd post a oedd wedi gwneud gwelliannau gydag ariannu PODF yn fwy tebygol o allu cyrchu cymorth gan Swyddfa'r Post Cyfyngedig. Roedd un rhanddeiliad allanol o'r farn bod y grant hefyd yn rhoi gwell cyfle i swyddfeydd post sicrhau ariannu gan fanc fel arian cyfatebol.

**Ffigur 4-13: Astudiaeth Achos: Swyddfa Bost Y Drenewydd (gweler Atodiad C am yr astudiaeth achos llawn)**



- Mae Swyddfa Bost y Drenewydd wedi ei lleoli yn nhref fwayf Powys.
- Mae'r Swyddfa Bost fawr erbyn hyn yn lletya siop parti, a arianwyd gan y grant PODF am lai na £20,000 (a oedd yn gymysgedd o ariannu refeniw a chyfalaf) a dderbyniwyd ym mis Ebrill 2009. Cyfrannodd yr Is-bostfeistr £4,500 tuag at arallgyfeirio, ac elwodd o'r Cynllun Rhyddhad Ardrethi Busnes.
- Defnyddiwyd y grant PODF ar gyfer ail-ddodrefnu'r siop, prynu peiriannau ar gyfer cotio a chwythu balwnau a hefyd hyfforddi staff i ddefnyddio'r offer.
- Manteision i'r busnes ei hun:
  - o dros ddwy flynedd mae'r trosiant wedi cynyddu o gyfartaledd o £200 yr wythnos i £1,300 yr wythnos
  - o cynnydd sylweddol mewn nifer cwsmeriaid
  - o rhagfynegir y bydd trosiant yn parhau i gynyddu dros y pum i ddeng mlynedd nesaf a bydd yr Is-bostfeistr yn parhau i ehangu i'r marchnadoedd corfforaethol a phartion priodas.
- Manteision i'r gymuned a'r economi ehangach:
  - o mae wedi cynnal mynediad at wasanaethau SP a hefyd wedi darparu gwasanaethau allgymorth ar gyfer cymunedau ehangach ar draws tri

| | |
|---|---|
| | phentref<br>o diogelu saith a chreu tair swydd ar gyfer trigolion lleol, ac mae'r rheiny a gyflogir gan y swyddfa bost hefyd wedi eu huwch sgilio<br>o mae parhad yng nghyfleusterau'r SP wedi bod yn amhrisiadwy i fusnesau lleol, megis busnesau eBay lleol. |

*Ffynhonnell: SQW*

### *Adborth gan ymgeiswyr aflwyddiannus a rhai na wnaeth gais*

4.18. Er mwyn asesu'r gwrthffeithiol - beth fyddai wedi digwydd heb y grantiau - gwnaethom sgwrsio â samplau llai, wedi eu dewis ar hap, o blith ymgeiswyr aflwyddiannus (n=28) a rhai na wnaeth gais (n=28) i ganfod a oeddent wedi gallu cyflawni newidiadau heb gymorth ac a oedd y newidiadau hyn wedi eu cyflawni yn yr un cyfnod amser, i'r un safon ac ar yr un raddfa ag y byddent heb gymorth PODF.

*Ymgeiswyr aflwyddiannus*


4.19. Nid oedd mwyafrif (68%) yr Is-bostfeistri yn yr arolwg o ymgeiswyr aflwyddiannus wedi newid eu busnes mewn unrhyw fodd yn dilyn eu cais (gweler Ffigur 4-14). Mae hyn yn awgrymu mai'r sefyllfa gwrthffeithiol ar gyfer Is-bostfeistri yw methiant i fuddsoddi - mae hyn yn cefnogi'r sail resymegol ar gyfer ymyrraeth, a hefyd yn cefnogi canfyddiad y prif arolwg, bod y PODF wedi cyflawni lefel uchel o ychwaneged. Ceir rhywfaint o ychwaneged rhannol:

- o aeth ychydig dros un o bob bump o'r ymgeiswyr aflwyddiannus a holwyd ymlaen i wneud rhai newidiadau ar raddfa lai
- o gwnaeth 11% y newidiadau yr oeddent wedi eu bwriadu yn ddiweddarach
- o gwnaeth 7% newidiadau i safon is nag y byddent wedi eu gwneud pe byddent wedi bod yn llwyddiannus.

4.20. O'r rheiny a aeth ymlaen i wneud newidiadau i'w busnes beth bynnag, ni wnaeth y rhan fwyaf dderbyn cymorth o unman arall, ac ni wnaeth y rhan fwyaf ganolbwyntio ar ddarpariaeth gwasanaethau newydd i'r gymuned leol,

sy’n awgrymu bod y PODF wedi cynorthwyo i gyflenwi buddsoddiadau gyda chymunedau yn ogystal â manteision busnes.

**Ffigur 4-14: Canlyniadau arolwg – Yn dilyn eich cais aflwyddiannus, a aethoch ati i wneud newidiadau i’ch busnes beth bynnag?**




*Ffynhonnell: Dadansoddiad SQW o’r arolwg ymgeiswyr aflwyddiannus. n=28*

4.21. Gofynnwyd i’r Is-bostfeistri beth oedden nhw’n ei ystyried oedd **effeithiau peidio â derbyn y grant** ar eu busnes. O’r 28 ymgeisydd aflwyddiannus a holwyd:

- Teimlai 29% fod eu trosiant yn is nag y gallai fod wedi bod pe byddent wedi derbyn y grant, a honnodd 18% bod trosiant wedi disgyn o ganlyniad (meintolodd un y golled yn £1,500 yr wythnos).
- Roedd 14% o’r Is-bostfeistri yr ymgynghorwyd â hwy yn credu bod hyfywedd rhan SP y busnes wedi lleihau.
- Teimlai un Is-bostfeistr y bu effaith ar hyfywedd y busnes o ganlyniad i beidio â chael y grant.
- Teimlai un Is-bostfeistr fod hyfywedd eu gweithgareddau dim-SP wedi ei effeithio gan nad oeddent yn gallu ehangu ystod eu cynhyrchion.

4.22. Roedd goblygiadau eraill bod yn aflwyddiannus yn cynnwys morâl staff is, pryderon ynglŷn â diogelwch, cwynion gan gwsmeriaid ynglŷn â mynediad, cyfyngiad ar y gwasanaethau a gynigwyd i’r gymuned, analluog i ymateb i


geisiadau gan gwsmeriaid am gynhyrchion a gwasanaethau newydd, a diffyg hyder mewn gwneud cais am gymorth busnes pellach.

*Rhai na wnaeth gais*

4.23. Roedd y mwyafrif (82%) o'r 28 Is-bostfeistr na wnaeth gais am grant yn ymwybodol o fodolaeth y PODF. Roedd nifer yn teimlo nad oedd angen y Gronfa neu nad oedd yn berthnasol i'w busnes. Dim ond nifer fechan a gafodd eu dianogi gan faich/anawsterau canfyddedig oedd yn gysylltiedig â gwneud cais. Penderfynodd eraill beidio â gwneud cais oherwydd ansicrwydd diwydiant swyddfa'r post yn y dyfodol, cawsant eu "digalonni gan eu profiad blaenorol o wneud cais i'r Gronfa Datblygu", canfyddiad o'r gofyniad am ariannu cyfatebol gwerth 50%, neu ddiffyg ymwybyddiaeth o gymhwyster.

4.24. Wynebai y rhai na wnaeth gais amrywiaeth o faterion/heriau yn eu busnes. Fel y dangosir isod, roedd nifer wedi gweld nifer y cwsmeriaid yn isel neu ostyngiad mewn nifer cwsmeriaid, a diffyg arian i fuddsoddi mewn gwelliannau i'r adeilad neu i ddatblygu'r busnes. Câi bron i hanner anhawster i gynnal hyfywedd ariannol eu gwasanaethau SP, a châi dros draean hefyd anhawster i gynnal hyfywedd ariannol eu gwasanaethau dim-SP. Mae llawer o'r materion hyn yn cyd-fynd â'r sail resymegol gwreiddiol dros y PODF, sydd eto'n rhoi tystiolaeth i ddangos angen am y Gronfa.

**Ffigur 4-15: A ydych chi wedi wynebu unrhyw rai o'r heriau neu'r materion canlynol yn eich busnes? (n=28)**




*Ffynhonnell: Dadansoddiad SQW o'r arolwg rhai na wnaeth gais*

4.25. Nid oedd dros hanner y rhai na wnaeth gais a holwyd wedi ymateb i'r heriau uchod mewn unrhyw fodd, tra bod bron i 20% wedi buddsoddi mewn gwasanaethau SP a dim-SP gan ddefnyddio eu harian personol neu arian eu busnes. Roedd nifer fechan wedi cael cymorth o rywle arall i wneud newidiadau, yn cynnwys Swyddfa'r Post Cyfyngedig a grantiau o'r Gronfa Datblygu Busnes.

4.26. Roedd dros hanner y rhai a holwyd *ddim yn* meddwl y byddai derbyn grant PODF wedi gwneud gwahaniaeth i'w gallu i ymateb i'r heriau a wynebwyd. Lle roedd rhai na wnaeth gais *yn* meddwl y byddai grant PODF wedi gwneud gwahaniaeth:

- credai 31% y byddai wedi eu galluogi i'w hymateb i'r heriau a wynebwyd fod o safon uwch, gan olygu mwy o fantais i'r gymuned a busnesau lleol;
- credai 15% y gellid bod wedi mynd i'r afael â'r heriau ar raddfa fwy (25% i 30% yn fwy);
- teimlai 8% y byddai'r heriau wedi cael sylw yn gyflymach.

*Asesiad o effeithiau gros a net*

4.27. Yn y Briff ar gyfer yr astudiaeth hon, gofynnodd Llywodraeth Cymru am asesiad o effeithiau economaidd gros a net. Cyfrifwyd asesiad o Werth Ychwanegol Crynswth (GYC), fel mesur o allbwn economaidd[22], gan SQW ar sail tystiolaeth arolwg ar y cynnydd mewn trosiant a welwyd gan fuddiolwyr. Fodd bynnag, o ystyried yr ymateb isel i'r cwestiwn arolwg ynglŷn â throsiant, cytunodd SQW a Llywodraeth Cymru nad oedd cyfrifiad y GYC yn ddigon cadarn i gael ei gynnwys yn yr adroddiad hwn.

4.28. Mae hefyd yn bwysig pwysleisio nad dim ond canolbwyntio ar gynyddu trosiant oedd amcanion y Gronfa hon; roedd sicrhau bod busnesau yn fasnachol hyfyw/cynaliadwy a manteision cymunedol yr un mor bwysig, ond mae'n anodd meintioli'r rhain (ac felly nid ydynt wedi eu cynnwys yn rhagamcaniad y GYC). Yn ogystal, mae meintioli effeithiau'r Gronfa ar faterion megis cynhwysiant hefyd yn anodd oherwydd diffyg data. Credir bod y manteision cymdeithasol hyn yn arwyddocaol: barnodd astudiaeth ddiweddar gan NERA ar ran Postcomm (2009) "werth cymdeithasol" swyddfeydd post[23] a daeth i'r casgliad bod y rhwydwaith swyddfeydd post yn "rhoi manteision cymdeithasol net pwysig i boblogaeth y DU"[24].

4.29. Cyflwynir asesiad ansoddol o ychwaneged a gyflawnwyd gan y Gronfa isod. Mae hyn yn rhoi ystyriaeth i ddi-fuddiant (h.y. lefel y canlyniadau fyddai wedi digwydd beth bynnag heb y prosiect), gollyngiad, dadleoliad, amnewid ac effeithiau lluosydd, yn seiliedig ar dystiolaeth o arolygon (a roddodd ganlyniadau ystadegol arwyddocaol ar ddi-fuddiant a dadleoliad), data ar leoliad buddiolwyr (sy'n rhoi data cynhwysfawr ar ollyngiad), astudiaethau achos ac ymgynghoriadau. Ar y cyfan, mae'r ychwaneged a gyflawnir gan y Gronfa yn ymddangos i fod yn uchel - h.y. ni fyddai mwyafrif y buddiolwyr wedi gwneud newidiadau i'w busnes heb gefnogaeth gan Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod dadleoliad wedi digwydd o ganlyniad i bresenoldeb cystadleuwyr yn y cyffiniau agos i Is-bostfeistri sydd

---

22 Mae GYC yn mesur cyflogau ac elw sy'n gysylltiedig â gweithgaredd economaidd arbennig.
23 Wedi ei amcangyfrif yn oddeutu £1 biliwn yn genedlaethol
24 http://www.nera.com/extImage/PUB_Postcomm_Aug2009.pdf

wedi elwa o'r Gronfa - yn y dyfodol, dylai unrhyw ymyrraeth geisio lleihau dadleoliad, a sicrhau bod Is-bostfeistri yn arallgyfeirio i weithgareddau na fydd yn creu cystadleuaeth uniongyrchol ar gyfer cwmnïau lleol eraill.

**Tabl 4-2: Asesiad o ychwaneged**

| | **Sylwadau** |
|---|---|
| Difuddiant (h.y. gwrthffeithiol) | Yn seiliedig ar yr arolwg buddiolwyr ystadegol arwyddocaol, mae 69% o ganlyniadau yn llwyr ychwanegol a 30% yn rhannol ychwanegol. Gallwn fod yn 95% hyderus bod di-fuddiant ar gyfer y boblogaeth buddiolwyr ar y lefel yma yn ± 5%. Mae hyn yn cynrychioli lefel di-fuddiant cymharol isel. |
| Gollyngiad | Mae'r dadansoddiad o leoliad yr holl fuddiolwyr yn dangos bod pob un ohonynt wedi eu lleoli yng Nghymru, yr ardal targed ar gyfer y Gronfa hon. Tybir felly bod gollyngiad yn sero. |
| Dadleoli | Tybir bod lefel dadleoliad yn ganolig. Pan holwyd am leoliad cystadleuwyr i weithgareddau dim-SP, roedd gan fwyafrif y buddiolwyr a holwyd gystadleuaeth i'w busnesau dim-SP o fewn radiws o 1 milltir (52%). Dim ond 3% o'r rheiny yn y sampl oedd â dim cystadleuwyr o fewn 10 milltir i'r swyddfa bost. O ganlyniad bydd rhywfaint o risg y bydd rhai o'r canlyniadau a gyflawnir gan y Gronfa (megis cynnydd mewn trosiant) wedi eu dadleoli o gystadleuwyr yn yr ardal leol. |
| Amnewid | Tybir bod amnewid yn isel iawn. Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod swyddfeydd post wedi cyflwyno gweithgareddau dim-SP newydd, yn hytrach nag amnewid un am un arall. |
| Effeithiau lluosogwyr | Tybir bod lluosogwyr yn gymharol uchel. Mae lluosogwyr yn meintioli'r gweithgarwch economaidd dilynol a grëir gan y Gronfa, yn cynnwys y lluosogydd incwm ("ysgogedig") a gysylltir ag incwm ychwanegol i'r rheiny a gyflogir yn yr is-swyddfa bost, a lluosogydd cyflenwi ("anuniongyrchol"), lle mae cyflenwyr lleol yn elwa o'r newidiadau a wnaed. Mae tystiolaeth i ddangos bod y Gronfa wedi annog pobl i siopa'n lleol, ac wedi bod o fudd i gadwyni cyflenwi lleol. |

*Ffynhonnell: SQW*

4.30. Hefyd, mae'r manteision a grëir gan y PODF yn debygol o barhau ar gyfer y mwyafrif o'r buddiolwyr am nifer o flynyddoedd. Mae tystiolaeth adborth o'r astudiaethau achos ac ymgynghoriadau gyda staff rheoli yn awgrymu y bydd y parhad yn digwydd am tua 10 mlynedd.

*Gwerth am arian*

4.31. Mae gwerth am arian yn fesur o effeithlonrwydd drwy ba un y mae'r allbynnau/canlyniadau wedi eu cyflawni. Yn nodweddiadol, caiff hyn ei asesu drwy gyfrifo cost fesul busnes a gynorthwywyd (byddai cyfrifiadau dilynol o Enillion ar Fuddsoddiad (RoI) a Dadansoddiadau Cost a Budd (CBA) wedyn

yn cymharu costau cyffredinol gyda'r canlyniadau/effeithiau a gyflawnwyd gan y prosiect). Fodd bynnag, gyda rhaglen megis y PODF, mae nifer o heriau o ran asesu gwerth am arian (ac yn wir RoI) oherwydd bod nifer o'r effeithiau yn ansoddol ac ni ellir eu meintioli, yn arbennig manteision i'r gymuned. Mae felly'n bwysig cadw mewn cof bod asesiadau o reidrwydd yn rhannol, yn seiliedig ar y wybodaeth sydd ar gael, ac wedi'u cafeatu.

4.32. Os byddwn yn defnyddio nifer y busnesau a gefnogir gan y PODF fel procsi ar gyfer allbynnau (gan nad yw allbynnau wedi eu casglu ar gyfer y Gronfa), mae'r dadansoddiad yn dangos bod y gost fesul busnes a gynorthwywyd ym mhedair rownd gyntaf dyfarniadau'r grant PODF yn amrywio o £15,000 i £21,000 (os cyfrifwn bob swyddfa bost fel 'busnes a gynorthwywyd' - yn ymarferol derbyniodd nifer fechan fwy nag un grant).

4.33. Mae'n anodd iawn i ddod o hyd i gymaryddion addas i'r rhaglen PODF, o gofio natur y Gronfa, ond mae meincnodau ar gyfer ymyriadau menter a datblygiad busnes mewn mannau eraill yn awgrymu, pan y'u hasesir dim ond ar y sail yma, bod y gost fesul cymorth busnes ar gyfer y PODF yn ymddangos i fod yn unol - ond tuag at ben uchaf - meincnodau o raglenni mewn mannau eraill.

## Canlyniadau ac Effeithiau – Negeseuon Allweddol

**Canlyniadau ac effeithiau - ar fusnesau**

- Teimlai 65% o'r ymatebwyr i'r arolwg fod y grant wedi deillio ar gynnydd mewn trosiant dim-SP a theimlai 60% o'r ymatebwyr bod y grant wedi deillio ar gynnydd mewn proffidioldeb dim-SP.
- Roedd 83% wedi gweld gwelliant yn hyfywedd masnachol a/neu gynaliadwyedd gweithgareddau busnes dim-SP, a 78% wedi gweld gwelliant yn hyfywedd masnachol a/neu gynaliadwyedd gweithgareddau SP.
- Mae canlyniadau eraill ar gyfer busnes yn cynnwys mwy o hyder yn rhagolygon eu busnes, newid ffordd o feddwl Is-bostfeistri ac annog rhagor o arallgyfeirio/buddsoddiad mewn gwelliannau i'r busnes dim-SP.

**Canlyniadau ac effeithiau - ar economïau lleol**

- Dywedodd 50% o ymatebwyr yr arolwg bod y grant wedi deillio ar well cyfle am swyddi (roedd 89 o swyddi wedi eu creu gan 48 o ymatebwyr i'r arolwg), ac roedd 53% o'r ymatebwyr wedi gweld mwy o hyder ymhlith busnesau yn y rhagolygon economaidd lleol.
- Anogodd y Gronfa bobl i wario arian yn yr economi leol, galluogodd i gynnyrch lleol gael ei werthu'n uniongyrchol i drigolion (ac felly cefnogwyd y cadwyni cyflenwi lleol), cafodd delwedd/apêl yr ardal ei gwella (a ddylai ddenu busnesau lleol eraill i leoli yno), ac anogodd dwristiaid i barhau i ymweld â'r ardal.

**Canlyniadau ac effeithiau – ar gynaliadwyedd cymunedau lleol**

- Galluogodd y Gronfa barhad mewn hygyrchedd i wasanaethau SP (gwelwyd hyn gan 86% o ymatebwyr yr arolwg), gwell lles cymunedol (79%) ac yr ardal yn edrych yn well (78%).
- Roedd y PODF yn llai amlwg effeithiol mewn creu canlyniadau i leihau tlodi / anghydraddoldeb / anfantais (un o bedwar maen prawf allweddol y Gronfa), lleihau allgau ariannol, gwella sgiliau, a darparu gwasanaethau dwyieithog.

**Gwerth ychwanegol strategol**

- Mae enghreifftiau o werth ychwanegol strategol a grëwyd gan y Gronfa yn cynnwys: creu hyder mewn rhagolygon ar gyfer twf; annog uwchraddio gweithgareddau; sicrhau canlyniadau a oedd o safon uwch nag a allai fod fel arall; gweithredu fel catalydd ar gyfer newid; annog is-swyddfeydd post i symud tuag at weithgareddau sy'n cyfrannu at well lles cymunedol; annog adnoddau ychwanegol i gael eu sefydlu.

**Gwerth am arian**

- Mae lefelau uchel o ychwaneged wedi eu cyflawni.
- Mae'r gwerth am arian (o ran cost am bob busnes a gynorthwyir, a'r costau rheoli/cyflenwi fel cyfran o'r buddsoddiad grant) yn rhesymol.

# 5. Casgliadau

5.1. Yn yr Adran olaf hon, rydym yn crynhoi casgliadau allweddol y gwerthusiad hwn, ac yn rhoi ein barn a'n hargymhellion ar gyfer symud ymlaen.

**Crynodeb o ganfyddiadau**

*Cynllun y rhaglen*

5.2. Roedd y Gronfa yn cyd-fynd yn dda â blaenoriaethau strategol eangach, yn arbennig rhai Cymru'n Un a oedd yn ymrwymo i "ailsefydlu ac ailffocysu'r Gronfa Datblygu Swyddfeydd Post" pan sefydlwyd y Gronfa - hwn oedd y prif sbardun y tu ôl i gyflwyniad y PODF yn 2009. Fodd bynnag, efallai oherwydd bod y Gronfa Arallgyfeirio Swyddfeydd Post (PODF) yn dilyn y Gronfa *Datblygu Swyddfeydd Post*, nid oes llawer o ddogfennaeth sy'n nodi bwriadau'r PODF; casglwyd tystiolaeth ynglŷn â hyn drwy ymgynghoriadau yn bennaf. Mae bylchau allweddol o ran gwaelodlin ar gyfer 2009 (er mwyn dangos y sail resymegol ar gyfer ymyrraeth), a dangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer allbynnau, canlyniadau ac effeithiau (y gellid mesur cynnydd yn eu herbyn). Mynegir y nodau ac amcanion presennol ar ffurf meini prawf ar gyfer y broses dyfarnu grant, ac nid ydynt yn rhai CAMPUS iawn (mae elfennau mesuradwy a phenodol yn peri problem).

*Cyflenwi gweithgareddau hyd yma*

*Cynnwys*

5.3. Rhwng mis Ionawr 2009 a mis Hydref 2010 (rowndiau 1 i 4 o'r Gronfa), dyfarnwyd 229 o grantiau, gyda chyfanswm gwariant o £4.03 miliwn. Mae cyfartaledd y grant, sef £17,600, yn cymharu gyda £40,500 yn y cynllun blaenorol. Roedd bron i dri chwarter y buddiolwyr a holwyd hefyd wedi cyfrannau'n ariannol tuag at gostau arallgyfeirio, gan wneud cyfanswm o ychydig dros £1.5 miliwn yn rowndiau 1 i 4.

5.4. Mae gweithgareddau a gyflawnwyd hyd yma wedi tueddu i ganolbwyntio ar wella busnesau dim-SP yn fwy nag arallgyfeirio i feysydd newydd. Nid yw arloesedd a chreadigrwydd yn arbennig o amlwg yn y ceisiadau, efallai'n rhannol oherwydd bod y ffurflenni wedi eu cynllunio i fod cyn symled â phosibl. Hefyd, cafodd Llywodraeth Cymru hi'n anodd cael rhai i fanteisio ar elfen refeniw'r Gronfa. Mwy na thebyg bod angen meithrin gallu yn hyn o beth yn y dyfodol. Gwelsom fod Is-bostfeistri gyda phrofiad manwerthu wedi dangos mwy o ymwybyddiaeth o'r farchnad a pharodrwydd i arallgyfeirio; hefyd, roedd prosiectau a gefnogwyd gan gefnogaeth y gymuned yn fwy llwyddiannus.

*Proses*

5.5. Ar y cyfan, roedd buddiolwyr yn fodlon iawn â phroses gyflenwi'r PODF, ac yn cydnabod cefnogaeth gan dîm profiadol Llywodraeth Cymru cyn ac ar ôl derbyn y grant. Defnyddiwyd rhwydweithiau presennol a chylchgronau gyda nifer uchel o ddarllenwyr i gyrraedd y gynulleidfa darged, a bu rhain yn effeithiol iawn mewn hyrwyddo'r Gronfa. Ystyriwyd bod hyblygrwydd i ymateb i anghenion sy'n newid yn gryfder allweddol y Gronfa.

5.6. Llenwodd y PODF fwlch gwirioneddol yn y farchnad am gymorth penodol i swyddfeydd post: mynegwyd peth pryder ynglŷn â dyblygu posibl gyda rhaglenni eraill a oedd wedi eu hanelu at hyfforddiant marchnad, cynllunio busnes, arallgyfeirio manwerthu gwledig, a grantiau cyfalaf gwledig a ddarperir gan awdurdodau lleol, ond ni nodwyd unrhyw enghreifftiau penodol i ni o ddyblygu neu ddryswch.

**Canlyniadau ac effeithiau**

5.7. O ran canlyniadau ar gyfer y busnesau eu hunain, mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod y PODF wedi chwarae rôl bwysig mewn cynyddu trosiant a phroffidioldeb busnes dim-SP, a gwella hyfywedd masnachol a/neu gynaliadwyedd gweithgareddau busnes SP a dim-SP, ar gyfer y mwyafrif o Is-bostfeistri a gyfranogodd yn y Gronfa. Erbyn hyn mae Is-bostfeistri hefyd yn

fwy hyderus yn rhagolygon eu busnes, ac mae rhai hefyd wedi eu hannog i arallgyfeirio/buddsoddi rhagor yn eu busnes dim-SP.

5.8. Mae'r PODF hefyd wedi cael effeithiau cadarnhaol ar economïau a chymunedau lleol:

- Mae tystiolaeth i awgrymu bod y PODF wedi gwella cyfleoedd am swyddi yn tua hanner y busnesau a oedd yn cyfranogi, ac wedi gwella hyder ymhlith busnesau yn y rhagolygon economaidd lleol yn fwy cyffredinol. Mae hefyd wedi annog pobl i wario arian yn yr economi leol, wedi galluogi cynnyrch lleol i gael ei werthu'n uniongyrchol i drigolion (ac felly cefnogi'r cadwyni cyflenwi lleol), gwella delwedd/apêl yr ardal (a ddylai ddenu busnesau lleol eraill i leoli yno), ac annog twristiaid i barhau i ymweld â'r ardal.
- O ran yr effeithiau ar y gymuned leol, cred yr ymatebwyr i'r arolwg bod y Gronfa wedi galluogi parhad mewn mynediad at wasanaethau swyddfa'r post a gwella lles cymunedol yn y mwyafrif o achosion.

5.9. Fodd bynnag, roedd y PODF yn llai effeithiol mewn creu canlyniadau i leihau tlodi/anghydraddoldeb/anfantais (un o bedwar maen prawf allweddol y Gronfa), lleihau allgau ariannol, gwella sgiliau, a darparu gwasanaethau dwyieithog.

5.10. Ar y cyfan, gwelsom gyflawni lefelau uchel o ychwaneged, a deuthum i'r casgliad bod y Gronfa wedi rhoi gwerth rhesymol am arian (o ran costau fesul busnes a gynorthwywyd, a chostau rheoli fel canran o'r buddsoddiad grant).

5.11. Mae'r PODF wedi dangos Gwerth Ychwanegol Strategol, er enghraifft drwy greu hyder mewn rhagolygon ar gyfer twf; annog uwchraddio gweithgareddau; cyflawni canlyniadau a oedd o safon uwch nag a allai fod fel arall; gweithredu fel catalydd ar gyfer newid;

5.12. annog is-swyddfeydd post i symud tuag at weithgareddau sy'n cyfrannu at well lles cymunedol; annog adnoddau ychwanegol i gael eu hysgogi.

5.13. Down i’r casgliad bod y Gronfa wedi bodloni ei hamcanion yn rhannol. Cynyddodd y Gronfa drosiant a phroffidioldeb busnesau dim-SP, ac felly gwella hyfywedd masnachol a/neu gynaliadwyedd gweithgareddau busnes SP a dim-SP. Fodd bynnag, mae’r dystiolaeth yn awgrymu bod mwy wedi ei gyflawni mewn gwella perfformiad ffrydiau busnes *sy’n bodoli’n barod* nac mewn annog gweithgareddau *newydd* - yr arallgyfeirio yn nheitl y Gronfa. Credwn fod maint y cymorth oedd ar gael a sut y cyflwynwyd hyn yn y broses gais yn ffactorau allweddol yn hyn. Efallai y byddai cymorth refeniw wedi cynorthwyo i ddatblygu syniadau busnes newydd a chynlluniau ar gyfer arallgyfeirio, ond ni chafodd hyn ei ddeall yn dda na’i ddefnyddio.

5.14. Gwnaeth y Gronfa gynnydd tuag at ei hamcanion cymdeithasol, gan alluogi parhad mewn mynediad at wasanaethau swyddfa’r post a gwella lles cymunedol. O ganlyniad gwelsom ddim ond ychydig o dystiolaeth bod y Gronfa wedi bod o fudd i’r rhai cymdeithasol ddifreintiedig.

**Argymhellion ar gyfer y dyfodol**

*Y cyd-destun ar gyfer ymyrraeth yn y dyfodol*

5.15. Yn olaf, rydym yn ystyried goblygiadau’r canfyddiadau hyn wrth symud ymlaen. Yn gyntaf, nodwn fod newidiadau yn y farchnad ac mewn technoleg yn parhau i herio hyfywedd swyddfeydd post. Adroddodd papur diweddar gan Ffederasiwn Cenedlaethol yr Is-bostfeistri ym mis Ebrill 2011[25]:

> *“Mae swyddfeydd post yn denu llai o gwsmeriaid, ac yn gweithredu mewn marchnad sydd hyd yn oed fwy cystadleuol, gan ddeillio ar lai o elw. Mae cyflogau yn gostwng flwyddyn ar ôl blwyddyn... Nid oes amheuaeth bod angen newid, ac os na weithredwn ni, bydd y rhwydwaith yn newid beth bynnag - gorfodir swyddfeydd post i gau.”*

5.16. Cefnogwyd yr achos o blaid ymyrraeth o ryw fath yng Nghymru gan randdeiliaid allanol a buddiolwyr y prosiect: credai 35% o’r Is-bostfeistri a holwyd y byddent angen cymorth arallgyfeirio yn y dyfodol, disgwyliai 43% y byddent angen rhyw gymorth. Mae’r cwestiwn ynglŷn ag ar ba ffurf y gall hyn

[25] http://www.nfsp.org.uk/uploads/pdfs/Network%20restructuring.pdf

fod angen ei ystyried ymhellach. Ymddengys o hyd bod ‘methiant gwybodaeth’ ymhlith Is-bostfeistri ynglŷn â’r ffordd orau i sicrhau hyfywedd economaidd a chynaliadwyedd yn y dyfodol. Dywedodd rhai bod angen gwelliannau i adeiladau (megis gwelliannau cosmetig ac offer), gan awgrymu nad oeddent yn meddwl yn arbennig o arloesol ynglŷn â’r dyfodol (neu eu bod yn disgwyl i ddim ond grantiau cyhoeddus bach i fod ar gael). Fodd bynnag, nododd eraill bod angen cyfalaf i wireddu arallgyfeirio, ac efallai y byddai hefyd angen ariannu refeniw (e.e. ar gyfer marchnata gweithgareddau dim-SP a hyfforddi staff).

5.17. Ein barn ni, o ystyried canfyddiadau’r gwerthusiad, yw y bydd ariannu refeniw yn arbennig o bwysig wrth symud ymlaen - er bod llawer, y rhan fwyaf mwy na thebyg, o Is-bostfeistri heb ddigon o arian i fuddsoddi, mae llawer hefyd heb ddigon o wybodaeth a chreadigrwydd i ddatblygu syniadau blaengar ar sut i gynnal incymau yn y dyfodol.

5.18. Mae newidiadau yng nghyd-destun polisi DU gyfan ar gyfer swyddfeydd post hefyd yn berthnasol. Mae menter SP Lleol yn canolbwyntio ar ychwanegu gwasanaethau swyddfa’r post i fusnesau eraill, yn hytrach nag arallgyfeirio swyddfeydd post sy’n bodoli’n barod. Gan fod swyddfeydd post yn fater sydd heb ei ddatganoli, dylai unrhyw ymyriadau ar gyfer Cymru yn y dyfodol gadw golwg ar bolisi cenedlaethol (a chronfeydd/ymyriadau cysylltiedig) sy’n newid er mwyn sicrhau y bydd unrhyw ymyrraeth yn y dyfodol yn ychwanegu gwerth gwirioneddol, ac nid yn dyblygu neu’n peri risg o ddryswch.

*Argymhellion parthed cynllunio a chyflenwi cynllun newydd*

5.19. O gofio bod cymorth ar lefel genedlaethol ar gael ar gyfer y swyddogaeth hon sydd heb ei datganoli, bydd yr achos o blaid rhagor o gymorth i Is-bostfeistri yng Nghymru yn dibynnu ar i ba raddau y mae’r cynllun cenedlaethol yn bodloni anghenion arbennig Cymru, yn cynnwys amodau cymdeithasol penodol a ffactorau daearyddol, a thebygolrwydd y gallai ymyrraeth ychwanegol fod yn effeithiol. Dangosodd PODF y sgôp am ymyrraeth o’r fath, ond os yw hyn yn parhau’n flaenoriaeth i Lywodraeth

Cymru, rydym yn argymell y dylai'r cynllun gael ei ailgynllunio yng ngoleuni amodau presennol yn ogystal â dysgu o'r PODF a'i rhagflaenydd, y PODevF.

5.20. Dylai meini prawf penodol fod fel a ganlyn:

- Dylid paratoi achos clir, rhesymegol gyda thystiolaeth dda, gan amlinellu'r sail resymegol dros ymyrraeth (yn 2011/12) gyda thystiolaeth gwaelodlin gefnogol (yn cynnwys cefnogaeth ategol a chefnogaeth arall), nodau ac amcanion, a dangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer allbynnau, canlyniadau ac effeithiau.
- Mae datblygu amcanion CAMPUS yn arbennig o bwysig fel y gall cynnydd gael ei fesur, a'i gyflwyno fel tystiolaeth, yn fwy effeithiol yn y dyfodol. Wrth geisio tynhau'r amcanion, dylai Llywodraeth Cymru amlinellu - a meintioli lle bo hynny'n bosibl - y 'man diwedd' a ddymunir, a beth fydd 'llwyddiant' y Gronfa (e.e. lleihau cyfradd cau swyddfeydd post gan x).
- Dylai maint a chynnwys cymorth prosiect unigol gael ei ddiffinio mewn perthynas â'r amcanion a nodwyd ar gyfer ymyrraeth a thystiolaeth yn disgrifio a meintioli angen, yn ogystal â chyfanswm yr arian sydd ar gael, a'r grwpiau a'r ddaearyddiaeth y disgwylir eu targedu. Bydd angen bod yn ofalus i sicrhau na cheir dyblygu gyda rhaglenni eraill sydd wedi eu hanelu ar hyfforddiant sgiliau a marchnata, cymorth ar gyfer cynllunio busnes, cynlluniau arallgyfeirio manwerthu gwledig, a grantiau cyfalaf ar gyfer busnesau gwledig a ddarperir gan awdurdodau lleol.
- Dylid rhoi mwy o bwyslais ar gynaliadwyedd, er mwyn sicrhau bod busnesau a gefnogir yn dod yn fwy hyfyw yn economaidd, a bod ganddynt gynlluniau clir ar gyfer y dyfodol drwy ba rai y gellir disgwyl iddynt eu hunain godi'r arian sydd ei angen.
- Os, fel y byddem eto'n ei ddisgwyl, y bydd yr amcanion yn parhau wedi'u canolbwyntio ar fanteision cymunedol, yna dylai ymgynghoriad â'r gymuned (a thystiolaeth gefnogi) fod yn gryfach yn y broses gais ac asesu.
- Dylid darparu ariannu refeniw ar gyfer cefnogi busnes (e.e. ar gyfer profi dichonoldeb, datblygu cynllun busnes neu hyfforddiant) a meithrin

gallu i gynorthwyo i ddatblygu cyfleoedd arallgyfeirio arloesol, creadigol a masnachol (e.e. gweithdai adeiladu gallu). Dylai Llywodraeth Cymru hefyd wella'r eglurhad a'r cyfathrebu ynglŷn ag ar gyfer beth y gellir defnyddio grantiau refeniw. Yn ychwanegol (neu yn lle hynny), dylai'r Gronfa weithio mewn partneriaeth agos â chyrff/sefydliadau sector preifat eraill sy'n cyflenwi rhaglenni a allai ddarparu'r gefnogaeth hon, a defnyddio profiad arall i greu rhagolygon mwy arloesol mewn busnesau eithaf ynysig, er enghraifft cynllun Agrisgôp Llywodraeth Cymru.

- Dylid datblygu gwell systemau monitro perfformiad er mwyn casglu allbynnau, canlyniadau ac effeithiau - dylai hyn gynnwys cyfathrebu ffurfiol â buddiolwyr *ar ôl* i'r newidiadau gael eu gwneud er mwyn asesu effeithiau. Er enghraifft gallai hyn olygu gofyn i fuddiolwyr gasglu tystiolaeth ar ganlyniadau/effeithiau chwech neu ddeuddeg mis wedi i'r grant gael ei wario. Gellid cysylltu hyn hefyd i fecanweithiau monitro a ddefnyddir gan eraill, megis Ffederasiwn Cenedlaethol yr Is-bostfeistri, er mwyn llywio darpariaeth cymorth gan eraill. Hefyd, dylid monitro canlyniadau ac effeithiau ar gyfer cymunedau er mwyn sicrhau bod nodau cymunedau yn cael eu cyflawni. Bydd gweithredu gwell systemau monitro ar gyfer canlyniadau/effeithiau yn galluogi Llywodraeth Cymru i asesu a yw'r Gronfa'n cyflawni'n effeithiol yn erbyn ei hamcanion (y cynnwys arallgyfeirio busnes), ac i addasu ffocws y Gronfa os bydd a phan fydd angen. Bydd hefyd yn haws i ddangos effaith ar ddiwedd hyd oes y rhaglen.

5.21. Casgliad cyffredinol y gwerthusiad oedd bod darpariaeth y PODF wedi gweithio'n dda, a'i bod wedi ei gwerthfawrogi gan fuddiolwyr. Byddem yn gobeithio y gellid rhoi trefniadau tebyg ar waith ar gyfer unrhyw ymyrraeth debyg yn y dyfodol, gan roi ystyriaeth i'r argymhellion uchod. Yn yr hinsawdd economaidd bresennol, wrth gyflwyno unrhyw gynllun newydd bydd yn arbennig o bwysig i sicrhau bod ymgeiswyr yn cael eu herio'n briodol, ac y gofynnir iddynt am y wybodaeth a fydd yn dangos angen busnes a budd y gymuned ehangach.

## Atodiad A: Buddiolwyr Rhaglen - dadansoddiad arolwg manwl

### Rhagymadrodd

A1. Cynhaliwyd arolwg buddiolwyr ym mis Gorffennaf a mis Awst 2011, ac roedd yn cynnwys sampl o 144 Is-bostfeistr a oedd wedi derbyn ariannu grant drwy'r PODF (Rowndiau 1 i 4)[26]. Mae'r canlyniadau'n ystadegol arwyddocaol ar lefel hyder ± 5 95% (h.y. gallwn fod yn 95% hyderus bod y canlyniadau'n cynrychioli poblogaeth y buddiolwyr yn gyfan ±5pp).

A2. Roedd sampl yr arolwg, a gymerwyd o gronfa ddata a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru, yn adlewyrchu cyfran y buddiolwyr llwyddiannus oedd wedi derbyn grant gwerth llai na £5,000 (22%) ac a oedd wedi derbyn grant gwerth dros £5,000 (78%). O fewn y grwpiau hyn dewiswyd buddiolwyr ar hap. Unwaith y cawsant eu dewis, gwiriwyd y sampl i wneud yn siŵr bod gwasgariad daearyddol da, ar draws derbynwyr cyfalaf a refeniw, ac ar draws y rowndiau ariannu.


A3. Drwy gyfweliad 15 munud dros y ffôn, nod yr arolwg oedd cael barn Is-bostfeistri ynglŷn â'r broses grant ac effeithiau'r PODF ar berfformiad busnes, cymunedau ac economïau lleol.

#### Proffil yr ymatebwyr

A4. Y gweithgaredd dim-SP mwyaf cyffredin a wnaed mewn swyddfeydd post yn y sampl oedd siopau nwyddau cyfleus neu siopau groser, gyda 95% o'r buddiolwyr yn defnyddio eu hadeilad ar gyfer y gweithgarwch hwn (Ffigur A-1).

[26] Nid oes buddiolwyr rownd pump wedi eu dyfarnu ar adeg y sampl


**Ffigur A-1: Mathau o weithgareddau dim-SP yn digwydd mewn adeiladau SP**




*Ffynhonnell: Dadansoddiad SQW o'r arolwg buddiolwyr. Gallai'r ymatebwyr roi mwy nag un ateb. n=144. Mae 'Eraill' yn cynnwys gorsafoedd petrol, asiantaethau teithio, gwasanaethau glanhau sych, fferyllfa a chymhorthfa heddlu.*

A5. Fel y dangosir isod, ni wnaeth y mwyafrif o'r ymatebwyr gyflogi staff ychwanegol ar gyfer naill ai busnes SP neu dim-SP.

**Ffigur A-2: Nifer yr ymatebwyr gyda staff SP a staff dim-SP gwahanol**





*Ffynhonnell: Dadansoddiad SQW yn seiliedig ar arolwg buddiolwyr. At ddiben y dadansoddiad, tybiwyd bod staff rhan amser yn gweithio 2.5 diwrnod yr wythnos. n=144*

**Sail resymegol ac amcanion**

A6. Nid oedd gan fwyafrif yr ymatebwyr ddigon o adnoddau i fuddsoddi mewn gwelliannau i adeilad, a dyma sbardunodd eu cais am grant (Ffigur A-3). Roedd hi'n ddiddorol gweld bod llai o ymatebwyr yn cael trafferthion i gynnal hyfywedd ariannol eu gweithgareddau dim-SP o gymharu â'u busnesau swyddfa bost.

**Ffigur A-3: Materion a heriau a wynebwyd a ysgogodd buddiolwyr i wneud cais**




*Ffynhonnell: Dadansoddiad SQW yn seiliedig ar arolwg buddiolwyr. Gallai'r ymatebwyr roi mwy nag un ateb. Sail: n=144*

A7. O ran **nodau ac amcanion**, roedd y mwyafrif eisiau gwella hyfywedd a/neu gynaliadwyedd busnes dim-SP presennol (90% o ymatebwyr), wedi ei ddilyn gan weithrediad swyddfeydd post mwy effeithlon (79%). Y rhesymau eraill, pob un wedi eu henwi gan dros 60% o ymatebwyr, oedd:

- darparu gwasanaethau newydd/estynedig i'r gymuned leol, yn cynnwys mynediad at weithgareddau ariannol
- arallgyfeirio i gyflwyno gweithgareddau newydd (dim-SP) i wella hyfywedd a/neu gynaliadwyedd y gweithgareddau SP.

A8. Roedd nodau eraill yn cynnwys cynyddu mynediad i'r anabl, diogelu/creu swyddi, gwell amodau gwaith, gwelliannau cosmetig i'r swyddfa bost a chynyddu nifer cwsmeriaid.


**Gweithgareddau a phrosesau**

*Grantiau a dderbyniwyd*

A9. Roedd **swm yr ariannu a dderbyniwyd o'r PODF** yn amrywio o £1,300 i £22,000[27] ar gyfer grantiau cyfalaf a £400 i £15,000[28] ar gyfer y grantiau refeniw. Derbyniodd 68 y grant cyfalaf uchaf, sef £20,000, a oedd yn cynrychioli 50% o'r holl grantiau cyfalaf a ddyfarnwyd. Cyfartaledd y grant cyfalaf oedd tua £15,200 a £9,300 ar gyfer grantiau refeniw.

A10. Derbyniodd 44% o'r buddiolwyr eu grant cyntaf yn 2009 tra derbyniodd 56% ef yn 2010. Derbyniodd bump ymatebydd fwy nag un grant cyfalaf, a derbyniodd un ymatebydd dri grant.

**Ffigur A-4: Nifer yr ymatebwyr gyda lefelau gwahanol o grant**




*Ffynhonnell: Dadansoddiad SQW yn seiliedig ar arolwg buddiolwyr. Mae'r ffigurau seiliedig ar y cyfansymiau y gwnaeth buddiolwyr eu derbyn dros gyfnod rowndiau dyfarnu'r grant. n=131*


---

[27] Cafodd pump ymateb eu heithrio o'r dadansoddiad gan eu bod yn uwch na'r terfyn £20,000 ac yn anghywir pan y'u croes-gyfeiriwyd gyda chronfa ddata a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru.

[28] Cafodd un ymateb ei eithrio gan ei fod yn uwch na'r terfyn uchaf a oedd yn bosibl ar gyfer grantiau refeniw.

A11. Defnyddiodd y nifer uchaf o Is-bostfeistri a holwyd eu grantiau i wella mynediad a threfn, moderneiddio busnesau dim-SP oedd yn bodoli eisoes, a phrynu offer newydd (gweler Ffigur A-5).

**Ffigur A-5: Defnydd a wnaed o'r ariannu grant**





*Ffynhonnell: Dadansoddiad SQW yn seiliedig ar arolwg buddiolwyr. Gallai'r ymatebwyr roi mwy nag un ateb. n=144*

A12. Gwnaeth bron i dri chwarter (72%) y buddiolwyr **gyfrannu'n ariannol tuag at gost arallgyfeirio (o gronfeydd personol)**, a ddaeth i gyfanswm o ychydig dros £1.5 miliwn. Dyfarnodd Llywodraeth Cymru gyfanswm o tua £2.5 miliwn i'r buddiolwyr yn y sampl (62% o'r holl arian a wariwyd ar y prosiectau yn y sampl). Cyfartaledd y cyfraniad gan Is-bostfeistri oedd £16,700.

*Adborth ar brosesau*

A13. Nodwyd Swyddfa'r Post Cyfyngedig a Ffederasiwn Cenedlaethol yr Is-bostfeistri amlaf fel ffynhonnell gwybodaeth ar gyfer y PODF (yn arbennig deunydd ysgrifenedig megis cylchgronau). Ni atgyfeiriwyd yr un o'r swyddfeydd post o raglen gefnogi arall. Roedd ffyrdd eraill y gwnaeth ymatebwyr ddod i wybod am y rhaglen yn cynnwys Llywodraeth Cymru, papurau newydd a chylchgronau anarbenigol, a gan gyngor lleol.


**Ffigur A-6: Sut y gwnaeth ymatebwyr ddod i wybod yn wreiddiol am y PODF**




*Ffynhonnell: Dadansoddiad SQW yn seiliedig ar arolwg buddiolwyr. n=144*

A14. Roedd derbynwyr y grant yn meddwl bod y **PODF yn cyfateb yn dda i'w anghenion penodol:** roedd 94% o'r rheiny yn y sampl yn meddwl bod y rhaglen yn cyd-fynd yn 'dda' neu'n 'dda iawn' â'u hanghenion. Gwnaethant ddangos hefyd lefel uchel o fodlonrwydd â'r **holl broses gais yn cynnwys cefnogaeth gan Lywodraeth Cymru (cyn ac ar ôl derbyn y grant)** - gweler Ffigur A-7.

**Ffigur A-7: Graddau o fodlonrwydd â'r broses gais a chefnogaeth gan Lywodraeth Cymru**




*Ffynhonnell: Dadansoddiad SQW yn seiliedig ar arolwg buddiolwyr. n=144*

*Cymorth arall*

A15. Gwnaeth 10% o'r swyddfeydd post a holwyd **dderbyn cymorth ychwanegol ar yr un pryd neu'n gysylltiedig â derbyn y grant PODF**, a oedd yn cynnwys ariannu (e.e. gan awdurdod lleol, Llywodraeth Cymru neu'r Gronfa Loteri Fawr), gyda'r hanner arall yn cynnwys cymorth busnes. Nid oedd yr un o'r ymatebwyr yn teimlo y **gallent fod wedi dod o hyd i gymorth tebyg i'r PODF yn rhywle arall**, naill ai o'r sector cyhoeddus neu preifat.

**Canlyniadau ac effeithiau**

*Canlyniadau ac effaith ar gyfer y busnes*

A16. Ar y cyfan roedd ymatebwyr yn teimlo bod y PODF wedi cael **effaith gadarnhaol ar eu busnesau**, yn cynnwys:

- rhagor o hyder gan yr Is-bostfeistri yn rhagolygon eu busnes (88% o'r ymatebwyr)
- gwell hyfywedd masnachol a/neu gynaliadwyedd gweithgareddau busnes dim-SP (83%)
- gwell hyfywedd masnachol a/neu gynaliadwyedd gweithgareddau SP (78%).

A17. Ar gyfer yr ymatebwyr hynny oedd yn gallu darparu canran (66 a 53 o ymatebwyr yn y drefn a nodir isod - cyfran fechan o fuddiolwyr), cyfartaledd y cynnydd mewn nifer cwsmeriaid oedd 11% tra bod cyfartaledd y cynnydd mewn trosiant yn 15%. Allan o'r rheiny oedd wedi nodi effaith, teimlai'r mwyafrif fod y grant wedi cyfrannu'n llawn neu'n rhannol at wella hyfywedd masnachol gweithgareddau SP bost a dim-SP.

**Tabl A -1: Canlyniadau arolwg - effeithiau wedi eu meintoli**

| | | Cynnydd absoliwt (cyn → ar ôl derbyn y grant) | Cynnydd canrannol (cyn → ar ôl derbyn y grant) |
|---|---|---|---|
| **Nifer cwsmeriaid** | Gwerth isaf a welwyd gan ymatebydd i'r arolwg | 20 | 2% |
| | Gwerth uchaf a welwyd gan ymatebydd i'r arolwg | 59,000 | 80% |
| | Gwerth canolrif | 225 | 11% |
| | n (nifer yr ymatebwyr a roddodd dystiolaeth) | 14 | 66 |
| **Trosiant dim-SP** | Gwerth isaf a welwyd gan ymatebydd i'r arolwg | £15 | 1% |
| | Gwerth uchaf a welwyd gan ymatebydd i'r arolwg | £40,000 | 100% |
| | Gwerth canolrif | £865 | 15% |
| | n (nifer yr ymatebwyr a roddodd dystiolaeth) | 20 | 53 |
| **Proffidioldeb dim-SP** | Gwerth isaf a welwyd gan ymatebydd i'r arolwg | £5 | 1% |
| | Gwerth uchaf a welwyd gan ymatebydd i'r arolwg | £19,500 | 100% |
| | Gwerth canolrif | £55 | 12% |
| | n (nifer yr ymatebwyr a roddodd dystiolaeth) | 7 | 50 |
| **Swyddi a grewyd** | Gwerth isaf a welwyd gan ymatebydd i'r arolwg | 1 | 2% |
| | Gwerth uchaf a welwyd gan ymatebydd i'r arolwg | 8 | 100% |
| | Gwerth canolrif | 1 | 32% |
| | n (nifer yr ymatebwyr a roddodd dystiolaeth) | 48 | 8 |

*Ffynhonnell: Dadansoddiad SQW o ganlyniadau arolwg buddiolwyr. Dim ond ymatebwyr a oedd yn meddwl y bu effaith a aeth ymlaen wedyn i feintioli'r effaith a rhoddodd rhai ymatebwyr rif absoliwt a chanran.*

A18. Pan ofynnwyd iddynt **egluro sut y gwnaeth eu busnes elwa**, dywedodd llawer o fuddiolwyr eu bod yn teimlo'n fwy sefydlog a diogel yn eu gwaith, oriau agor SP hwy, ac amgylchedd gweithio mwy pleserus.

**Tabl A-2: Enghreifftiau o sut y gwnaeth busnesau elwa**

**Mwy o hyder yn rhagolygon eu busnes:**

"Rydym yn darparu gwasanaeth mwy effeithlon, ac mae delwedd y busnes ar y cyfan yn well".

"Mae cyfleoedd ychwanegol ar gyfer gwasanaethau SP ar benwythnosau".

"Mae llawer mwy o bobl newydd yn dod i'r swyddfa bost o ganlyniad i'r ailwampio".

"Mae wedi rhoi hyder i mi bod y busnes ei hun yn dal yn hyfyw a'i fod yn cael ei ddiweddaru, ei wella a'i foderneiddio".

"Mae gen i fwy o hyder oherwydd mae gen i fwy o amser i dreulio yn siarad â chwsmeriaid a gweld beth y maent am ei gael ac mae'r siop yn lle hapusach ar y cyfan".

"Dydw i ddim yn teimlo'r un bygythiad ag yn y gorffennol nawr bod gennym deledu cylch cyfyng".

"Roedd hi'n anodd cyn hyn, doedd y dyfodol ddim yn addawol, mae'r grant wedi fy helpu i newid cyfeiriad fy musnes".

"Rwy'n meddwl efallai bod y staff yn teimlo'n well ynglŷn â'r amgylchedd gweithio".

"Mae cael SP gref a hyfyw wedi denu eraill i ganol y dref, megis uned ystafelloedd ymolchi a bwyty newydd".

**Gwella hyfywedd masnachol a/neu gynaliadwyedd busnes dim-SP:**

"Gan eu bod yn gallu codi arian yn lleol byddant yn gwario arian yn lleol".

"Rydym yn gallu arddangos rhagor o nwyddau yn y siop".

"Mae'r llungopïwr wedi dod â llawer o fusnes".

**Gwella hyfywedd masnachol a/neu gynaliadwyedd busnes SP:**


"Mae'r cynnydd yn y busnes manwerthu yn diogelu'r busnes SP".

"Mae wedi ei wneud yn fwy hyfyw oherwydd ein bod yn gwerthu mwy, mae rhan y siop yn golygu bod mwy o bobl yn defnyddio'r SP".

*Ffynhonnell: Dadansoddiad SQW yn seiliedig ar arolwg buddiolwyr*

A19. Adroddodd canran uwch o fuddiolwyr grantiau mwy (£5,000+) effeithiau cadarnhaol i'w busnesau o gymharu â'r rheiny y dyfarnwyd grantiau llai (dan £5,000) iddynt – gweler Ffigur A-8. Fel eithriad, cafodd 'bod â mwy o hyder mewn rhagolygon busnes' ganlyniadau tebyg ar gyfer y ddau grŵp o ymatebwyr.

**Ffigur A-8: Cymhariaeth canlyniadau ac effeithiau ar y busnes ar gyfer y rheiny'n derbyn dros a than £5,000**





*Ffynhonnell: Dadansoddiad SQW yn seiliedig ar arolwg buddiolwyr. n=144*

### *Canlyniadau ac effeithiau ar gyfer yr economi ehangach*

A20. Roedd y rheiny y dyfarnwyd grantiau dan £5,000 iddynt yn llawer llai tebygol o sylwi ar effeithiau ar yr economi (gweler Ffigur A-9). Nid oedd mwyafrif y buddiolwyr hyn yn meddwl bod y grant wedi gwella cyfleodd am swyddi nac wedi annog mentrau cymdeithasol neu gymunedol (86% a 93% yn y drefn honno).

**Ffigur A-9: Cymhariaeth o ganlyniadau ac effeithiau ar yr economi ehangach ar gyfer y rheiny'n derbyn dros a than £5,000**





*Ffynhonnell: Dadansoddiad SQW yn seiliedig ar arolwg buddiolwyr. n=144*

A21. Dywedodd rhai Is-bostfeistri bod eu busnes wedi cynyddu, roedd rhai busnesau eraill yn y gymdogaeth wedi elwa hefyd, drwy fod rhagor o bobl yn ymweld â'r ardal, gan roi mwy o hyder yn yr ardal, neu drwy ddefnyddio cyflenwyr lleol ar gyfer gweithgareddau busnes dim-SP.

*Canlyniadau ac effeithiau ar gyfer y gymuned ehangach*

A22. Yr **effeithiau ar y gymuned ehangach** a nodwyd fwyaf cyffredin oedd parhad mynediad at wasanaethau SP (86%), gwella lles cymunedol (79%) a gwella golwg yr ardal (78%). Roedd buddiolwyr yn llai tebygol o feddwl bod allgau ariannol (35%) a thlodi, anghydraddoldeb ac anfantais (38%) wedi lleihau o ganlyniad i'r grant (gweler Ffigur A-10).

**Ffigur A-10: Canlyniadau ac effeithiau ar y gymuned ehangach yn ôl maint grant**




*Ffynhonnell: Dadansoddiad SQW yn seiliedig ar arolwg buddiolwyr. n=144*

A23. Mae Tabl A-3 yn rhoi enghreifftiau o ffyrdd yr oedd y buddiolwyr yn y sampl yn meddwl eu bod wedi bod o fudd i'w cymunedau.

**Tabl A-3: Enghreifftiau o sut mae'r grant wedi bod o fudd i'r gymuned**

| |
|---|
| • Cynnal gwasanaethau ar gyfer y rheiny sydd mewn tlodi (fel nad oes yn rhaid iddynt dalu am drafnidiaeth i rywle arall).<br>• Hyfforddi staff newydd ar gyfer y busnesau dim-SP (e.e. arlwyo, hylendid bwyd, sgiliau TG).<br>• Clybiau a grwpiau lleol yn defnyddio'r caffi.<br>• Cwmni cydweithredol ffrwythau ar gyfer pobl leol.<br>• Gwella'r profiad ar gyfer cwsmeriaid ag anableddau (rampiau, cownteri addas ar gyfer cadeiriau olwyn).<br>• Darparu mynediad at wasanaethau ariannol ar gyfer y rheiny heb gyfrif banc neu drafnidiaeth.<br>• Cynigion arbennig nawr ar gael i'r oedrannus a theuluoedd.<br>• Cyflwyniad aelodau staff dwyieithog.<br>• Gwell diogelwch drwy well goleuo, teledu cylch cyfyng a systemau larwm. |

*Ffynhonnell: Addaswyd o'r arolwg buddiolwyr*

*Canlyniadau ac effeithiau eraill*


A24. Roedd **manteision eraill y PODF** yn canolbwyntio ar fwy o hyder yn hyfywedd SP a bod y dyfodol yn ymddangos yn sicr. Ymhlith manteision eraill a awgrymwyd mae:

- pobl yn dod i mewn nad oeddent wedi eu gweld yno o'r blaen;
- pobl yn gwerthfawrogi'n fwy eu presenoldeb yn y gymuned;
- lleihad sylweddol mewn achosion o ddwyn;
- amgylchedd mwy pleserus i weithio ynddo;
- y grant yn annog gwelliannau neu gyfleoedd yn y dyfodol, e.e. cael gwefan/busnes ar-lein.

*Ychwanegedd a chystadleuaeth*

A25. **Heb y PODF**, honnodd mwyafrif sylweddol (69%) na fyddent wedi gallu gwneud unrhyw newidiadau (gweler Ffigur A-11). Roedd hyn mewn cyferbyniad â dim ond 1% yn honni y byddent wedi gallu gwneud yr un newidiadau i'r un safon, graddfa ac amserlen heb y grant.

**Ffigur A-10: Beth fyddai wedi digwydd heb y grant?**




*Ffynhonnell: Dadansoddiad SQW yn seiliedig ar arolwg buddiolwyr. n=144*

A26. Roedd y rheiny a dderbyniodd grant dan £5,000 60% yn fwy tebygol o feddwl y byddent wedi cyflawni'r newidiadau yn rhannol (yn ddiweddarach, i safon is neu ar raddfa lai) heb y grant o gymharu â'r rheiny yn derbyn dros £5,000.

A27. Pan holwyd am **leoliad cystadleuwyr i weithgareddau dim-SP**, roedd gan fwyafrif y buddiolwyr a holwyd gystadleuaeth i'w busnesau dim-SP o fewn radiws o 1 milltir (52%). Dim ond 3% o'r rheiny yn y sampl oedd â dim cystadleuwyr o fewn 10 milltir i'r swyddfa bost.

**Y Dyfodol a Chynaliadwyedd**

A28. Roedd cyfran sylweddol o'r buddiolwyr a holwyd (72%) ddim yn meddwl y gellid **gwella'r rhaglen mewn unrhyw ffordd, pe bai'r rhaglen yn cael ei hail-lansio yn y dyfodol**. Mae'r awgrymiadau ar gyfer gwelliannau wedi eu crynhoi yn Tabl A-4.

**Tabl A-4: Awgrymiadau ar gyfer gwellianau i'r Gronfa Arallgyfeirio**

| Proses gwneud cais am grant | Ffocws y grant |
|---|---|
| • Rhoi mwy o gyhoeddusrwydd i'r grant.<br>• Symleiddio a byrhau'r ffurflen (defnyddio llai o jargon) a'i gwneud yn llai ailadroddus.<br>• Darparu canllawiau ynglŷn â lle gall Is-bostfeistri gael cefnogaeth a chyngor i'w cynorthwyo i lenwi'r cais.<br>• Cyngor ynglŷn â beth yn union y gellid hawlio, yn enwedig gydag ariannu refeniw.<br>• Cyflymu'r amser rhwng gwneud cais am grant a chael gwybod am ddyfarniad y grant.<br>• Cyfnod hwy ar gyfer gwneud cais (i alluogi Is-bostfeistri i ddatblygu syniadau ar gyfer arallgyfeirio).<br>• Gwelliannau mewn cyfathrebu, e.e. rhoi gwybod yn gyflym i Is-bostfeistri bod cynnig y grant refeniw wedi ei dynnu'n ôl. | • Cynyddu'r swm y gellid ei ddyfarnu mewn grantiau cyfalaf gan fod y terfyn uchaf yn rhy isel.<br>• Teimlid y gallai'r gronfa gael ei gwastraffu oni bai bod y llywodraeth yn datrys gwraidd y broblem, sef y lleihad mewn gwaith swyddfa'r post. |

*Ffynhonnell: Seiliedig ar arolwg buddiolwyr*

A29. Dywedodd tua (35%) o'r ymatebwyr y byddent angen **cymorth PODF yn y dyfodol**, gyda 43% arall yn ateb 'efallai' i'r cwestiwn hwn. Ni fyddai 22%

angen unrhyw gymorth ychwanegol. O'r rheiny a atebodd 'byddwn' neu 'efallai', teimlai buddiolwyr y byddent angen cymorth ar gyfer y canlynol:

**Tabl A-5: Anghenion cymorth grant yn y dyfodol**

| Gwelliannau i adeilad | Arallgyfeirio |
|---|---|
| • Gwelliannau cosmetig, e.e. blaen siop newydd, arwyddion dwyieithog neu gownteri SP newydd.<br>• Offer, e.e. systemau Man Gwerthu Electronig, systemau diogelwch, offer TG.<br>• Gwelliannau eraill, megis gwell mynediad i'r anabl. | • Cyfalaf, e.e. caffi, gwerthu bwyd, nwyddau newydd, peiriannau arian, gofod ar gyfer darparu cyngor ariannol i gwsmeriaid.<br>• Gweithgareddau eraill, e.e. caffi rhyngrwyd, prydferthwyr, gwerthwr pysgod, ffotograffiaeth, canolfannau garddio.<br>• Refeniw, e.e. marchnata, gwefannau, hyfforddiant staff. |

*Ffynhonnell: SQW yn seiliedig ar arolwg buddiolwyr*

## Atodiad B: Ymgeiswyr Aflwyddiannus a Rhai Na Wnaeth Gais – ddansoddiad manwl o'r arolwg

B1. Yn ychwanegol at yr arolwg o fuddiolwyr llwyddiannus grant PODF, cynhaliwyd hefyd ddau arolwg arall: un gyda 28 o ymgeiswyr aflwyddiannus am grant PODF ac un arall gyda 28 na wnaeth gais, er mwyn asesu'r gwrthffeithiol (h.y. yr hyn a lwyddodd rhai nad oedd yn fuddiolwyr i'w gyflawni o ran arallgyfeirio heb y grant).

### Ymgeiswyr aflwyddiannus



B2. Yn ystod rowndiau un i bedwar bu 109 o geisiadau aflwyddiannus, ond aeth 51 o'r rhain ymlaen i fod yn llwyddiannus mewn rowndiau ariannu dilynol. O'r 58 o ymgeiswyr a fu'n gwbl aflwyddiannus yn eu cais am ariannu, dewiswyd sampl o 28 ar hap ar gyfer yr arolwg.

*Proffil swyddfeydd post*

B3. Roedd dros draean o Is-bostfeistri aflwyddiannus yn siopau nwyddau cyfleus neu siopau groser. Gwerthu cardiau a nwyddau papur oedd y gweithgaredd dim-SP mwyaf cyffredin o bell ffordd, ynghyd â losin, anrhegion, teganau a siop bapur newydd, siop drwyddedig, tybaco a llungopïwr.

B4. Unwaith eto, roedd y rhan fwyaf o swyddfeydd post yn fach iawn ac nid oeddent yn cyflogi staff arall (Tabl B-1).

**Tabl B-1: Nifer staff**

| Nifer staff SP | Nifer staff dim-SP |
| --- | --- |
|   |   |

*Ffynhonnell: Dadansoddiad SQW o'r arolwg ymgeiswyr aflwyddiannus*

*Y broses gais*


B5. Gofynnwyd i'r ymgeiswyr aflwyddiannus **pa faterion neu heriau a'u symbylodd i wneud cais** am grant PODF, a'r ymateb mwyaf cyffredin (82%) oedd diffyg arian i fuddsoddi mewn gwelliannau i'r adeilad. Dim ond dau Is-bostfeistr ddywedodd bod diffyg arian i fuddsoddi mewn datblygu busnes yn gatalydd iddynt wneud cais am grant. O ran hyfywedd ariannol, dim ond dau Is-bostfeistr oedd yn cael anhawster i gynnal hyfywedd ariannol eu gweithgareddau SP. Nid oedd ddiffyg neu leihad mewn nifer cwsmeriaid yn ymddangos fel petai'n broblem sylweddol. Rhesymau eraill a roddwyd am wneud cais am y PODF oedd cynorthwyo gyda darpariaeth gwell cynhyrchion a gwasanaethau a diogelwch.


B6. O ran y defnydd arfaethedig o'r PODF:

- dywedodd dros 90% o'r ymgeiswyr aflwyddiannus eu bod eisiau cael gweithrediad SP mwy effeithlon;
- roedd tua 70% eisiau darparu gwasanaethau newydd i'r gymuned a gwella hyfywedd a chynaliadwyedd busnes dim-SP presennol;
- roedd dros 60% eisiau rhoi mynediad i'r gymuned at wasanaethau ariannol ac ymestyn y gwasanaethau y gallent eu cynnig i gymunedau Lleol;
- dywedodd bron i 60% eu bod eisiau defnyddio'r grant i arallgyfeirio a chyflwyno gweithgaredd busnes dim-SP er mwyn gwella hyfywedd a chynaliadwyedd eu busnes dim-SP presennol;
- roedd defnyddiau eraill a ragwelwyd ar gyfer y grant yn cynnwys gwelliannau ar gyfer mynediad i'r anabl ac ailwampio a moderneiddio.

B7. Ar y cyfan, rhoddodd ymgeiswyr aflwyddiannus adborth eithaf negyddol ar y broses adborth, fel y gellid disgwyl.

**Tabl B-2: Bodlonrwydd gyda'r broses grant a darpariaeth cefnogaeth (n=28)**

<table>
<tr><th>Bodlonrwydd gyda'r broses cais am grant</th><th>Bodlonrwydd gyda'r gefnogaeth a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru</th></tr>
<tr><td>


</td><td>


</td></tr>
</table>

*Ffynhonnell: Dadansoddiad SQW o'r arolwg ymgeiswyr aflwyddiannus*

B8. Dywedodd chwarter yr ymgeiswyr bod eu ceisiadau'n aflwyddiannus oherwydd nad oedd y defnydd a fwriadwyd yn bodloni meini prawf y PODF ac roedd 14% wedi methu â darparu digon o wybodaeth ar y ffurflen gais. Dywedodd dros draean (36%) yr ymgeiswyr na roddwyd rheswm iddynt dros fethiant eu cais, ni allai 14% arall gofio'r eglurhad a roddwyd iddynt ar y pryd.

*Gweithredu dilynol a goblygiadau*

B9. Yn dilyn eu cais aflwyddiannus, methodd mwyafrif yr ymgeiswyr a holwyd (68%) newid eu busnes mewn unrhyw ffordd. Aeth ychydig dros un rhan o bump ati i wneud rhai newidiadau i'w busnes, er ar raddfa lai (tua 80% yn llai yn y rhan fwyaf o achosion). Dywedodd dau Is-bostfeistr er iddynt fynd ati i wneud newidiadau, roedd y rhain o safon is nag a fyddent wedi llwyddo i'w gwneud pe byddent wedi bod yn llwyddiannus. Mae 11% arall yn bwriadu gwneud newidiadau'n ddiweddarach (tri i naw mis yn ddiweddarach).

B10. O'r naw (32%) a aeth ati i wneud newidiadau i'w busnes beth bynnag, ni dderbyniodd wyth gymorth o unman arall. Roedd y gefnogaeth a dderbyniwyd gan un Is-bostfeistr yn fychan iawn (cymorth gyda threfn yr adeilad), ond fe wnaeth ei gynorthwyo i gyflawni'r un canlyniadau ag y byddai wedi ei wneud gyda'r grant, er yn ddiweddarach (6 mis), i safon is ac ar raddfa lai (80% yn llai).

B11. Mae'n syndod mai dim ond un a honnodd bod y newidiadau a wnaeth i'w fusnes yn gysylltiedig â gwasanaethau newydd i'r gymuned leol. Roedd gwelliannau eraill a wnaed yn cynnwys paentio tu allan, mynediad i'r anabl, systemau diogelwch newydd, ailwampio ac adnewyddu.


B12. Gofynnwyd i'r Is-bostfeistri beth oedden nhw'n ei ystyried oedd goblygiadau peidio â derbyn y grant ar eu busnes. Teimlai wyth ymgeisydd fod eu trosiant yn is na'r hyn y gallai fod wedi bod, a honnodd pump ei fod wedi gostwng o ganlyniad (meintolodd un hyn fel colled o £1,500 yr wythnos). Ystyriodd pedwar Is-bostfeistr bod hyfywedd rhan SP y busnes wedi lleihau. O ran gweithgaredd dim-SP, teimlai un Is-bostfeistr y bu effaith ar hyfywedd y busnes o ganlyniad i beidio â chael y grant; gwnaeth un arall sylw am hyfywedd ei weithgareddau dim-SP yn cael ei gyfyngu gan ei fod yn methu ehangu ei gynhyrchion fel yr oedd wedi ei ddymuno.

B13. Roedd goblygiadau eraill peidio â bod yn llwyddiannus yn eu cais am grant yn cynnwys:

- morâl staff is;
- pryderon ynglŷn â diogelwch;
- cwynion gan gwsmeriaid ynglŷn â mynediad;
- cyfyngiad ar y gwasanaethau a gynigwyd i'r gymuned;
- anallu i ymateb i geisiadau gan gwsmeriaid am gynhyrchion a gwasanaethau newydd;
- diffyg hyder mewn gwneud cais am gymorth busnes pellach.

B14. Roedd tri-chwarter yr ymgeiswyr aflwyddiannus a holwyd yn rhagweld y byddent angen cymorth PODF yn y dyfodol, ac roedd 18% yn meddwl efallai y byddent angen cymorth. Cyflwynir enghreifftiau o anghenion yn y dyfodol yn Ffigur B-1.

**Ffigur B-1: Gwelliannau fydd angen cymorth PODF yn y dyfodol**




*Ffynhonnell: Dadansoddiad SQW o'r arolwg ymgeiswyr aflwyddiannus*

### Rhai na wnaeth gais

B15. Cafwyd rhestr gynhwysfawr o'r holl Is-bostfeistri yng Nghymru gan Ffederasiwn Cenedlaethol yr Is-bostfeistri ac o honno canfuwyd y rhai na wnaeth gais. Dewiswyd sampl ar hap o 28 Is-bostfeistr o'r rhestr hwn.


B16. Roedd mwyafrif (82%) y rhai na wnaeth gais yn ymwybodol o'r PODF, ond teimlai 30% nad oedd ei angen neu nad oedd yn berthnasol i'w busnes, gyda 17% arall yn penderfynu peidio gwneud cais oherwydd y baich/anawsterau canfyddedig a oedd yn gysylltiedig â'r broses gwneud cais. Soniodd y 57% oedd yn weddill am amryw o resymau dros beidio â gwneud cais am y grant, yn cynnwys y canfyddiad bod angen ariannu cyfatebol gwerth 50% neu nad oedd buddiolwyr PODevF yn gymwys i wneud cais.

B17. O'r pump nad oedd yn ymwybodol o'r PODF, dywedodd pedwar y byddent wedi gwneud cais pe baent yn gwybod am ei bodolaeth.

B18. Roedd tri chwarter y rhai a holwyd wedi bod yn gweld nifer y cwsmeriaid yn isel neu ostyngiad mewn nifer cwsmeriaid, nid oedd gan dros 60% yr arian i fuddsoddi mewn gwelliannau i adeilad eu swyddfa bost ac nid oedd gan hanner yr arian i fuddsoddi mewn datblygu busnes. Yr hyn sy'n peri pryder,

er nad yn annisgwyl o gofio'r sail resymegol i'r PODF, yw bod 43% o'r Is-bostfeistri a holwyd yn dweud eu bod yn cael anhawster i gynnal hyfywedd eu gwasanaethau SP ac roedd dros draean (36%) hefyd yn cael anhawster i gynnal hyfywedd eu gwasanaethau dim-SP. Cydnabuwyd yr angen i gael cyngor ar sut i wella busnes gan bron i 30% o'r Is-bostfeistri na wnaeth gais.

**Ffigur B-2: Ydych chi wedi wynebu unrhyw rai o'r heriau neu'r materion canlynol yn eich busnes? (n=28)**




*Ffynhonnell: Dadansoddiad SQW o'r arolwg rhai na wnaeth gais*

B19. Nid yw dros hanner y rhai na wnaeth gais wedi ymateb i'r heriau uchod mewn unrhyw ffordd. Fodd bynnag, roedd bron i 20% wedi buddsoddi mewn gwasanaethau SP a dim-SP gan ddefnyddio eu harian eu hunain neu arian busnes (e.e. Cronfa Datblygu Busnes Llywodraeth Cymru a chymorth Swyddfa'r Post Cyfyngedig) i wneud hynny.

B20. Nid oedd hanner y rhai a ymatebodd yn credu y byddai derbyn grant PODF wedi gwneud gwahaniaeth i'w gallu i ymateb i'r heriau a wynebwyd. Fodd bynnag, credai 31% o'r ymatebwyr y byddai wedi galluogi i'w hymateb i'r heriau a wynebwyd fod o well safon, gan olygu mwy o fantais i'r gymuned a busnesau lleol, credai 15% y gellid bod wedi mynd i'r afael â'r heriau ar raddfa fwy (25% i 30% yn fwy), tra teimlai 8% y byddai'r heriau wedi cael sylw yn gyflymach.

B21. Yn olaf, gofynnwyd i'r Is-bostfeistri a fyddent angen cymorth PODF yn y dyfodol: dywedodd 43% y byddent, roedd 39% yn credu efallai y byddent, a dywedodd y 18% a oedd yn weddill na fyddai angen cymorth arnynt. Dangosir y mathau o gymorth y gallent fod ei hangen yn Tabl B-3.

**Tabl B-3: Gofynion cymorth PODF yn y dyfodol**

| **Angen rhagor o gymorth ar gyfer:** |
|---|
| Golau allanol a drws awtomatig ar gyfer mynediad i'r anabl. |
| Argraffwyr, caeadau ffenestri a drws a theledu cylch cyfyng. |
| Arwyddion a gorchuddion llawr newydd. |
| Ehangu nwyddau manwerthu a pheiriant lluniau. |
| Ehangu nwyddau SP a dim-SP, yn ogystal â chyflogi aelod staff ychwanegol i ganiatáu ar gyfer oriau agor hwy. |
| Hysbysebu. |
| Ailwampio siop, yn cynnwys ffenestri newydd. |
| Ailgynllunio trefn a gwelliannau o ran mynediad i'r anabl. |
| Oergelloedd newydd a systemau awyru. |
| Ail-addurno'n allanol. |

*Ffynhonnell: Dadansoddiad SQW o'r arolwg rhai na wnaeth gais*

## Atodiad C: Astudiaethau Achos

**Astudiaeth Achos 1: Swyddfa Bost Y Glais**

*Rhagarweiniad*




C1. Mae Swyddfa Bost Y Glais wedi ei lleoli ar stryd fawr Y Glais, pentref rhannol wledig tua chwe milltir i'r gogledd ddwyrain o Abertawe. Yn ogystal â'r swyddfa bost, mae'r adeilad yn cynnwys siop bentref sy'n gwerthu bwyd, diodydd, papurau newydd a nwyddau pob dydd eraill. Mae'r swyddfa bost a siop yn gwasanaethu pentref Y Glais, sydd â phoblogaeth o tua 600. Er bod dwy dafarn sy'n gweini bwyd yn y pentref a siop gigydd filltir i ffwrdd, mae'r holl siopau eraill yn Y Glais erbyn hyn wedi cau, llawer ohonynt rhwng pump a deng mlynedd yn ôl. Erbyn hyn y siop yw'r unig un o'i math yn y pentref, gyda'r prif ardaloedd siopa eraill wedi eu lleoli yng Nghlydach neu Dreforys, y ddwy yn golygu taith mewn bws neu gar. Cyn y dyfarnwyd y grant nid oedd y siop wedi cael unrhyw waith ailwampio o bwys yn ystod y cyfnod hwnnw, ac yn wir am nifer o flynyddoedd cyn iddo gyrraedd.

C2. Yn 2009, derbyniodd Swyddfa Bost Y Glais grant cyfalaf llai na £20,000 gan Lywodraeth Cynulliad Cymru (erbyn hyn yn Llywodraeth Cymru) ar gyfer nifer o wahanol welliannau, yn cynnwys gwelliannau cosmetig ac arallgyfeirio i nwyddau wedi eu pobi a bwydydd a diodydd oer.

C3. Yn 2010, cynhaliodd Swyddfa Bost Y Glais, ynghyd â phedair swyddfa bost arall yng Nghymru, grŵp ffocws a chymerodd ran mewn astudiaeth achos fach ar y gwelliannau i'r swyddfa bost. Ymddangosodd hwn mewn canllaw

arfer da ar gyfer Is-bostfeistri a gyhoeddwyd gan Llais Defnyddwyr Cymru, gyda chanlyniadau'r astudiaeth achos wedi eu crynhoi yn Ffigur C-1[29].

**Ffigur C-1: Manylion astudiaeth achos Llais Defnyddwyr Cymru**

**Barn yr Is-bostfeistr:**

- "Roedd y gwahaniaeth yn y siop cyn ac ar ôl gwneud y gwaith yn eithaf trawiadol o ran yr argraff gyntaf wrth gerdded i mewn i'r siop... mae'r siop yn agor allan o'ch amgylch - mae'n edrych yn fwy o faint ac yn fwy deniadol"
- "Mae pethau'n well na'r disgwyl - roedd yr ochr ariannol yn seiliedig ar hyn a hyn o drosiant ac rydym yn cyflawni hynny o leiaf - a 50 y cant yn fwy yn ôl pob tebyg"

**Barn cwsmeriaid:**

- "Rwy'n gweld gweithwyr yn dod i gael pasteiod - faniau'n cyrraedd - felly maent yn cael mwy o fasnach sydd wedi bod o fantais i'r siop"

*Ffynhonnell: Llais Defnyddwyr Cymru (2010)*

*Adborth gan Bostfeistri*

*Sail resymegol ac amcanion*

C4. Gwnaeth Is-bostfeistr Y Glais gais am grant gan Lywodraeth Cynulliad Cymru oherwydd nad oedd y siop wedi cael ei hailwampio'n sylweddol am tua 16 o flynyddoedd. Roedd tu fewn a threfn y siop yn edrych yn flinedig ac roedd y golau stribed anatyniadol a'r llawr treuliedig yn gwneud i'r siop edrych yn hen a digroeso.

C5. Ystyriwyd ariannu allanol yn hanfodol oherwydd nid oedd yr incwm o'r swyddfa bost a siop bentref ar y pryd yn cefnogi maint yr ailwampio oedd ei angen i foderneiddio'r gofod. Pe bai'r perchnogion wedi penderfynu arallgyfeirio heb gymorth, byddai'n rhaid iddynt fod wedi cynilo am nifer o flynyddoedd cyn gallu gwneud y newidiadau.

C6. Dewiswyd arallgyfeirio i ddarparu bara a phasteiod ffres oherwydd byddai'n apelio at nifer o'r cwsmeriaid lleol. Gwelwyd bod y cynnydd mewn dewis yn arbennig o fuddiol



[29] Llais Defnyddwyr Cymru (2010) *Arallgyfeirio Swyddf* *bostfeistri.* Ar gael yn: http://www.consumerfocus.org.u guide-WEB-FILE1.pdf

i’r oedrannus, na fyddai wedi gallu cael gafael ar y nwyddau hyn yn hawdd fel arall. Dewis arall a ystyriwyd fu estyniad i’r siop, ond byddai hyn wedi rhoi siâp od iddi ac felly fe’i gwrthodwyd. Fodd bynnag, byddai mwy na thebyg wedi costio rhagor na’r terfyn uchaf o £20,000 a oedd wedi ei osod ar y grant cyfalaf.

C7. Drwy dderbyn ariannu, y prif amcan oedd creu mwy o ddiddordeb yn y swyddfa bost a gwneud yr amgylchedd yn fwy pleserus i siopwyr. Byddai’n “rhoi rheswm arall i bobl gerdded drwy’r drws”. Hefyd, roedd yr Is-bostfeistr am i’r gymuned elwa, drwy ddarparu hysbysfwrdd cymunedol fel y gallai trigolion roi cyhoeddusrwydd i newyddion a digwyddiadau lleol a thrwy wneud ffyrnt y siop yn daclusach, ac felly gwella’r Glais.

*Proses ariannu grant*

C8. Gwariwyd y grant ar nifer o eitemau gwahanol, yn unol â ffurflen gais y grant:

- popty (cabinet wrth gownter y siop yn cynnwys nwyddau bara a phasteiod).
- cabinet oer ar gyfer nwyddau byrhoedlog a rhewgell.
- gwell goleuo.
- gwelliannau i ffrynt y siop, yn cynnwys adnewyddu’r drws a gosod hysbysfwrdd.

C9. Y prif wariant oedd y rhewgell a’r cabinetau oer, y drws a goleuo newydd. Yn ychwanegol at y swm hwn, cyfrannodd y perchnogion beth o’u harian eu hunain (tua £1,000) fel y gellid gosod llawr newydd ar yr un adeg a’r gwaith arall.

C10. Ar wahân i’r grant PODF, ni wnaeth y perchnogion dderbyn unrhyw gymorth arall. Nid oedd yr Is-bostfeistr yn ymwybodol o gymorth o ffynonellau eraill ar gyfer y math hwn o fuddsoddiad, oni bai am grantiau’r Ymddiriedolaeth

Carbon ar gyfer camau effeithlonrwydd ynni. Mae hwn ar raddfa llawer llai, fodd bynnag, ac ni fyddai wedi talu am arallgyfeirio i gynnyrch newydd.

C11. Roedd yr Is-bostfeistr y gweld y broses o wneud cais am y grant yn hawdd i'w deall. Llenwodd ac anfonodd ffurflen gais ym mis Ebrill 2009, derbyniodd gadarnhad bod Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ei derbyn, ac yna ni chlywodd ddim nes y cafodd y grant ei ddyfarnu iddo rai misoedd yn ddiweddarach ym mis Awst. Dywedodd er y bu'n rhaid iddynt aros am gryn amser i gael gwybod, unwaith y gwnaethant glywed eu bod i dderbyn y grant, dosbarthwyd yr arian yn gyflym a dechreuodd y gwaith ymhen dim ond ychydig wythnosau.

C12. Er nad oedd yr Is-bostfeistr yn teimlo ei fod angen cefnogaeth gan Lywodraeth Cynulliad Cymru gan fod ganddo syniad da iawn o'r newidiadau yr oedd am eu gwneud, teimlodd y gallai fod yn fuddiol i rai swyddfeydd post dderbyn cyngor ar y safle ynglŷn ag opsiynau arallgyfeirio a'r hyn yr oedd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn chwilio amdano yn eu ceisiadau.

*Canlyniadau ac effeithiau*

*Effeithiau ar y busnes*

C13. Yn dilyn y newidiadau mae'r Is-bostfeistr wedi gweld cryn gynnydd mewn nifer cwsmeriaid, nid o reidrwydd i'r adran swyddfa bost, ond i'r siop bentref. Digwyddodd yr effeithiau hyn ar unwaith: cynyddodd nifer y cwsmeriaid yn syth wrth i'r si am welliannau ledaenu. Mae trosiant ac elw'r siop hefyd wedi cynyddu (cynnydd mewn elw net gan tua 50 y cant). Mae'r cynnydd hwn yn well na'r hyn yr oedd y perchnogion wedi ei ddisgwyl pan wnaethant y cais gwreiddiol am y grant.

C14. Unig effaith negyddol arallgyfeirio, yn ôl yr Is-bostfeistr, yw'r ffaith bod y tymheredd yn y siop yn llawer poethach oherwydd y gwres a allyrrir o gefn yr uned oeri. Er mwyn gwrthbwyso hyn bu'n rhaid i'r perchnogion ddiffodd rhai o'r goleuadau yn yr haf, ond wrth edrych yn ôl, maent yn credu y byddai wedi bod yn well gosod system awyru ar yr un pryd â'r newidiadau eraill.

C15. Gellir priodoli'r effeithiau i'r grant gan na fyddent wedi digwydd mewn un cam hebddo, ac felly ni fyddai wedi cael gymaint o effaith uniongyrchol a chryf. Er y byddai'r llawr wedi ei ailosod ar unwaith oherwydd ei gyflwr gwael, mae'n debyg y byddai'r newidiadau eraill wedi digwydd dros gyfnod o dair i bedair blynedd, ac efallai na fyddai rhai ohonynt wedi digwydd o gwbl.

*Effeithiau ar y gymuned leol*

C16. O ran y manteision ar gyfer y gymuned, erbyn hyn mae gan drigolion lleol well amgylchedd siopa ac mae gwell golwg yr adeilad wedi cael effaith gadarnhaol ar brofiad y rheiny sy'n defnyddio gwasanaethau swyddfa'r post yn ogystal. Mae gan y gymuned hefyd well dewis o gynhyrchion i'w prynu sy'n bwysig iawn o gofio nad oes siopau eraill yn Y Glais.

C17. Mae glolwg allanol y siop wedi gwella'r pentref. Mae'r hysbysfwrdd wedi dod yn fan canolog ar gyfer newyddion gan y gall pobl hysbysebu digwyddiadau a chyfarfodydd. Mae hyn yn gymorth i greu gwell teimlad o gymuned yn Y Glais.

## *Effeithiau ar yr economi leol*

C18. Y brif fantais fu cynorthywo i ddiogelu swyddi'r Is-bostfeistr a rheolwr y siop drwy wneud y fenter i gyd yn fwy ariannol atyniadol. Hefyd, crefftwyr lleol fu'n gwneud y gwaith ailwampio. Ni chredir y cafwyd unrhyw ganlyniadau nac effeithiau negyddol, e.e. ar y busnesau yn yr ardal, gan mai hon yw'r unig siop a swyddfa bost yn y gymuned.

*Dyfodol Swyddfa Bost Y Glais ac ariannu*

C19. Wedi naw mlynedd o redeg y swyddfa bost, mae'r perchnogion nawr wedi rhoi'r adeiladau ar werth. Tra nad yw'r penderfyniad hwn yn gysylltiedig â hyfywedd ariannol y swyddfa bost ac yn ymwneud yn fwy â bod y perchnogion eisiau newid, mae'n arwain at rywfaint o ansicrwydd ynglŷn â bodolaeth y swyddfa bost a'r siop yn y dyfodol. Ni ddaethpwyd o hyd i brynwr

ar gyfer y swyddfa bost eto; fodd bynnag, gan fod yr adeilad eisoes wedi ei drefnu i gynnal swyddfa bost a siop, fel canolbwynt y pentref, mae'n debygol y bydd perchnogion y dyfodol yn darparu gwasanaethau tebyg.

C20. Nid yw'r Is-bostfeistr yn rhagweld y bydd angen rhagor o ariannu yn y tymor byr gan fod y gwelliannau sydd wedi eu gwneud yn dal i gael effaith. Pe bai'r PODF yn parhau, roedd y postfeistr o'r farn y gallai cynnydd yn y terfyn uchaf £20,000 ar y grant cyfalaf fod yn fuddiol i'r rheiny sy'n ystyried cynlluniau arallgyfeirio mwy uchelgeisiol. Pe byddent wedi dewis estyniad, er enghraifft, yna byddai hyn wedi costio mwy na'r terfyn uchaf.

*Adborth gan aelodau'r gymuned a chynrychiolwyr y gymuned*

*Manteision i gwsmeriaid, y gymuned ehangach a'r economi leol*

C21. Gwelodd aelodau'r gymuned fod profiad siopa bob dydd wedi gwella o ganlyniad i'r grant, gyda chwsmeriaid yn amlygu'r ffaith ei bod yn ymddangos bod mwy o ofod, gwell trefn a mwy o breifatrwydd pan yn defnyddio gwasanaethau'r swyddfa bost. Cyn y newidiadau, roedd rhai cwsmeriaid yn honni nad oeddent yn defnyddio fawr ar y swyddfa bost a'r siop, gan fod y siop yn edrych fel "lle diflas", ond eu bod nawr yn gwsmeriaid rheolaidd. Roedd cwsmer arall yn meddwl ei bod yn annog pobl i brynu mwy yn lleol, gan dorri ar ôl troed carbon pobl.

C22. Mae'r newidiadau wedi golygu mwy o ddewis i drigolion Y Glais, sydd nawr yn gallu prynu bwyd, megis pasteiod, yn lleol. Mae adran y rhewgell yn boblogaidd iawn gyda phlant lleol ar gyfer hufen iâ. Mae trigolion lleol hefyd wedi sylwi ar fwy o weithwyr yn stopio am fwyd, gan briodoli hyn i'r ystod eangach o stoc. Mae cwsmeriaid yn gwerthfawrogi'n arbennig y gwasanaeth defnyddiol o allu archebu'r hyn maent ei eisiau o gownter y pobydd y diwrnod blaenorol.

C23. Mae llawer o drigolion Y Glais yn oedrannus, nid oes gan rai geir ac maent yn cael anhawster o ran symudedd. Mae'r arallgyfeirio i fara a phasteiod yn fanteisiol iawn i'r cwsmeriaid hyn, a fyddai fel arall yn gorfod defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus neu ddibynnu ar gymdogion i gael cynnyrch tebyg. Mae trigolion oedrannus yn dibynnu'n fawr iawn ar y siop ac yn ei gweld yn gyfleus i gael pasteiod a bara o fewn taith ar droed. Mae'r ffaith bod y bysiau yn cyrraedd a gadael Y Glais bob dwy awr yn unig yn gwneud y newidiadau hyd yn oed yn fwy buddiol.

C24. Roedd llawer yn meddwl bod yr hysbysfwrdd yn rhoi canolbwynt ar gyfer gweithgareddau yn y gymuned, gan ddwyn pobl ynghyd. Nawr mae trigolion yn fwy ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd yn yr ardal.

C25. Er bod rhai o'r newidiadau efallai'n ymddangos yn fach, gan fod hon yn siop y mae pobl yn mynd iddi bob dydd, mae cael y dewis ychwanegol hwnnw a'r pethau bach eraill sy'n cynorthwyo i wneud amgylchedd siopa mwy pleserus yn gwneud gwahaniaeth mawr i fywydau trigolion Y Glais. Dywedodd un o'r trigolion, yn ei holl flynyddoedd o fyw yn yr ardal nid oedd erioed wedi gweld Swyddfa Bost Y Glais yn edrych cystal.

C26. Roedd un cwsmer hefyd yn meddwl bod y gwelliannau wedi cael effeithiau ar fusnesau eraill yn yr ardal, gan y bydd pobl sy'n mynd i'r siop efallai'n fwy tebygol o fynd i fwytai a thafarndai yn yr ardal. Roedd y siop yn cael ei bara o fecws lleol, gan roi budd hefyd i'r economi leol.

*Pwysigrwydd y siop bentref*

C27. Roedd bodolaeth y siop yr un mor bwysig, neu'n bwysicach, i rai aelodau'r gymuned fel mynediad at wasanaethau SP. Y sylw cyson gan nifer o'r cwsmeriaid a fynegodd eu barn oedd "fe fyddem ar goll hebddi". Gan fod y perchnogion mor groesawgar ac yn poeni'n wirioneddol am gwsmeriaid, a hyd yn oed yn ffonio cwsmeriaid os nad oeddent wedi bod i mewn ers sawl diwrnod i weld a oeddent yn iawn, roedd y swyddfa bost a'r siop "nid dim ond

yn fusnes, ond yn galon y gymuned. Roedd yn lle i gwrdd â phobl… rhan hollbwysig o fywyd pentref".

C28. Cyn y newidiadau, roedd llawer o drigolion yn poeni y byddai Swyddfa Bost Y Glais yn cau. Roedd y pentref eisoes wedi gweld nifer o siopau'n cau ac roedd trigolion yn teimlo y gallai'r swyddfa bost fod nesaf. Soniodd un cwsmer am beth fyddai'n digwydd heb siop: "mae cymuned heb siop neu fan canolog mewn perygl o droi'n bentref noswylio".

C29. Wedi dyfarniad y grant roedd cwsmeriaid wedi sylwi bod mwy o bobl yn tueddu i ymweld â'r siop, sydd wedi cynyddu hyder y gymuned y bydd Y Glais yn parhau i gael yr amwynder lleol hwn. Gyda'r gwelliannau hyn mae dyfodol Swyddfa Bost Y Glais yn ymddangos yn fwy sicr i'r gymuned sy'n dibynnu arni.

**Astudiaeth Achos 2: Swyddfa Bost Dyffryn Glyn**

***Rhagymadrodd***




C30. Mae Swyddfa Bost Dyffryn Glyn wedi ei lleoli yng Nglyn Ceiriog ger Y Waun a Llangollen. Yn ogystal â'r swyddfa bost mae yno hefyd siop anrhegion a theganau, caffi, cyfleusterau rhyngrwyd a gwybodaeth i dwristiaid. Sicrhaodd y Swyddfa Bost grant o'r gronfa dan £20,000 (cyfalaf yn bennaf, ond peth ariannu refeniw) yn Rownd 2 y PODF ym mis Rhagfyr 2009. Defnyddiwyd y grant gwreiddiol a dderbyniwyd ar gyfer ail-wneud tu fewn i'r siop, system ddiogelwch, offer TGCh, adlen allanol a gwefan. Gwnaed y gwaith yn ystod mis Chwefror 2010.

C31. Yn ddiweddar maent wedi gwneud cais a llwyddo i gael grant pellach gwerth £1,500 o'r PODF ar gyfer cabinet hufen iâ ac oergell arddangos cacennau.

***Adborth gan Bostfeistri***

*Sail resymegol ac amcanion*

C32. Ysgogodd nifer o faterion yr Is-bostfeistri i wneud cais am y grant PODF. Yn gyntaf roedd yr ardal siop anrhegion yn hen ac nid oedd yn cael ei defnyddio, ac roedd ei chynllun a'i threfn yn anaddas ar gyfer mynediad i'r anabl a phramiau. Yn ogystal, roedd ganddynt bryderon ynglŷn â diogelwch, gyda phobl wedi torri mewn ddwywaith cyn iddynt wneud cais am y grant. Yn fwy cyffredinol, roedd y busnes yn dioddef oherwydd nifer isel o gwsmeriaid a phrinder arian i wneud y gwelliannau oedd eu hangen.

C33. Cyn eu cais am grant cynhaliodd yr Is-bostfeitri arolwg cwsmeriaid i gael syniadau gan y gymnued leol ynglŷn â pha welliannau yr hoffent eu gweld ar gyfer y swyddfa bost - 'gwell' siop ac ystafell TG oedd yr awgrymiadau mwyaf poblogaidd. Ystyriodd yr Is-bostfeistri y posibilrwydd o waith ail-ddodrefnu llai a rhatach gan ddefnyddio elw prin o'r busnes, ond teimlent y byddent wedi gorfod gwario'r ariwn hwn ar ddiogelwch gan fod hwnnw'n fater pwysicach o gofio'r byrgleriaethau diweddar.

C34. Drwy'r buddsoddiad grant roedd yr Is-bostfeistri eisiau cynyddu'r posibilrwydd o werthu'r swyddfa bost fel busnes hyfyw pan fyddant yn ymddeol a chwyddo eu cyflogau yn y tymor byr.

*Proses*

C35. Roedd yr Is-bostfeistri yn fodlon iawn â'r broses gwneud cais. Fe wnaethant dalu £300 (a hawliwyd yn ôl yn ddiweddarach o'r grant) am gyngor busnes gan gynghorydd a argymhellwyd gan Gyngor Wrecsam i'w cynorthwyo i lenwi'r ffurflen gais. Roedd yr ymateb yn araf, gan gymryd pum mis o gyflwyno'r cais ym mis Gorffennaf 2009, ond mae hyd y cyfnod wedi gwella'n sylweddol yn ystod y rownd ariannu ddilynol (lle gwnaethant y cais ym mis Ebrill 2011 a derbyn ymateb dim ond dau fis yn ddiweddarach). Roedd y broses o dderbyn yr arian yn golygu hawlio ar anfonebau, a oedd yn cymryd tua pythefnos, felly roeddent ar y dechrau allan o boced am y gwaith a wnaethpwyd.

C36. Roedd y swyddog yn Llywodraeth Cymru yn gefnogol iawn, ef oedd yr enw cyswllt ar bob dogfen ac roedd hi'n hawdd cysylltu ag ef. Roedd yr Is-bostfeitri'n gwerthfawrogi gallu delio â'r un person dwy gydol y broses, gan ei fod yn gwybod eu hanes. Yn dilyn y cais roedd y gefnogaeth a gawsant o ran y broses hawlio yr un mor dda.

C37. Cyfrannodd yr Is-bostfeistri hefyd tuag at arallgyfeirio gan ddefnyddio'u cronfeydd personol. Maent wedi gwario tua £4,000 ar y caffi, hanner y cyfrifiaduron, peiriant ffacs a llungopïwr, arwydd newydd i'r swyddfa bost, drws diogelwch, drws ffrynt, mynedfa a bwrdd a chadeiriau.

C38. Nid yw'r Is-bostfeistri yn credu y byddent wedi dod o hyd i gymorth tebyg i'r PODF yn unman arall, o naill ai'r sector cyhoeddus neu preifat. Fodd bynnag, yn dilyn y grant PODF derbyniasant Grant Busnes Rhaglen Datblygu Gwledig gan Gyngor Bwrdeistref Wrecsam am ychydig dan £2,000 a'i ddefnyddio i newid y til, ychwanegu silffoedd, hysbysfwrdd a chyfrifiadur arall.

C39. Deuchreuodd y gwaith cyn gynted ag y cafwyd cadarnhad ysgrifenedig y byddent yn derbyn y grant. Ni chafwyd rhwystrau sylweddol ac eithrio materion yn ymwneud ag ail-osod llawr y siop. Cymerodd y prosiect tua mis i'w gwblhau. Gwariwyd y rhan fwaf o'r arian ar ar ail-ddodrefnu'r tu fewn a gwariwyd gweddill y grant ar osod teledu cylch cyfyng, adlen allanol, cyfrifiaduron, llungopiwr a gwefan.

*Canlyniadau ac effeithiau*

C40. Diolch i'r grant arhosodd y busnes yn sefydlog yn ystod 2010 a llwyddodd i gynyddu 5% (yn rhannol oherwydd y caffi newydd - dim wedi ei ariannu gan y grant) mewn trosiant y flwyddyn ddilynol (yn erbyn dirywiad gan 10% yn y diwydiant oherwydd bod gwasanaethau'n cael eu colli oherwydd Pay Point[30]). Mae ffactorau eraill, fodd bynnag, wedi chwarae rôl negyddol ar y graddau y mae'r busnes wedi tyfu ers derbyn y grant, yn cynnwys cangen HSBC yn cau yn y pentref, gan olygu bod pobl yn mynd i'r dref i godi arian – y maent wedyn

[30] Rhywdwaith manwerthu ar gyfer talu biliau cartref ac adlenwi ffonau symudol yn gyfleus

yn ei wario yno - oherwydd nid yw eu cardiau'n cydweddu i system y swyddfa bost. Hefyd, mae dwy siop gadwyn newydd wedi agor yng Nghroesoswallt yn gwerthu teganau plant, gan achosi lleihad yn y gweithgaredd di-swyddfa. Cyn hynny nid oedd unman arall yn lleol lle gellid prynu teganau ac eithrio'r swyddfa bost, yn dilyn cau Woolworths a allai fod wedi chwyddo gwerthiant yn y tymor byr. Bu hefyd ansicrwydd ynglŷn â'r gwasanaethau swyddfa bost, yn arbennig a oedd llyfrau budd-daliadau i gael eu cyfnewid am gyfrifon cardiau swyddfa bost, ac felly ni allant ddenu busnes newydd. Nid yw'r cyfrifiaduron, peiriant ffacs a llungopiwr yn gwneud arian ynddynt eu hunain ond maent wedi cynyddu nifer y cwsmeriaid a'r gwario mewn ardaloedd eraill o'r busnes, megis y caffi.

C41. Mae'r buddsoddiad wedi cyflawni yn erbyn amcanion y PODF o ran gwella hyfywedd gwasanaethau SP drwy wella perfformiad, ac arallgyfeirio i, weithgareddau dim-SP. Disgwylir i'r manteision barhau am o leiaf ddeng mlynedd.

C42. Mae'r prosiect wedi bod o fudd i'r economi leol drwy ddod yn ased twristiaeth arall yn y Dyffryn. Maent hefyd yn cefnogi busnesau lleol drwy werthu wyau, mêl, cardiau, lluniau a brodwaith lleol. Mae llawer o fusnesau lleol hefyd yn defnyddio'r swyddfa bost ar gyfer talu eu henillion e.e. y felin goed leol, Spar, tafarn a siopau lleol.

C43. Mae'r gymuned wedi elwa o'r mynediad sydd wedi ei gynnal i'w gwasanaethau SP, sydd yn ei dro wedi lleihau allgau ariannol yn y pentref, gan ddarparu mynediad at arian parod ar gyfer y rheiny sy'n bancio gyda banciau cysylltiedig â SP. Maent hefyd wedi cynorthwyo i ddatrys allgau digidol drwy ddarparu mynediad at gyfrifiaduron a mynediad i'r rhyngrwyd, gan mai cyfyngedig yw mynediad i'r rhyngrwyd ar gyfer llawer o bobl sy'n uwch i fyny'r dyffryn. Mae'r swyddfa bost hefyd yn darparu canolfan gymdeithasol ar gyfer yr oedrannus a mamau a'u plant. Gellir priodoli'r manteision hyn yn fawr i'r grant PODF. Ni chafodd y grant unrhyw effeithiau negyddol ar y busnes.

C44. Bwriedir gwneud rhagor o newidiadau i'r busnes. Mae'r Is-bostfeistri eisiau ymestyn y caffi a chynnig gwahanol fathau o fwyd, ac mae yna eisoes alw o du adeiladwyr lleol (sy'n aml yn defnyddio'r swyddfa bost ar gyfer trethu eu cerbydau) am wasanaeth brecwast! Maent hefyd eisiau cynnwys oergell hufen iâ a stondin arddangos cacennau, y maent eisoes wedi cael ariannu ar eu cyfer drwy rownd ddiweddaraf y PODF. Yn yr hir dymor mae'r Is-bostfeistri eisiau diweddaru'r ystafelloedd TG a gwybodaeth twristiaeth, ac o bosibl rhentu gofod i fusnesau lleol.

C45. Heb yr ariannu fe fyddai'r Is-bostfeistri wedi gwneud y newidiadau ond ar raddfa lai (75% yn llai), gyda manyleb is ac mae'n debygol y byddai wedi cymryd deng mlynedd i'w cwblhau. Mwy na thebyg y byddent wedi ariannu hyn drwy fenthyciadau busnes os yn bosibl.

*Y dyfodol*

C46. Os caiff y Rhaglen ei hail-lansio yn y dyfodol byddai'n ddefnyddiol petai'r grantiau yn fwy. Fodd bynnag, mae'n bwysig bod y Gronfa dim ond yn cael ei rhoi i'r rheiny sydd â chynllun busnes cryf sy'n seiliedig ar dystiolaeth, gyda meini prawf monitro ynghlwm er mwyn cyfiawnhau'r grant y maent wedi ei dderbyn.

C47. Cred yr Is-bostfeistri y byddant angen y math hwn o gymorth yn y dyfodol er mwyn cyflawni gweddill eu cynllun tymor hir ar gyfer y busnes, nawr bod yr adeilad cyfan wedi ei neilltuo i'r busnes.

***Adborth gan aelodau'r gymuned a chynrychiolwyr y gymuned***

*Ymwybyddiaeth a datblygiad proseict*

C48. Y tro cyntaf yr oedd y gymuned yn ymwybodol o'r bwriad i wneud newidiadau i'r swyddfa bost oedd trwy'r holiadur a ddarparwyd yn y siop; fodd bynnag, nid oeddent yn gwybod ei fod yn gysylltiedig ag unrhyw gais am ariannu grant.

*Manteision i gwsmeriaid, y gymuned ehangach a'r economi*

C49. Mae'r prosiect wedi bod o fudd i unigolion yn bersonol drwy gynnal eu mynediad at wasanaethau SP, gan ganiatau iddynt dalu i mewn a chodi arian fel y gallant barhau i ddefnyddio arian parod, os dymunant wneud hynny, gan nad oes peiriant arian gerllaw. Bydd hyn yn arbed iddynt orfod teithio a lleihau'r tebygolrwydd o fynd i ddyled. Honodd unigolion eu bod yn teimlo'n fwy diogel ers cyflwyno'r teledu cylch cyfyng ac maent yn hapus bod mwy o gynhyrchion yn cael eu cynnig. Mae'r siop anrhegion yn llenwi blwch gwirioneddol ac yn cynnig dewis da o anrhegion a chardiau rhesymol eu pris (llawer ohonynt wedi eu cynhyrchu'n lleol). Mae'r wybodaeth twristiaeth, pamffledi a mapiau hefyd wedi bod yn ddefnyddiol ar gyfer aelodau mwy egniol y gymuned, ynghyd â chyngor go iawn oherwydd profiad yr Is-bostfeistri eu hunain o gerdded yn yr ardal leol.

C50. Mae'r prosiect wedi gwella golwg yr ardal gan fod y siop nawr yn llachar a glân. 'Mae wedi cadw'r pentref yn fyw' ac wedi cynyddu 'cwmnigarwch' wrth i fusnesau lleol weld y pentref yn gwella o hyd. Gallai hyn annog busnesau lleol eraill i fuddsoddi yn yr ardal e.e. cyfrwywr lleol newydd.

C51. O ran yr economi leol, mae'r prosiect wedi cynorthwyo i gynyddu'r fasnach dwristiaeth, a allai yn ei thro fod wedi hybu cyflogaeth leol.

C52. Ni chafodd y grant unrhyw effeithiau negyddol ar y busnes. Heb y grant mae'n debygol y byddai'r swyddfa bost wedi cau gan ei bod mor dawel. Byddai wedi bod yn golled fawr i'r gymuned leol, yn arbennig yn y gaeaf ac mae mynediad i drefi lleol yn anfynych, yn cymryd amser ac yn ddrud i yrru yno. Mae busnesau lleol i gyd yn dibynnu'n drwm ar y swyddfa bost a byddai ei chau wedi golygu newid mawr yn eu harferion gweithio ac anghyfleustra sylweddol i'r rheiny sy'n gweithio o adref neu'n rhedeg busnesau eBay.

C53. Ar y cyfan mae'r grant wedi gwneud i'r gymuned fod yn lle y mae pobl eisiau byw, yn arbennig pensiynwyr, mamau ifanc a'r rheiny o oed gweithio sy'n defnyddio ac sydd angen y gwasanaethau y mae'r swyddfa bost yn eu

darparu. Mae pobl yn hoffi delio â phobl y maent yn eu hadnabod a all eu sicrhau a'u cynorthwyo i wneud pethau.

*Y dyfodol*

C54. Cred cymuned Dyffryn Glyn bod angen darparu cymorth tebyg ar gyfer sywddfeydd post yn y dyfodol, i weithredu fel catalydd ar gyfer gwella gwasanaeth sydd yno'n barod. Mae'r mathau o ardaloedd sydd angen cefnogaeth yn dibynnu ar pa wasanaethau ac amwynderau eraill sydd ar gael yn lleol. Y math o gefnogaeth sydd ei hangen yw hyfforddiant a datblygu cynllun busnes yn ogystal â chymorth ariannol ar gyfer gwelliannau cyfalaf. Mae angen rhyw fath o rywdwaith ar gyfer Is-bostfeitstri llwyddianus ac aflwyddiannus sydd wedi arallgyfeirio, er mwyn mentora derbynwyr eraill grant. Gallai banciau sy'n gadael ardal leol heb fynediad at wasanaethau ariannol gyfrannu at ddarpariaeth cymorth fel rhan o'u cyfrifoldeb corfforaethol ac i gadw eu cwsmeriaid.

**Astudiaeth Achos 3: Swyddfa Bost Caerwys**



***Rhagymadrodd***

C55. Mae Swyddfa Bost Caerwys wedi ei lleoli yn nhref Caerwys yn Sir y Fflint, Gogledd Cymru. Saif y Swyddfa Bost yng nghanol y dref gyda chigydd a delicatessen gwobrwyedig Morgan's Pori Gwych. Arferai'r ddau fusnes fod wedi eu lleoli yn rhywle arall yn y dref. Derbyniodd y Swyddfa Bost grant o'r gronfa dan £20,000 yn Rownd 1 Cronfa Arallgyfeirio Swyddfeydd Post (PODF) ym mis Ebrill 2009, gyda thua dwy ran o dair ohono yn ariannu cyfalaf a thraean yn refeniw. Defnyddiwyd y gronfa i ail-drefnu tu mewn i'r adeilad, gan symud yr adran swyddfa bost i'r canol a lleihau ei maint yn sylweddol fel bod gan y cigydd ddigon o le i baratoi a gofod storio oer, a bod y tri busnes yn gallu gweithio mor ergonomaidd â phosibl.

***Adborth gan Bostfeistri***

*Sail resymegol ac amcanion*

C56. Cyn derbyn y grant PODF roedd y swyddfa bost yn agos i gau. Roedd ynddi eisoes gaffi bychan, ond oherwydd y galw a'r nifer cwsmeriaid isel nid oedd hwn yn broffidiol. Ar yr un pryd roedd Swyddfa'r Post Cyfyngedig (POL) yn cael anhawster i gyflogi Is-bostfeistr arall wedi i'r un blaenorol adael. Cymerodd un aelod o'r staff cyfredol y rôl dros dro a chynhaliwyd cyfarfod yn neuadd y dref i gasglu syniadau gan y gymuned ynglŷn â sut i gadw'r swyddfa bost ar agor, ac i weld a oedd unrhyw ddiddordeb gan aelodau'r cyhoedd i gymryd y cyfrifoldeb. Penderfynodd yr Is-bostfeistr presennol gymryd y sywddfa bost, gan fod rhan o'r adeilad eisoes yn delicatessen a oedd yn perthyn i'w frawd. Rheolwr Busnes Cymru Swyddfa'r Post Cyfyngedig a gyfeiriodd yr Is-bostfeistr i'r PODF fel ffordd o wneud yr addasiadau oedd eu hangen i gadw'r swyddfa bost ar agor ac itegreiddio busnes arall yn llwyddiannus i'r adeilad. Cyn gwneud cais am y grant cyhoeddodd y cigydd lleol ei fod am ymddeol yn rhannol a phenderfynodd Mr. Davis, sy'n berchen ar y delicatessen, brynu busnes y cigydd ac integreiddio'r siop cigydd i'r adeilad hefyd, er mwyn manteisio ar y cyfleoedd cyflenwi rhwng y cigydd a'r delicatessen.

C57. Wedi penderfynu uno'r cigydd a'r delicatessen yn adeilad y swyddfa bost ni ystyriwyd unrhyw ddewisiadau eraill. Mae arallgyfeirio pellach wedi ei gynllunio ar gyfer y dyfodol, megis cynnwys rhosty cyw iâr a rhagor o ofod ar gyfer ystafell oer i grogi cig; mae hyn yn debygol o fod ar ffurf oerwr allanol yng nghefn yr adeilad.

C58. O'r dechrau gobeithiwyd y byddai'r buddsoddiad grant yn cynyddu nifer cwsmeriaid, ac yn creu canolfan i'r gymuned a 'siop un stop' gyda'r potensial o gynyddu hyfywedd y swyddfa bost drwy gynnig mwy o gynnyrch a mwy o reswm dros ymweld.

*Proses*

C59. Teimlai'r Is-bostfeistr fod y broses gais yn un syml. Derbyniodd ymateb ysgrifenedeig dair wythnos ar ôl cyflwyno'r cais. Gwnaed gwaith yn gyntaf ac yna anfonebau'n cael eu hanfon i'w had-dalu - a fyddai'n digwydd ar gyfartaledd tua wythnos wedi derbyn yr anfoneb. Roedd y cynyrchiolydd o Lywodraeth Cymru 'yn barod iawn ei gymorth' drwy gydol y broses gais, a gellid cysylltu ag ef bob amser a byddai'n fodlon ateb unrhyw gwestiynau. Yn dilyn y broses gais clustnodwyd Swyddog Hawliadau penodol ar eu cyfer, felly roeddent bob amser yn siarad â'r un person. Roeddent yn fodlon iawn â'r gefnogaeth a dderbyniwyd ar bob cam o'r broses.

C60. Talodd y grant a dderbyniwyd am 95% o'r newidiadau, gyda tua 5% o gost yr arallgyfeirio yn cael ei dalu ag arian personol, ar gyfer cownter pen y cigydd, gan fod angen hwn cyn y gellid sicrhau'r grant.

C61. Dechreuodd y gwaith ar y swyddfa bost cyn gynted ag y derbyniwyd y grant. Defnyddiwyd tua 40% o'r grant i ail-leoli'r swyddfa bost o'r cefn i ganol yr adeilad. Y rhan hon o'r broses oedd yr unig her y daethpwyd ar ei thraws gan fod gan fod gan POL broblem gyda maint arfaethedig cownter y swyddfa bost a oedd am iddi gynnwys cownter pen agored gyda sêff wedi ei hinegreiddio oddi tani, ond ni fyddai wedi ffitio yn y gofod oedd ar gael. Cafodd y prosiect ei oedi gan ychydig fisoedd oherwydd y broblem a bu bron yn ddigon i roi diwedd arno. Fodd bynnag, yn y diwedd cafodd y mater ei basio gan Brif Swyddfa'r POL a roddodd ganiatad i'r cownter gael ei adeiladu yn ôl y fanyleb wreiddiol.

C62. Gwariwyd y 60% a oedd yn weddill o'r grant ar: arwyddion tu allan; bloc briwellwr a chymysgwr ar gyfer y cigydd; sinc newydd, pantri ac oergell ar gyfer y delicatessen, yn unol â'r gwelliannau oedd yn rhaid eu cael er mwyn cydymffurfio â rheoliadau iechyd yr amgylchedd. Hefyd dyluniwyd a lansiwyd gwefan gyda rhan o'r arian grant; mae'r rhan fwyaf o'r busnesau lleol wedi dangos eu cefnogaeth i'r wefan.

C63. O ran argaeledd cymorth amgen, ni fyddai ariannu gan awdurdod lleol a/neu Lywodraeth Cymru ar gyfer busnesau gwledig wedi bod ar yr un raddfa nac wedi ei gael mor gyflym, a dyna'r rheswm pam eu bod wedi dewis gwneud cais am y PODF gan mai cyfnod byr o amser oedd ganddynt i brynu siop y cigydd.

*Canlyniadau ac effeithiau*

C64. Mae manteision y prosiect wedi bod yn sylweddol ac fe'u gwelwyd ar unwaith; bu cynnydd gan 20% yn nhrosiant y swyddfa bost ers cwblhau'r prosiect yn nhymor y gwanwyn 2009. Mae'r swyddfa bost hefyd wedi tufu o ran maint ac fe'i ystyrir yn unigryw yn yr ardal gan ei bod yn cynnig gwasanaeth treth car ac arian cyfred. Mae trosiant adran dim-SP y busnes wedi tyfu gan 40% ers canol 2009. Mae prynu offer ychwanegol gan ddefnyddio'r grant wedi eu galluogi i gynnig dewis ehangach o gynnyrch, cynyddu ystod eu cynhyrchion a dewis i gwsmeriaid.

C65. Mae'r Is-bostfeistr yn credu y gellir priodoli mwyafrif y manteision i'r grant. Cred efallai y byddai'r cigydd wedi gwneud yn iawn, ond byddai wedi cymryd yn llawer hwy i gyrraedd ei faint gweithredu presennol, a byddai'r swyddfa bost mwy na thebyg wedi cau. Mae ffactorau eraill sydd wedi chwarae rôl yn llwyddiant y busnes yn cynnwys yr agoriad swyddogol a'r sylw yn y wasg a'r gwobrau y mae'r cigydd wedi eu hennill am ei gynhyrchion. Yn ogystal, mae pedair o swyddfeydd post yn y pentrefi cyfagos wedi cau dros y cyfnod hwn, sydd wedi cynyddu nifer cwsmeriaid. Mae'r Is-bostfeistr yn bwriadu dosbarthu taflenni i ddenu'r busnes ychwanegol o'r ardal gyfagos.

C66. Ar y cyfan, cred yr Is-bostfeistr bod y canlyniadau y maent wedi gallu eu cyflawni yn cyd-fynd yn dda ag amcanion y PODF, a chyflawni yn eu herbyn, i wella hyfywedd gwasanaethau SP drwy arallgyfeirio i fusnesau dim-SP sydd ynghlwm wrthynt.

C67. Mae manteision y prosiect i'r economi leol yn cynnwys pedair swydd yn uniongyrchol ar gyfer trigolion lleol, hyfforddiant prentis cigydd, busnes ychwanegol ar gyfer cwmniau lleol, creu/diogelu swyddi lleol drwy gael

cynhyrchion a chyflenwadau lleol, a chefnogi busnesau eBay lleol drwy ddarparu gwasanaeth busnes hanfodol iddynt. Mae'r wefan wedi rhoi cyfleoedd marchnata a rhwydweithio ar gyfer tua 90% o fusnesau lleol yn yr ardal. Gellir priodoli mwyafrif y manteision hyn i'r grant er nad yw'n glir i ba raddau yr oedd y cigydd yn defnyddio cynnyrch lleol eisoes. Mae ffactorau eraill a allai fod wedi dylanwadu ar faint y manteision hyn yn cynnwys sylw yn y wasg leol a chau swyddfeydd post lleol yn yr ardal yn cynyddu nifer cwsmeriaid.

C68. Mae'r prosiect wedi bod o fudd i'r gymuned leol drwy gynnal mynediad at wasanaethau SP ar gyfer y gymuned leol a'r tu hwnt, yn arbennig ar gyfer yr oedrannus, busnesau lleol a'r rheiny sydd â phlant ifanc, gan ei bod yn gostus ac anghyfleus (oherwydd trafnidiaeth gyhoeddus cyfyngedig) i fynd yr holl ffordd i Dreffynnon. Mae'r prosiect hefyd wedi darparu canolfan gymdeithasol ac wedi caniatáu parhad yn narpariaeth gwasanaethau ariannol, yn arbennig fel modd o dalu am gyfleustodau gan nad yw llawer o gwmnïau yn derbyn sieciau mwyach. Mae'r prosiect hefyd wedi caniatau i ysgolion lleol ddod ar ymweliadau a dysgu o lle y daw cig a sut y caiff gwahanol gynhyrchion bwyd eu gwneud. Mae'r Is-bostfeistr yn meddwl bod yr holl fanteision hyn i'w priodoli i'r grant gyda dim dylanwadau eraill yn cyfrannu.

C69. Mae manteision nas bwriadwyd y prosiect yn cynnwys mwy o ddiogelwch oherwydd ail-drefnu'r adeilad, gan nad yw'r swyddfa bost wedi ei lleoli yng nghefn y siop mwyach gyda mynedfa wedi ei chuddio. Hefyd mae'r siop cigydd a delicatessen yn elwa o Rhyddhad Ardrethi Busnes oherwydd eu bod wedi eu cyd-leoli gyda'r swyddfa bost. Gan fod y cigydd ar agor chwe diwrnod yr wythnos, mae'r swyddfa bost hefyd erbyn hyn ar agor am ddiwrnod ychwanegol bob wythnos (na chaiff yr Is-bostfeistr ei dalu amdano) gan ei fod o'r farn y dylai fod ar agor pan fydd y cigydd ar agor, gan ddarparu gwasanaeth estynedig i'r gymuned leol.

C70. Nid oes rhagor o newidiadau wedi eu cynllunio gan ddefnyddio'r grant oherwydd ei fod wedi cael ei ddisbyddu'n llwyr â'r gweithgarwch a wnaed hyd

yma. Fodd bynnag, mae rhagor o arallgyfeirio wedi ei gynllunio, fel y sonnir uchod. Ni fu unrhyw anfanteision i'r busnes o ganlyniad i'r grant.

C71. Heb y PODF, cred yr Is-bostfeistr y byddai'r gweithgareddau dim-SP wedi bod 10% yn llai ac y byddai wedi cymryd hyd at dair blynedd yn hwy i gyflawni'r newidiadau hyn.

*Y dyfodol*

C72. Nid yw Swyddfa Bost Caerwys yn meddwl y bydd angen y math hwn o gymorth yn y dyfodol gan fod unrhyw gynlluniau ychwanegol yn fach iawn a thelir amdanynt gydag elw mewnol y cwmni wrth symud ymlaen. Nid yw'r Is-bostfeistr yn teimlo y gallai'r rhaglen gael ei gwella mewn unrhyw ffordd, fodd bynnag cred ei bod yn bwysig y dylai darpariaeth swyddog achos penodedig barhau.

***Adborth gan aelodau'r gymuned a chynrychiolwyr y gymuned***

*Ymwybyddiaeth a datblygu posiect*

C73. Roedd y gymuned leol yn ymwybodol o'r cynlluniau o'r cychwyn cyntaf, ac fe'i diweddarwyd am gynnydd drwy gylchlythyr y Caerwys Chronicle sydd ar gael o'r Swyddfa Bost. Er na ymgynghorwyd â'r gymuned leol ynglŷn â'r cynlluniau arfaethedig ar gyfer y swyddfa bost, maent yn hapus ac yn meddwl bod y newidiadau cywir a phriodol wedi eu gwneud er mwyn galluogi iddynt gadw'r swyddfa bost a'r siop cigydd yn y pentref.

*Manteision i gwsmeriaid, y gymuned ehangach a'r economi*

C74. Mae'r prosiect wedi bod o fudd personol i unigolion yn y gymuned leol drwy: gynnal mynediad at wasanaethau SP; caniatáu iddynt barhau i ddelio mewn arian parod; mynd allan a chwrdd â phobl; mae wedi darparu 'siop un stop' ar gyfer nifer o nwyddau groser (wedi darparu cymorth personol gyda gofynion dietegol arbennig); lleihau anghyfleustra a chost teithio i Dreffynnon.

C75. Yn fwy eang, mae wedi gwella golwg yr ardal gan fod yr adeilad nawr yn fwy atyniadol, glanach, taclusach ac wedi ei gynnal a'i gadw'n dda. Yn bwysig,

mae wedi cadw dau wasanaeth hanfodol yn yr ardal a fyddai, heb gymorth y grant, mwy na thebyg wedi symud o'r dref a gadael yr adeilad yn wag.

C76. O ran manteision i'r economi leol mae'n cadw mwy o arian yn yr economi leol gan fod pobl yn prynu llai o'r archfarchnad a mwy yn lleol. Hefyd, bydd gyrwyr lori yn aros ac yn prynu cinio a gallant ymweld ag amwynderau eraill yn y dref ar yr un pryd. Dros amser credir y bydd hefyd yn denu busnesau lleol eraill i'r dref a llenwi'r adeiladau gwag eraill sydd yno.

C77. Heb y grant ni fyddai'r swyddfa bost yn bodoli ac ni fyddai mynediad at wasanaethau ariannol yn y dref. Ar gyfer y gymuned leol byddai'n anghyfleus a chostus i fynd i drefi eraill, yn arbennig i'r rheiny sydd ddim yn rhaid iddynt fynd i unlle arall ar gyfer gwaith neu sydd heb eu trafnidiaeth eu hunain.

C78. Ar y cyfan mae'r grant wedi cyfrannu'n sylweddol at wneud y gymuned yn lle y mae pobl eisiau byw; tystiolaeth o hyn yw ei bod wedi dod yn fwyfwy anodd i brynu eiddo yn yr ardal leol. Dywedodd un aelod o'r gymuned bod y swyddfa bost yn rhan o'r meini prawf iddynt symud i'r dref. Mae'r swyddfa bost yn darparu swyddogaeth gymdeithasol bwysig gan ei bod yn cadw llygad i weld a yw pobl yn iawn.

*Y dyfodol*

C79. Cred y gymuned leol bod angen darparu cymorth tebyg ar gyfer swyddfeydd post yn y dyfodol er mwyn rhoi hwb iddynt i ddod yn gynaliadwy a hyfyw yn ôl eu teilyngdod hwy eu hunain. Mae'n fwy buddiol i ardaloedd llai lle nad oes cymaint o wasanaethau amgen. Y math o gefnogaeth sydd ei hangen yw canllaw canolog i sbarduno syniadau, enghreifftiau o arallgyfeirio llwyddiannus fel ysgogiad, a chymorth gyda chysylltiadau â busnesau presennol a fyddai'n addas i'w cyfuno â swyddfeydd post. Mae'n bwysig bod gan y gweithgareddau dim-SP a gynhelir bobl â digon o brofiad o'r diwydiant ac o reoli er mwyn i'r arallgyfeirio fod yn llwyddiannus; efallai bod angen darparu hyfforddiant ar gyfer hyn. Byddai hysbysebu canolog gan Swyddfa'r Post Cyfyngedig ar gyfer swyddfeydd post lleol hefyd yn gymorth i annog mwy o bobl i'w defnyddio.

**Astudiaeth Achos 4: Swyddfa Bost Aberporth**

*Rhagymadrodd*



C80. Mae Swyddfa Bost Aberporth wedi ei lleoli mewn pentref arfordirol yng Ngheredigion ac mae ganddi amrywiaeth o gwsmeriaid, yn cynnwys poblogaeth fawr o bobl oedrannus a nifer uchel o dwristiaid lleol. Yn flaenorol roedd yr adeilad yn fferyllfa, a chyflwynwyd y Swyddfa Bost fel rhan o gynllun peilot SP Lleol (un o ddwy yng Nghymru).

C81. Derbyniodd yr Is-bostfeistr grant bychan o lai na £5,000 ym mis Hydref 2010 (Rownd 4) i adeiladu toiled staff, ac adnewyddu ac ail-drefnu ardal fferyllfa y busnes. Ar adeg yr ymweliad astudiaeth roedd y busnes newydd dderbyn dyfarniad grant PODF arall i adnewyddu ffrynt adeilad y swyddfa bost (i ddarparu cyntedd a drws newydd, a fydd yn ei gwneud yn fwy diogel, arwydd newydd ac adnewyddu'r ffenestri ffrynt) ond nid yw'r gwaith hwn wedi ei wneud hyd yma.

*Adborth gan Bostfeistri*

*Sail resymegol ac amcanion*

C82. Cytunodd y fferyllfa i ddod yn SP Lleol ar gynllun peilot tua blwyddyn yn ôl, ond roedd yn cael anhawster i gynyddu incwm SP i lefel hyfyw. Daeth yr Is-bostfeistr yn ymwybodol o grant y PODF drwy Swyddfa'r Post Cyfyngedig, a awgrymodd y dylent wneud cais (fel ysgogiad i barhau i gynnal y cynllun peilot SP Lleol). Ar y pryd nid oedd gan y busnes gyfleuster toiled, ac roedd y staff yn defnyddio cyfleusterau yn y fflat uwchben y busnes neu doiledau cyhoeddus oddi ar y safle. Roedd angen toiled ar y safle i fodloni gofynion iechyd a diogelwch, ond nid oedd gan yr Is-bostfeistr yr arian i wneud y gwaith adeiladu ar y pryd.

C83. Nodau'r grant yn bennaf oedd darparu cyfleusterau gweddus ar gyfer staff a, thrwy newid trefn yr ardal fferyllfa (a oedd yn angenrheidiol i adeiladu'r toiled), byddai'r gallu i ymgysylltu â chwsmeriaid yn cynyddu. Yn anuniongyrchol, byddai'r grant hefyd yn sicrhau bod yr Is-bostfeistr yn parhau i ddarparu gwasanaethau SP, gan ei fod yn rhoi ffrwd incwm ychwanegol.

*Proses*

C84. Teimlai'r Is-bostfeistr fod y broses gais yn weddol syml. Roedd yn gofyn am lawer o wybodaeth, ond roedd yn derbyn bod hyn yn angenrheidiol er mwyn gwneud y defnydd gorau o'r gronfa. Fodd bynnag roedd rhai o'r cwestiynau yn ailadroddus, ac ar y cyfan gallai'r holiadur wedi bod yn fwy cryno. Hefyd fe gymerodd bedwar mis rhwng y cais a gwneud y penderfyniad, cyfnod amser a deimlai ef oedd yn rhy hir. Gwnaeth yr Is-bostfeistr gyfraniad sylweddol - tua 50% - tuag at gost yr adnewyddu.

C85. Teimlai'r Is-bostfeistr fod y broses ddilysu yn drwyadl, ac roedd gofyn iddo anfon diweddariadau rheolaidd i Lywodraeth Cymru tra bod y gwaith yn digwydd. Nid oedd angen unrhyw gefnogaeth gan Lywodraeth Cymru gan ei fod eisoes yn ymwybodol o'r hyn oedd ei angen i gyrchu a chyflenwi'r grant. Ni dderbyniodd unrhyw gefnogaeth o rywle arall yn ystod y broses grant, ac nid oedd yn ymwybodol o unrhyw grantiau tebyg oedd ar gael ar y pryd.

C86. Unwaith y derbyniodd y grant cwblhawyd y gwaith cyfalaf yn gyflym (o fewn ychydig wythnosau). Ni wnaethpwyd newidiadau i'r cynnig gwreiddiol, ac ni ddaeth yr Is-bostfeistr ar draws unrhyw rwystrau i gyflawni'r prosiect.

C87. Teimlai'r Is-bostfeistr fod y PODF yn ategu'r cynllun peilot SP Lleol. Darparodd Swyddfa'r Post Cyfyngedig hyfforddiant, ond nid ariannu, ar gyfer gwaith cyfalaf oedd ei angen i addasu'r adeilad er mwyn ymgorffori'r swyddfa bost. Fodd bynnag, byddai wedi bod yn ddefnyddiol pe bai wedi derbyn y grant PODF pan ddechreuodd ar y cynllun peilot SP Lleol (yn hytrach na blwyddyn yn ddiweddarach). Yn y dyfodol gellid cyd-redeg y ddwy raglen yn

well, gan y byddai'r PODF yn cynorthwyo busnesau i fforddio gwneud y gwaith cyfalaf sydd ar gael i ymgymryd â'r cynllun peilot SP Lleol.

*Canlyniadau ac effeithiau*

C88. Mae'r tolied newydd wedi bod o fudd i ochr dim-SP y busnes (y fferyllfa) gan na allai'r busnes barhau heb fodloni rheoliadau iechyd a diogelwch. Cred yr Is-bostfeistr bod trosiant y busnes fferyllfa, ers cwblhau'r gwaith, wedi cynyddu gan 20% - a bod tua chwarter y cynnydd hwn wedi ei briodoli i'r PODF (gyda rhan o'r cynnydd sy'n weddill o ganlyniad i ragor o gwsmeriaid sy'n gysylltiedig â chael SP fel rhan o'r busnes). Mae wedi cymryd tua blwyddyn i wireddu'r manteision hyn, ond caiff yr effeithiau eu cynnal dros y tymor hwy (hyd at 20 mlynedd). Ni chafodd y PODF unrhyw effeithiau negyddol ar y busnes.

C89. Roedd yr Is-bostfeistr yn gyndyn i barhau â'r cynllun peilot SP Lleol (ac felly'r swyddfa bost ei hun) heb gael y grant PODF. Felly mae'r grant wedi golygu bod gwasanaethau'r SP wedi dychwelyd i'r pentref (roedd y swyddfa bost flaenorol wedi cau tua 15 mis cyn hyn). Byddai'r Is-bostfeistr wedi gallu cynilo arian i wneud y gwaith cyfalaf yn y pen draw, ond byddai hyn wedi cymryd tua thair blynedd, ond byddai cynilo'r arian hwn wedi bod yn anodd oherwydd yr incwm isel a ddeuai o'r busnes SP. Dywedodd yr Is-bostfeistr na fyddai wedi parhau i gynnal y swyddfa bost heb y grant.

C90. Mae wedi bod yn anodd gweld manteision uniongyrchol y prosiect ei hun i'r gymuned: mae'r ardal fferyllfa sydd wedi ei hadnewyddu nawr yn cynnig profiad siopa o safon well i gwsmeriaid, ond nid yw'r toiled ar gyfer defnydd y cyhoedd. Fodd bynnag, mae'r grant wedi sicrhau hyfywedd y busnes SP sydd ynghlwm wrth fferyllfa yn y dyfodol, ac felly'n darparu gwasanaethau SP ac ariannol gwerthfawr, yn arbennig i'r nifer fawr o bobl oedrannus yn yr ardal a oedd cyn hyn yn teithio saith milltir ar gyfer gwasanaethau SP yn y dref agosaf, ac i fusnesau lleol sy'n defnyddio'r cyfleusterau SP. Cred yr Is-bostfeistr bod hyn hefyd yn "cadw'r pentref yn hyfyw" ac mae'n rhan bwysig o "galon y pentref".

C91. Mae'r Is-bostfeistr yn dadlau y caiff y gwelliannau a wneir i ffrynt y siop ac i'r system ddiogelwch, gan ddefnyddio'r ail grant PODF, effaith fwy sylweddol ar y gymuned ehangach, ac felly annog rhagor o dwristiaid i ymweld â'r ardal. Mae hyn hefyd yn bwysig i sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu cynnal yn y gymuned leol (o ganlyniad i wariant gan dwristiaid).

*Y dyfodol*

C92. Yn y dyfodol gallai'r PODF gysylltu'n well â'r cynllun SP Lleol, drwy gynorthwyo i ddarparu gwelliannau cyfalaf i fusnesau dim-SP i'w galluogi i gymryd cyfrifoldeb am y gwasanaeth SP. Ni fydd y swyddfa bost hon yn debygol o fod angen cymorth cyfalaf yn y dyfodol, ond fe wnaeth yr Is-bostfeistr awgrymu y byddai ariannu refeniw yn ddefnyddiol i ymestyn oriau agor y busnes yn gyffredinol.

*Adborth gan aelodau'r gymuned a chynrychiolwyr y gymuned*

C93. Fel rhan o'r astudiaeth achos hon, ymgynghorwyd â dau gynrychiolydd y gymuned a chwech o drigolion lleol.

*Ymwybyddiaeth a datblygu posiect*

C94. Cyfyngedig oedd yr ymwybyddiaeth ymhlith trigolion lleol o'r newidiadau a wnaed gan ddefnyddio'r grant: nid oedd yr un yn ymwybodol o'r toiled newydd, ond roedd rhai wedi sylwi ar y newidiadau i drefn y fferyllfa. Ni ymgynghorwyd â'r un ohonynt ynglŷn â pha newidiadau oedd eu hangen ar y dechrau (nid oedd hwn yn ofyniad ar gyfer grantiau dan £5,000). Roedd un o'r ddau gynrychiolydd y gymuned yn ymwybodol o'r newidiadau.

*Manteision i gwsmeriaid, y gymuned ehangach a'r economi*

C95. Cafodd aelodau'r gymuned hi'n anodd nodi manteision uniongyrchol y gwaith cyfalaf, yn arbennig y toiled. Fodd bynnag, fe ddywedasant fod ganddynt nawr fwy o ddewis o ganlyniad i drefn newydd y fferyllfa. Roeddent hefyd yn ymwybodol y byddai'n debygol na fyddai'r swyddfa bost wedi aros yn y fferyllfa heb y grant PODF - ac roeddent yn gwerthfawrogi bod cael mynediad

at gyfleusterau SP, yn arbennig gwasanaethau ariannol ar gyfer y boblogaeth oedrannus (yr unig le arall i gael gafael ar arian yn y pentref oedd peiriant codi arian yr oedd yn rhaid talu i godi arian ynddo). Dywedodd un ymgynghorai bod cael swyddfa bost yn y pentref yn faen prawf allweddol ar gyfer llawer o bobl a oedd yn dewis symud i'r ardal (ac roeddent wedi gweld pobl yn symud i Aberporth o leoedd nad oedd â swyddfa bost oherwydd gwell mynediad at gyfleusterau yn Aberporth) ac roedd yn ffactor mewn annog pobl i aros yn yr ardal (yn arbennig pobl oedrannus). Hefyd, teimlai un o gynrychiolwyr y gymuned fod cael mynediad at arian parod yn y pentref yn golygu fod pobl yn fwy tebygol o wario'r arian hwnnw'n lleol.

C96. Cafodd ymgynghoreion hi'n haws rhagweld manteision i'r gymuned yn codi o'r ail grant i wella ffrynt y siop a'r system ddiogelwch, yn cynnwys:

- Gwella delwedd a golwg yr ardal
- Gwneud i bobl "deimlo'n fwy diogel"
- Annog rhagor o dwristiaid i ymweld â'r ardal, gyda manteision dilynol ar gyfer busnesau eraill yn yr ardal

*Y dyfodol*

C97. Teimlai ymgynghoreion fod y swyddfa bost yn rhan hollbwysig o'r pentref, yn arbennig er mwyn darparu mynediad at arian, a bod angen grantiau i sicrhau ei bod yn parhau'n economaidd hyfyw.

**Astudiaeth Achos 5: Swyddfa Bost Llanisien**




*Rhagymadrodd*

C98. Mae Swyddfa Bost Llanisien wedi ei lleoli ar gyrion Caerdydd, tua phedair milltir o'r canol. Codwyd adeiladau yn yr ardal o

amgylch Llanisien, a oedd unwaith yn bentref bychan, (yn cynnwys dwy stad cyngor fawr ac un stad breifat). O ganlyniad, mae'r swyddfa bost yn gwasanaethu ardal eang ac mae ganddi amrywiaeth o gwsmeriaid, yn cynnwys poblogaeth oedrannus sylweddol, teuluoedd â phobl ifanc a busnesau o'r parc busnes lleol.

C99. Mae'r perchnogion wedi bod yn rhedeg swyddfeydd post ers nifer o flynyddoedd, ac wedi bod yn Llanisien ers 16 mlynedd. Yn ei gwaith blaenorol ar fwrdd gweithredol cenedlaethol Ffederasiwn Cenedlaethol yr Is-bostfeistri (NFSP), bu'r Is-bostfeistres yn brysur iawn yn yr ymgyrchu o blaid swyddfeydd post.

C100. Cyn arallgyfeirio, roedd y swyddfa bost yn gwerthu cardiau a nwyddau papur fel ail fusnes preifat yng nghefn y swyddfa bost. Gyda'r dyfarniad grant, roedd yr Is-bostfeistres yn gallu trawsnewid y gofod hwn yn ganolfan rhyngrwyd, sydd hefyd yn gwerthu diodydd poeth.

*Adborth gan Bostfeistri*

*Sail resymegol ac amcanion*

C101. Er y bu'r busnes nwyddau papur yn llwyddiannus yn y gorffennol, yn y pedair i bum mlynedd diwethaf roedd proffidioldeb y busnes hwn wedi dirywio'n fawr nes cyrraedd man isel iawn. Roedd hyn yn adlewyrchiad o'r ffaith bod y siop drws nesaf, a oedd wedi bod yn wag ers nifer o flynyddoedd, wedi ei phrydlesu i siop anrhegion a chardiau a oedd nawr yn cystadlu am fusnes. Hefyd, roedd yr ardal gardiau a nwyddau papur yn edrych yn hen a di-raen.

C102. Gwelwyd effaith y siop gardiau newydd ar yr un pryd â'r dirywiad yn nefnydd gwasanaethau'r swyddfa bost, sefyllfa a welwyd ar draws y wlad. Rhagamcanodd yr Is-bostfeistr bod colli contract pensiynau a budd-daliadau wedi golygu lleihad o tua 40 y cant mewn incwm a bod colli'r contract trwyddedau teledu wedi arwain at ostyyngiad o 10 y cant.

C103. Yr amodau gweithredu hyn a symbylodd y swyddfa bost i wneud cais am ariannu arallgyfeirio. Ofnai'r Is-bostfeistres y byddai'n colli ei busnes eilaidd, ac er ei fod yn broffidiol ynddo'i hun, byddai wedi bod yn anodd gwneud bywoliaeth o'r swyddfa bost yn unig.

C104. Dewisodd yr Is-bostfeistres ganolfan rhyngrwyd oherwydd bod y rhan fwyaf o fathau o siopau manwerthu a gwasanaethau eraill i'w cael yn Llanisien yn barod. Roedd hi'n chwilio am rywbeth a fyddai'n newydd i'r ardal  ac roedd canolfan rhyngrwyd fel petai'n ddewis amlwg. Roedd hi'n gobeithio y byddai'n cael ei defnyddio gan bobl heb gyfrifiaduron, yn arbennig y rheiny oedd eisiau gwella eu sgiliau TG. Roedd hefyd eisiau darparu gemau ar gyfer plant, a fyddai yn eu tro yn dod yn gyfarwydd â defnyddio'r swyddfa bost

*Y broses ariannu grant*




C105. Gwelodd yr Is-bostfeistr y broses gais am grant yn hawdd a syml iawn. Tra bod y wybodaeth ategol yn weddol gynhwysfawr i gynorthwyo gyda llenwi'r ffurflen gais, derbyniodd hefyd gefnogaeth gan Lywodraeth Cynulliad Cymru gan fod ganddi rai pryderon a oedd yn benodol ar gyfer ei syniad arallgyfeirio. Teimlai fod yr ymatebion gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn ddefnyddiol iawn.

C106. Wedi gwneud cais yn y rownd gyntaf ym mis Ebrill 2009, dyfarnwyd y grant i Swyddfa Bost Llanisien ym mis Awst. Derbyniodd Swyddfa Bost Llanisien dros £20,000 (cyfalaf yn bennaf, gyda pheth ariannu refeniw). Y cyfrifiaduron newydd oedd y gost fwyaf sylweddol.

**Tabl C-1: Rhestr o offer a chostau eraill a gwmpaswyd gan y grant**

| Grant cyfalaf | Grant refeniw |
|---|---|
| Pum cyfrifiadur<br>Dau argraffydd<br>Camera digidol ac argraffydd ffotograffau (ar gyfer lluniau pasbort) | Costau cyflogi ar gyfer un gweithiwr newydd am 12 mis i redeg y ganolfan rhyngrwyd<br>Hysbysebu |

| Grant cyfalaf | Grant refeniw |
|---|---|
| Desgiau<br>Arwyddion tu allan a 'byrddau dewislenni' gyda gwybodaeth y swyddfa bost<br>Carpedi newydd ac addurno<br>Iwnifform newydd i'r staff<br>Peiriant coffi (ar brydles) | |

*Ffynhonnell: SQW yn seiliedig ar ymgynghoriadau*

C107. Ochr yn ochr â'r ariannu grant, gwariwyd hefyd £8,000 o arian personol yr Is-bostfeistres ar waith trydanol ac ar welliannau i'r gegin a chefn y swyddfa bost i'w gwneud yn addas ar gyfer gweini te a choffi.

C108. Er mwyn cynorthwyo i benderfynu pa lwybr arallgyfeirio i'w gymryd, gofynnodd yr Is-bostfeistres i bobl yr ardal leol a oedd rhywbeth tebyg i'w gael gerllaw yn barod. Cynhaliwyd ymchwil hefyd dros y rhyngrwyd a chafwyd cyngor rhyngrwyd a thechnegol gan weithiwr TG yr oedd yr Is-bostfeistres yn ei adnabod, ynglŷn â'r offer i'w brynu.

C109. Ni newidiodd y cynllun wedi derbyn y grant, oni bai am ambell i fân addasiad i drefn y ganolfan rhyngrwyd. Cafwyd peth oedi, fodd bynnag, i gael y ganolfan rhyngrwyd yn barod i weithio. I gychwyn, cymerodd sawl wythnos i Swyddfa'r Post Cyfyngedig dynnu'r 'Combi Till' o ganol y swyddfa bost, ac yn ail, i weithwyr ddechrau oherwydd gwyliau.

C110. Yn y diwedd gohiriwyd lansio'r ganolfan rhyngrwyd gan dri mis, er, yn ffodus, roedd hi'n bosibl gwneud y gwaith o amgylch oriau agor y swyddfa bost, felly ni effeithiwyd llawer ar ddarpariaeth gwasanaethau'r swyddfa bost.

*Effeithiau ar y busnes*

C111. Yn ôl yr Is-bostfeistres, mae'r ganolfan rhyngrwyd wedi golygu mwy o gwsmeriaeth ar gyfer y swyddfa bost a'r busnes preifat. Cred bod y ddau fusnes yn ategu'i gilydd, gan fod nifer y cwsmeriaid wedi cynyddu.

C112. Nid yw’r effaith ariannol ar y busnes wedi bod mor ddramatig ag a ddisgwyliwyd, fodd bynnag, gyda llai yn defnyddio’r ganolfan rhyngrwyd na’r nod gwreiddiol. Efallai bod yr oedi yn agor y ganolfan rhyngrwyd wedi cael effaith anffafriol. Agorodd y ganolfan rhyngrwyd ym mis Tachwedd 2009, sef cyfnod prysuraf y flwyddyn ar gyfer y swyddfa bost oherwydd tymor y gwyliau, a olygodd na allai’r staff roi eu holl sylw i’r ganolfan. Hefyd cadwyd cwsmeriaid draw oherwydd y tywydd drwg wedi’r Nadolig. Dim ond ychydig fisoedd yn ddiweddarach y dechreuasant weld budd y newidiadau.

C113. Er y byddai’r Is-bostfeistres yn hoffi gweld mwy o gwsmeriaid yn defnyddio’r ganolfan rhyngrwyd, mae’n parhau wedi ei hargyhoeddi bod arallgyfeirio wedi bod yn werth chweil. Ni chafodd y grant unrhyw effeithiau negyddol ar y busnes, a hebddo efallai na fyddai ganddi nawr fusnes preifat yn y swyddfa bost a mwy na thebyg y byddai ei busnes SP mewn llawer gwaeth sefyllfa yn ariannol.

C114. Heb y PODF ni fyddai perchnogion y swyddfa bost wedi ystyried arallgyfeirio ar y raddfa hon. Efallai byddai “ambell i beth” wedi ei wneud ond ni fyddent wedi ystyried canolfan rhyngrwyd. Ni wyddai'r bostfeistres am unrhyw gymorth tebyg arall.

*Effeithiau ar y gymuned a’r economi leol*




C115. Mae’r ganolfan rhyngrwyd wedi annog pobl na fyddai fel arall yn cael y cyfle, i ddechrau defnyddio cyfrifiaduron. Mae cwsmeriaid yn defnyddio’r ganolfan ar gyfer “chwilio am swyddi, cynllunio gwyliau, cadw mewn cysylltiad â pherthnasau ar Skype”. Ar y cyd â’r elusen Age UK, mae’r swyddfa bost wedi cynorthwyo i drefnu diwrnod ar gyfer aelodau oedrannus y gymuned i ddod i'r ganolfan a dysgu sut i ddefnyddio cyfrifiaduron a’r rhyngrwyd. Nid oedd ambell i un a fynychodd wedi defnyddio cyfrifiadur o’r blaen.

C116. Nid oedd yr Is-bostfeistres yn meddwl bod unrhyw effeithiau negyddol ar fusnesau eraill yn yr ardal, gan nad oedd cystadleuaeth agos ar gyfer canolfan rhyngrwyd. Yn wir, teimlai fod bodolaeth yr offer argraffu yn ddefnyddiol i fusnesau eraill a allai wneud defnydd o'r cyfleusterau.

C117. Barn yr Is-bostfeistres yw bod arallgyfeirio wedi diogelu swyddi yn y ganolfan rhyngrwyd (un swydd llawn amser a thair swydd rhan amser). Er y byddai'r swyddfa bost yn dal ar agor, heb y busnes preifat, efallai na fyddai'r bostfeistres wedi gallu parhau i gyflogi'r holl weithwyr. Roedd y ganolfan rhyngrwyd hefyd wedi arwain at i'r busnes gyflogi gweithiwr newydd, gyda'r rôl o redeg y ganolfan. Parhaodd y gweithiwr i weithio yn y swyddfa bost am yn hwy na'r flwyddyn y gwnaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ariannu'r swydd (gyda'r grant refeniw).

*Dyfodol Swyddfa Bost Llanisien ac ariannu*

C118. Ar gyfer y dyfodol rhagweladwy, mae'r Is-bostfeistres yn gobeithio parhau â'i dau fusnes yn Swyddfa Bost Llanisien. Mae'n fwriad ganddi hefyd os yn bosibl "i wneud mwy sydd o fudd i'r rheiny sydd heb gyfrifiadur", megis dosbarthiadau i wella llythrennedd cyfrifiadurol. Efallai y bydd hefyd yn defnyddio'r cyfrifiaduron ar gyfer dosbarthiadau celf ddigidol.

C119. Pe bai rhagor o ariannu ar gael gan Lywodraeth Cymru yn y dyfodol, mae'n debygol y byddai Swyddfa Bost Llanisien yn gwneud cais. Yn hytrach na chynyddu arallgyfeirio, byddent yn ategu'r hyn sydd yno'n barod yn y ganolfan rhyngrwyd. Mae rhai posibiliadau'n cynnwys ariannu ar gyfer hysbysebu neu ddarpariaeth hyfforddiant cyfrifiaduron sylfaenol ar gyfer aelodau'r gymuned.

C120. Ar yr un pryd mae'r Is-bostfeistr o'r farn y dylai'r swm y mae unrhyw swyddfa bost yn ei dderbyn gael ei gyfyngu. Awgrymodd uchafswm o £10,000 ar gyfer cronfeydd yn y dyfodol. Byddai hyn yn galluogi rhagor o swyddfeydd post yng Nghymru i gael eu cynnwys, gan fod bron pob swyddfa bost ar y rhwydwaith angen cymorth i gynnal eu hyfywedd ariannol.

*Adborth gan aelodau'r gymuned*

C121. Oherwydd yr anhawster i gael gafael ar aelodau'r gymuned i siarad â hwy, mae'r canlynol dim ond yn adlewyrchu barn un aelod o'r gymuned sy'n gwsmer rheolaidd yn y ganolfan rhyngrwyd, ac felly efallai nad yw'n gynrychioliadol.

C122. Roedd yr aelod o'r gymuned yn meddwl bod y newidiadau a wnaethpwyd yn Swyddfa Bost Llanisien yn briodol iawn gan eu bod yn "dod â'r swyddfa bost i mewn i'r unfed ganrif ar hugain". Yn gyffredinol, roedd wedi sylwi bod y ganolfan wedi dod â mwy o bobl i'r swyddfa bost. Teimlai ei fod ef yn unigol wedi elwa o'r ganolfan oherwydd pan fydd yn mynd i'r swyddfa bost bydd hefyd yn defnyddio'r cyfrifiadur ar gyfer bancio ar y we ac eBay, er enghraifft.

C123. O ran manteision i'r gymuned, y manteision mwyaf amlwg oedd manteision i blant lleol. Er na ymgynghorwyd ag ef ynglŷn â pha newidiadau oedd yn digwydd yn y swyddfa bost, roedd yn ymwybodol bod gan yr Is-bostfeistres farchnad darged o blant, yn arbennig rhai o'r ysgol gyfagos. Credai bod y ganolfan yn dod â hwy oddi ar y stryd ac yn rhoi cyfle iddynt wneud eu gwaith cartref. Roedd yn arbennig o bwysig i'r plant hynny yr oedd eu teulu ag ond un cyfrifiadur, neu yn wir dim un o gwbl, a oedd yn golygu nad oeddent o reidrwydd yn gallu ei ddefnyddio pan oeddent ei angen.

C124. Ni nododd y cwsmer unrhyw effeithiau negyddol, ac yn wir roedd o'r farn bod yr Is-bostfeistres wedi creu niche â'r ganolfan: "er bod yr hyn oedd yn y Swyddfa Bost cyn hyn yn addas ar gyfer deng mlynedd yn ôl, ni allwch aros yn yr unfan drwy'r amser heb syrffedu. Mae'r newidiadau wedi rhoi bywyd newydd i'r Swyddfa Bost".

C125. Roedd yn gefnogol iawn o'r ariannu grant ar gyfer arallgyfeirio swyddfeydd post, gan feddwl y dylai cymorth fod ar gael pan oedd swyddfeydd post ei angen ac nid dim ond ar adegau penodol pan fo'r llywodraeth yn penderfynu sefydlu grant.

## Astudiaeth Achos 6: Swyddfa Bost Y Drenewydd

***Rhagymadrodd***



C126. Mae Swyddfa Bost y Drenewydd wedi ei lleoli yng nghanol tref fwyaf Powys. Mae'r swyddfa bost nawr yn gartref i siop parti, sy'n gwerthu popeth o gardiau a balwnau i wisgoedd ffansi, diolch i'r grant PODF am lai nag £20,000 a dderbyniodd ym mis Ebrill 2009, a oedd yn gymysgedd o ariannu refeniw a chyfalaf. Defnyddiwyd y grant ar gyfer ailddodrefnu'r siop, prynu peiriannau ar gyfer gorchuddio a chwythu balwnau a hyfforddi staff ar sut i ddefnyddio'r offer. Dechreuodd y prosiect yng nghanol 2009 a chymrodd tua chwe mis i'w gwblhau.

***Adborth gan Bostfeistri***

*Sail resymegol ac amcanion*

C127. Ysgogwyd yr Is-bostfeistr i wneud cais am grant PODF gan fod y swyddfa bost yn colli arian ac roedd yn poeni y byddai'n rhaid iddynt gau'r busnes o fewn pum mlynedd, oherwydd nad oedd yn ariannol hyfyw. Roedd hefyd yn poeni bod eu cystadleuwyr mewn trefi cyfagos, a oedd yn arallgyfeirio, yn denu eu cwsmeriaid.

C128. Oherwydd y llwyddiant yn gwerthu balwnau ffoil fel rhan o'u cymysgedd o gynhyrchion am rhwng deuddeg a deunaw mis cyn cyflwyno'r cais am grant, penderfynodd yr Is-bostfeistr arallgyfeirio drwy ychwanegu siop parti. Ystyriwyd dewisiadau eraill ar raddfa lai, a thrafodwyd y syniad gydag aelodau'r gymuned a staff yn gyntaf, gan gynnwys un oedd wedi gweithio mewn siop gardiau yn y gorffennol ac a oedd â gwybodaeth dda am y galw am wahanol gynhyrchion parti yn yr ardal.

C129. Drwy fuddsoddiad grant roedd yr Is-bostfeistr eisiau gwella hyfywedd ariannol y busnes, gwasanaethu'r gymuned drwy ymateb i'w ceisiadau am gynhyrchion ychwanegol a hefyd diogelu rhag colli swyddi.

*Proses*

C130. Roedd yr Is-bostfeistr yn teimlo bod y broses gais am y grant yn hawdd. Roedd yr ymateb ychydig yn araf. Roedd cyflymder talu'r grant yn ddigonol; talwyd am y gwaith yn wreiddiol gan ddefnyddio cyfleuster gorddrafft, unwaith iddynt dderbyn y llythyr cynnig, ac yna fe'i hawliwyd yn ôl drwy gyfres o anfonebau. Yr unig welliant a nododd yr Is-bostfeistr ar gyfer y broses oedd dileu'r angen am dri dyfynbris am waith gan fod hyn yn anodd ac yn cymryd llawer o amser. Teimlai'r Is-bostfeistr fod y person cyswllt yn Llywodraeth Cymru, a ddarparodd gefnogaeth drwy'r broses gais ac unwaith yr oedd y prosiect wedi dechrau, yn ddefnyddiol iawn ac roedd wedi egluro'r broses ar gyfer talu'r grant yn drylwyr.

C131. Cyfrannodd yr Is-bostfeistr £4,500 tuag at arallgyfeirio cyn derbyn y grant; unwaith y derbyniwyd y grant galluogodd y broses arallgyfeirio i barhau. Ar yr un pryd ag y derbyniodd y grant PODF elwodd yr Is-bostfeistr hefyd o'r Rhaglen Rhyddhad Ardrethi Busnes.

C132. Dechreuodd y prosiect ar unwaith wedi derbyn y grant. Cadwodd y prosiect at y cynllun gwreiddiol a defnyddiwyd y grant yn bennaf i ail-ddodrefnu'r siop a phrynu carped newydd a dau stand cardiau. Defnyddiwyd gweddill y grant i brynu offer arbenigol ar gyfer gorchuddio a chwythu balwnau heliwm a hefyd er mwyn hyfforddi'r staff i ddefnyddio'r peiriannau hyn.

C133. Nid yw'r Is-bostfeistr o'r farn y byddai wedi gallu dod o hyd i gymorth tebyg i'r PODF yn unman arall yn y sector cyhoeddus na phreifat, a'r unig ffordd y byddai wedi gallu ariannu'r newidiadau hyn fyddai drwy ddefnyddio ei arian ei hun. Fodd bynnag, oherwydd perfformiad gwael y swyddfa bost cyn derbyn y grant byddai hyn wedi cymryd tua phum mlynedd i'w gwblhau.

*Canlyniadau ac effeithiau*

C134. Dros gyfnod o ddwy flynedd mae'r trosiant wedi codi o gyfartaledd o £200 yr wythnos i £1300 yr wythnos. Mae trosiant y swyddfa bost wedi codi gan tua 5% sydd wedi ei adlewyrchu mewn cynnydd cymesurol yng nghyflog yr Is-bostfeistr. Oherwydd y cynnydd sylweddol mewn nifer cwsmeriaid mae'r swyddfa bost erbyn hyn yn prosesu trwyddedau gyrru ac wedi cymhwyso ar gyfer gwerthu cardiau rhodd, sy'n brosesau a ddarperir yn unig gan y swyddfeydd post mwyaf eu maint a mwyaf llwyddiannus. Mae busnes y swyddfa bost hefyd wedi ehangu i gynnwys pedwar gwasanaeth allgymorth ar draws tri phentref.

C135. Wedi cwblhau'r prosiect yn nhymor yr hydref 2009, dechreuodd y gwerthiant gynyddu ar unwaith ac o fewn blwyddyn roedd wedi cynyddu gan 30-40%. Fodd bynnag, digwyddodd y rhan fwyaf o'r cynnydd mewn gwerthiant yn ystod 2011. Mae'r Is-bostfeistr yn credu bod yr holl fanteision i'r busnes yn gysylltiedig â derbyn y grant. Cred y bydd trosiant yn parhau i gynyddu yn y pump i ddeng mlynedd nesaf a bydd yn parhau i ehangu i'r marchnadoedd corfforaethol a phartïon priodas. Hefyd, dechreuodd werthu ei gynhyrchion ar eBay ym mis Mawrth 2011 ac erbyn hyn mae'n gwneud bron i £800 yr wythnos mewn gwerthiant.

C136. Mae'r manteision i'r economi leol hyd yma yn cynnwys diogelu saith swydd a chreu tair[31] ar gyfer trigolion lleol, gyda dwy arall yn debygol o gael eu recriwtio yn y dyfodol agos. Mae'r rheiny a gyflogwyd gan y swyddfa bost hefyd wedi eu huwch-sgilio, boed hwy'n staff llawn amser neu ar brofiad gwaith.

C137. Mae pobl yn dod i'r siop parti o gyn belled ag Aberystwyth a'r Amwythig gan nad oes dim byd tebyg o fewn 25 milltir. Tra yn y dref maent hefyd yn gwario arian mewn siopau lleol a bydd yr Is-bostfeistr yn aml yn cyfeirio pobl sy'n edrych am gynhyrchion eraill at gyflenwyr lleol, sy'n fanteisiol i fusnesau eraill yn yr ardal. Mae siopau lleol eraill hefyd yn ddibynnol ar bobl yn gallu cael

[31] Un ohonynt yn siaradwr Cymraeg ychwanegol ac felly cynyddu darpariaeth gwasanaethau dwyieithog.

gafael ar arian parod a'i wario yn lleol. Oherwydd y lefel o amddifadedd a'r gyfran uchel o bobl anabl, oedrannus a di-waith yn yr ardal, mae'r rhan fwyaf o bobl yn delio mewn arian parod - mae'r swyddfa yn talu allan £150,000 yr wythnos, gyda'r mwyafrif ohono'n cael ei wario yn yr economi leol.

C138. Yn dilyn ail-ddodrefnu'r siop argymhellodd yr Is-bostfeistr y ffitwyr siop i Is-bostfeistri eraill a oedd yn derbyn grantiau PODF ac o ganlyniad cawsant waith yn dodrefnu tair swyddfa bost arall yn yr ardal. Maent hefyd yn noddi'r tîm pêl-droed lleol ac yn hysbysebu yn y papur lleol.

C139. Mae'r gymuned wedi elwa o'r prosiect gan ei bod wedi cynnal mynediad at wasanaethau SP a hefyd wedi darparu gwasanaethau allgymorth ar gyfer cymunedau ehangach. Mae'r gymuned wedi cael dewis mawr o gynhyrchion a gwasanaethau newydd a fforddiadwy sydd ddim ar gael yn unman arall o fewn 25 milltir, felly mae manteision ariannol o ran costau trafnidiaeth.

C140. Mae'r Is-bostfeistr wedi gwneud cais am grant pellach gwerth £5,000 i brynu fan ac offer er mwyn codi arddangosfeydd ar safleoedd i leihau costau cludiant ac mae ar hyn o bryd yn cynyddu cynhyrchion gwisg ffansi y siop ac yn bwriadu troi ystafell gefn y siop yn ystafell wisgoedd yn yr hir dymor. Mae hefyd yn y broses o brynu swyddfa bost arall yn Llandrindod y gall ei fab ei rhedeg pan fydd yn gadael y lluoedd arfog yn ddiweddarach eleni, ac mae'n bwriadu arallgyfeirio honno hefyd yn siop parti.

C141. Heb y grant ni fyddai'r swyddfa bost wedi gallu gwneud y newidiadau i'r fath safon ac fe fyddai wedi cymryd llawer iawn yn hwy i wneud hynny - tua phum mlynedd, ac erbyn hynny byddai'r swyddfa bost wedi cau.

*Y dyfodol*

C142. Pe câi'r rhaglen ei hail-lansio yn y dyfodol, byddai'n ddefnyddiol pe bai'r broses gais yn gyflymach. Yn fwy pwysig mae angen defnyddio'r grant ar gyfer prosiectau arallgyfeirio yn unig ac nid addasu adeiladau swyddfa bost, Dylai pob derbynnydd grant gael ymweliad gan gynrychiolydd Llywodraeth

Cymru cyn ac ar ôl dyfarniad y grant, er mwyn canfod y gwerth am arian gan y gwelliannau a wnaed.

C143. Bydd y gofyn am gymorth tebyg yn y dyfodol yn dibynnu ar ehangiad y siop parti ac a fyddent angen adeilad mwy neu beidio yn y dyfodol.

***Adborth gan aelodau'r gymuned a chynrychiolwyr y gymuned***

*Ymwybyddiaeth a datblygu prosiect*

C144. Daeth y gymuned yn ymwybodol o'r prosiect unwaith yr oedd yn digwydd. Y tro cyntaf yr oeddent yn ymwybodol ohono oedd pan gaewyd y drws ffrynt gwreiddiol a bu'n rhaid iddynt ddefnyddio'r fynedfa ochr, er bod arwyddion yn rhoi manylion y gwaith a oedd yn digwydd yn y swyddfa bost tra bod y gwaith yn mynd rhagddo.

*Manteision i gwsmeriaid, y gymuned ehangach a'r economi*

C145. Roedd trigolion lleol yn falch eu bod yn dal i allu cael mynediad at eu gwasanaethau SP a thalu'r dreth gyngor a chasglu eu credyd treth gweithio, budd-daliadau a chynhaliaeth plant. Roedd y rhan fwyaf o'r manteision a grybwyllwyd gan aelodau'r gymuned yn ymwneud â'r gweithgareddau dim-SP. Gwnaethant son am: pa mor gyfleus oedd gallu cael popeth mewn un lle; y gallu i ddod o hyd i bethau'n haws oherwydd trefn dda y siop; bod yn dawel eu meddwl bod y cynhyrchion a brynir wedi eu gwarantu ac o safon dda; nifer eang y cynhyrchion a gynigir a'r gwasanaeth personol a ddarperir; gwerth da am arian.

C146. Yn fwy eang, mae'r swyddfa bost a'r siop parti wedi gwella lles cymunedol gan ei bod yn gadarnhaol iawn i gael rhywbeth sy'n ffynnu pan fo llawer o siopau eraill yn yr ardal leol yn/wedi cau. Mae'r swyddfa bost nawr yn llawer prysurach, mae ei golwg yn llawer gwell ac mae ganddi lawer mwy o gwsmeriaid nag a arferai ei gael. Soniodd busnesau eBay lleol am werth y swyddfa bost i'w busnesau ac y byddent 'ar goll hebddi'. Mae'r prisiau isel yn ei gwneud hi'n bosibl i bobl fynychu a chynnal digwyddiadau er mwyn codi ysbryd pobl a chael goblygiadau cadarnhaol ar fusnesau lleol eraill.

C147. Cred y gymuned y byddai'r swyddfa bost wedi parhau fel ag yr oedd heb y grant - fe'i ystyrir yn wasanaeth cyhoeddus a fydd wastad yno.

*Y dyfodol*

C148. Dywedodd y gymuned y dylid dim ond rhoi cefnogaeth mewn ardaloedd lle y ceir digon o gwsmeriaid i gyfiawnhau'r arallgyfeirio a bod angen darparu'r gefnogaeth gan gorff annibynnol (nid POL).

# Atodiad D:Ymgynghoreion

Rhestrir yr unigolion yr ymgynghorwyd â hwy fel rhan o'r gwerthusiad hwn isod.

**Tabl D-1: Ymgynghoreion**

| Enw | Swydd | Sefydliad |
|---|---|---|
| Lisa Clarridge | Rheolwr Cronfa | Llywodraeth Cymru |
| Charlotte Anscombe | Rheolwr Cronfa | Llywodraeth Cymru |
| Chris Lewis | Ysgrifennydd Rhanbarthol | Ffederasiwn Cenedlaethol yr Is-bostfeistri |
| Huw Roberts | Cyfarwyddwr Cenedlaethol Cymru | Swyddfa'r Post Cyfyngedig (Grŵp y Post Brenhinol) |
| Keith Richards | Cyngor Gweithredol, Aelod o'r Pwyllgor Negodi | Ffederasiwn Cenedlaethol yr Is-bostfeistri |
| Liz Withers | Llais Defnyddwyr Cymru | Pennaeth Polisi |
| Stuart Taylor | Pennaeth Cysylltiadau Allanol | Swyddfa'r Post Cyfyngedig |

*Ffynhonnell: SQW*